# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhaglen | 2 |
| 2 - Cofnodion y cyfarfod diwethaf | 6 |
| 9 - Ad-drefnu Llywodraeth Leol | 20 |
| Atodiad 1 | 24 |
| 10 - Polisi Tal y Cyngor | 71 |
| 11 - Diwygio'r Cyfansoddiad | 72 |
| 12 - Penodi Aelod Etholedig i'r Pwyllgor Safonau | 95 |
| 13 - Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 2013-14 | 97 |
| Atodiad 1 | 99 |
| 14(c) - Rhybudd o Gynnig - ymateb ynglyn â'r refferendwm ar annibyniaeth i'r Alban | 163 |

**Adran y Prif Weithredwr**
**Chief Executive's Department**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

**Y CYNGOR**

**THE COUNCIL**

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**1.00pm, DYDD IAU, 9 HYDREF 2014**

**1.00pm, THURSDAY, 9 OCTOBER 2014**

Lleoliad / Location

**Siambr Dafydd Orwig**
**Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**Eirian Roberts**

**(01286) 679018**

**maireirianroberts@gwynedd.gov.uk**

(DOSBARTHWYD / DISTRIBUTED 2/10/14)

**Dilwyn Williams**
**Prif Weithredwr / Chief Executive**

www.gwynedd.gov.uk

2 Hydref / October 2014

Annwyl Gynghorydd,

**CYFARFOD O GYNGOR GWYNEDD – 9 HYDREF 2014**


**FE'CH GWYSIR TRWY HYN** i gyfarfod o **GYNGOR GWYNEDD** a gynhelir am **1.00PM, DYDD IAU** nesaf, **9 HYDREF 2014 YN SIAMBR DAFYDD ORWIG, SWYDDFA'R CYNGOR, CAERNARFON**, i ystyried y materion a grybwyllir yn y rhaglen a ganlyn.

Dear Councillor,

**MEETING OF GWYNEDD COUNCIL – 9 OCTOBER 2014**

**YOU ARE HEREBY SUMMONED** to attend a meeting of **GWYNEDD COUNCIL** which will be held at **1.00PM** on **THURSDAY** next, **9 OCTOBER 2014 in SIAMBR DAFYDD ORWIG, COUNCIL OFFICES, CAERNARFON** to consider the matters mentioned in the following agenda.

Yr eiddoch yn gywir/Yours faithfully,



Prif Weithredwr/Chief Executive

Bydd yr ystafelloedd a ganlyn ar gael i'r grwpiau gwleidyddol yn ystod y bore:-
The following rooms will be available for the political groups during the morning:-

Plaid Cymru - Siambr Dafydd Orwig
Annibynnol/Independent – Siambr Hywel Dda
Llais Gwynedd – Ystafell Gwyrfai
Democratiaid Rhyddfrydol/Liberal Democrats - Ystafell Llyfni
Llafur/Labour – Cefn Siambr Dafydd Orwig/Rear of Siambr Dafydd Orwig

# RHAGLEN

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. COFNODION

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf, 2014 fel rhai cywir (ynghlwm).

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

## 5. GOHEBIAETH, CYFATHREBIADAU, NEU FUSNES ARALL

Derbyn unrhyw ohebiaeth, gyfathrebiadau neu fusnes arall a ddygir gerbron yn arbennig dan gyfarwyddyd y Cadeirydd.

## 6. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 7. CWESTIYNAU

Ystyried unrhyw gwestiynau y rhoddwyd rhybudd priodol ohonynt o dan y Rheolau Gweithdrefn.

## 8. CYFLWYNIAD GAN YR AELOD CABINET ECONOMI

Derbyn cyflwyniad llafar gan yr Aelod Cabinet Economi.

## 9. AD-DREFNU LLYWODRAETH LEOL

Cyflwyno adroddiad Arweinydd y Cyngor (ynghlwm).

## 10 POLISI TÂL Y CYNGOR

Ystyried adroddiad yr Aelod Cabinet Adnoddau (ynghlwm).

## 11. DIWYGIO'R CYFANSODDIAD

Cyflwyno adroddiad Arweinydd y Cyngor (ynghlwm).

## 12. PENODI AELOD ETHOLEDIG I'R PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm).

## 13. ADRODDIAD PERFFORMIAD CYNGOR GWYNEDD 2013/14

Cyflwyno adroddiad Arweinydd y Cyngor (ynghlwm).

## 14. RHYBUDDION O GYNNIG

(A) Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrtho o dan y Rheolau Gweithdrefn, bydd y Cynghorydd Owain Williams yn cynnig fel a ganlyn:-

**"O ganlyniad i'r ymosodiadau diweddaraf ar diriogaeth y Palesteiniaid sy'n byw ar Lain Gaza gan Wladwriaeth Israel, mae'r Cyngor hwn yn galw am waharddiad masnachu ar Israel ac yn condemnio'r gor-ymateb a'r mileindra a ddefnyddiwyd.**

**Ymhellach i hyn, 'rydym yn cadarnhau a thanlinellu penderfyniad y Cyngor hwn i beidio buddsoddi yn Israel na sefydliadau'r wlad honno.**

**Credwn os bydd Gwynedd yn arwain y ffordd bod gobaith i gynghorau eraill yng Nghymru a thu hwnt ddilyn ein esiampl."**

Derbyniwyd rhybudd trefniadaethol gan yr aelod hefyd yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn yn gofyn am gael trafod y mater ar y diwrnod yn hytrach na'i gyfeirio i'r pwyllgor perthnasol.

(B) Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrthi o dan y Rheolau Gweithdrefn, bydd y Cynghorydd Mair Rowlands yn cynnig fel a ganlyn:-

**"Bod y Cyngor hwn yn defnyddio parth *.Cymru* gan ddefnyddio y cyfeiriad gwefan *gwynedd.cymru* yn hytrach na *gwynedd.gov.uk* ac ein bod yn annog cynghorau eraill trwy Gymru i ddilyn ein hesiampl."**

Derbyniwyd rhybudd trefniadaethol gan yr aelod hefyd yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn yn gofyn am gael trafod y mater ar y diwrnod yn hytrach na'i gyfeirio i'r pwyllgor perthnasol.

(C) Cyflwyno, er gwybodaeth, lythyr gan Brif Weinidog yr Alban mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cynghorydd Alwyn Gruffydd i'r cyfarfod diwethaf ynghylch y refferendwm ar annibyniaeth i'r Alban (ynghlwm).

# Y CYNGOR, 17.07.14

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Dewi Owen (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Dilwyn Morgan (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:** Craig ag Iago, Stephen Churchman, Lesley Day, Edward Dogan, Gwynfor Edwards, Dyfed Edwards, Elwyn Edwards, Huw Edwards, Trevor Edwards, Thomas Ellis, Alan Jones Evans, Aled Evans, Jean Forsyth, Gweno Glyn, Simon Glyn, Gwen Griffith, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Siân Gwenllian, Annwen Hughes, Chris Hughes, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, Jason Humphreys, Peredur Jenkins, Aeron Jones, Anne Lloyd Jones, Dyfrig Jones, Elin Walker Jones, Eric Merfyn Jones, John Wynn Jones, Linda Ann Jones, Sion Wyn Jones, Eryl Jones-Williams, Beth Lawton, Dilwyn Lloyd, June E.Marshall, Dafydd Meurig, Linda Morgan, Christopher O'Neal, W.Roy Owen, William Tudor Owen, Nigel Pickavance, Peter Read, Caerwyn Roberts, John Pughe Roberts, Liz Saville Roberts, Mair Rowlands, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Paul Thomas, Ann Williams, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gethin Glyn Williams, Hefin Williams, John Wyn Williams, Owain Williams, R.H.Wyn Williams, Mandy Williams-Davies ac Eurig Wyn.

**Hefyd yn bresennol:** Dilwyn Williams (Darpar Brif Weithredwr), Morwena Edwards ac Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwyr Corfforaethol), Dilys Phillips (Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol / Swyddog Monitro), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Arwel E.Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol), Iwan Evans (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol/ Dirprwy Swyddog Monitro) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Anwen Davies, Brian Jones, Charles W.Jones, Llywarch Bowen Jones, Michael Sol Owen, W.Gareth Roberts, Mike Stevens, Gruffydd Williams a Robert J.Wright.

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd Huw Edwards.

## 1. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blynyddol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 1 Mai, 2014 fel rhai cywir.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cynghorydd Linda Wyn Jones fuddiant personol yn eitem 13 ar y rhaglen – Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol 2013/14 – oherwydd ei bod yn gyfarwyddwr Cwmni Seren.

'Roedd yr aelod o'r farn nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a chymerodd ran lawn yn y drafodaeth ar yr eitem.

Datganodd y Cynghorydd Eryl Jones-Williams fuddiant personol yn eitem 13 ar y rhaglen - Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol 2013/14 - oherwydd bod ei wraig yn derbyn gwasanaeth gan yr adran.

'Roedd yr aelod o'r farn nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a chymerodd ran lawn yn y drafodaeth ar yr eitem.

Datganodd y Darpar Brif Weithredwr a'r Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol / Dirprwy Swyddog Monitro fuddiant personol yn eitem 12 ar y rhaglen – Swyddog Cofrestru Etholiadol / Swyddog Canlyniadau – oherwydd bod yr adroddiad yn cyfeirio atynt, a gadawsant y Siambr yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

**3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

(a) Cydymdeimlad

Cydymdeimlwyd â theulu'r Prifardd Gerallt Lloyd Owen.

Nodwyd hefyd bod y Cyngor yn dymuno cofio am eraill o fewn cymunedau'r sir oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

Safodd y Cyngor fel arwydd o barch.

(b) Diolch

Diolchwyd i holl staff y Cyngor a fu'n ymwneud â threfniadau Eisteddfod yr Urdd Meirionnydd eleni. Bu'n Eisteddfod lwyddiannus iawn a gofynnwyd i'r Cyngor basio eu gwerthfawrogiad ymlaen at y swyddogion hynny.

(c) Llongyfarchiadau

Llongyfarchwyd y canlynol:-

Mr Edmund Bailey, Llanbedr, Harlech ar ei benodi yn Arglwydd Raglaw newydd Gwynedd i olynu ei Anrhydedd Huw Morgan Daniel.

Holl ieuenctid y sir a lwyddodd yn Eisteddfod yr Urdd eleni a nodwyd bod tair o'r prif wobrau wedi dod i Wynedd.

Athletwyr o Wynedd ar lwyddo i ddod yn rhan o Dîm Cymru ar gyfer Gemau'r Gymanwlad yng Nglasgow ddiwedd y mis.

Y canlynol ar eu llwyddiant yn Seremoni Wobrwyo Chwaraeon Ysgol, a'u hathrawon am eu dysgu:-

- Bachgen Cynradd y Flwyddyn – Cai Llwyd Jones – Ysgol Bethel
- Geneth Uwchradd y Flwyddyn – Mari Davies – Ysgol Syr Hugh Owen
- Ysgol y Flwyddyn – Ysgol Sarn Bach
- Disgybl y Flwyddyn Tîm Pobl Ifanc Egnïol – Elfed Selman – Ysgol Uwchradd Tywyn
- Timau'r Flwyddyn – Tîm Pêl Droed dan 16 – Ysgol Eifionydd, a Thîm Hoci dan 16 - Ysgol Uwchradd Tywyn.
- Gwirfoddolwr y Flwyddyn – David Johnson
- Hyfforddwr y Flwyddyn - Owain Williams - Ysgol Bro Tegid

(ch) Nodyn

Nodwyd bod yr holl aelodau wedi derbyn copi o Gynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg 2014-17 a Siarter Iaith Ysgolion Cynradd Gwynedd ac fe'u hanogwyd i'w darllen.

## 4. DEISEBAU

(a) Nodwyd bod cais i gyflwyno deiseb wedi'i dderbyn gan y Cynghorydd Louise Hughes, yn unol â Rheol Gweithdrefn 13. Gwahoddwyd yr aelod i gyflwyno'r ddeiseb, i grynhoi ei ddiben ac i wneud unrhyw sylwadau i ategu ei gynnwys. Nododd:-

- Bod Syniad Sothach yn galw ar y Cyngor i ail-ystyried y bwriad i gasglu ysbwriel bob 3 wythnos.
- Bod dros 2,000 o bobl wedi arwyddo'r ddeiseb bapur, gyda miloedd fwy yn ei harwyddo ar-lein.
- Bod arbenigwyr amgylcheddol wedi rhybuddio y byddai'r ysbwriel yn denu llygod mawr a phryfed fyddai'n nythu'n agos at gyflenwadau bwyd gan ddod â llygod mawr yn agosach at dai pobl.
- Y byddai baw llygod yn lledaenu afiechydon ac yn peryglu iechyd y cyhoedd.
- Bod gan Syniad Sothach gynlluniau eraill i gynyddu ailgylchu heb symud i gasgliadau 3 wythnos ac y trefnwyd cyfarfod gyda Russell Owens, Pennaeth Rhaglen Newid Cydweithredol Llywodraeth Cymru i drafod hynny.
- Y gofynnid i'r Arweinydd ganiatáu trafodaeth yn y Cyngor llawn fel bod gan bob aelod bleidlais ddemocrataidd ar y mater.

Yn absenoldeb yr Aelod Cabinet Amgylchedd, y Cynghorydd Gareth Roberts, ymatebodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Dyfed Edwards, i'r cyflwyniad drwy nodi:-

- Nad bwriad y Cyngor oedd casglu ysbwriel bob 3 wythnos yn unig ac y parheid i gasglu'r bocsys glas a'r biniau brown, ayb, yn wythnosol gyda'r gwastraff gweddilliol yn unig yn cael ei gasglu bob 3 wythnos.
- Mai hanner poblogaeth y sir yn unig oedd yn ailgylchu a rhaid newid y drefn er mwyn annog rhagor i wneud hynny.
- Bod y Cyngor llawn eisoes wedi mabwysiadu Strategaeth Wastraff ac wedi blaenoriaethu'r maes fel rhan o'i Gynllun Strategol a bod cyfrifoldeb ar y Cabinet i weithredu yn unol â hynny.
- Bod ganddo yntau ddeiseb, sef y pwysau ar ei ysgwyddau gan genhedlaeth yfory sy'n pwyso arnom i warchod yr amgylchedd a'n hadnoddau naturiol ac i beidio parhau i daflu ysbwriel i dyllau mawr yn y ddaear.
- Ei fod yn cymryd y cyfrifoldeb o ddifri' a diau fod gweddill y sir hon am fyw i fyny i'r label o Wynedd Werdd.

Nodwyd y byddai'r ddeiseb yn cael ei throsglwyddo i'r Aelod Cabinet er sylw.

(b) Nodwyd bod cais i gyflwyno deiseb wedi'i dderbyn gan y Cynghorydd Stephen Churchman, yn unol â Rheol Gweithdrefn 13. Gwahoddwyd yr aelod i gyflwyno'r ddeiseb, i grynhoi ei ddiben ac i wneud unrhyw sylwadau i ateg ei gynnwys. Nododd:-

- Bod y ddeiseb, a drefnwyd gan drigolion Pentrefelin ac a lofnodwyd gan 229 o bobl, yn ymwneud â'u pryder ynglŷn â thraffig ar hyd yr A497 rhwng Cricieth a Phorthmadog.
- Y bu'n gohebu gyda'r Cyngor a'r aelodau cynulliad, ayb, ynglŷn â'r mater hwn ers 2002

- Bod gosod arwydd a ysgogir gan gerbydau ym Mhentrefelin rai blynyddoedd yn ôl wedi lleddfu'r broblem, ond rhoddwyd yr arwydd ar fenthyg dros dro i'r Asiantaeth Cefnffyrdd ar gyfer ei ail-ddefnyddio ym Mhenmorfa.
- Yn sgil difrodi'r arwydd gan gerbyd aeth allan o reolaeth, codwyd arwydd newydd yn ei le ar yswiriant, ac 'roedd y trigolion yn galw am ddychwelyd yr arwydd hwn i Bentrefelin.
- Y byddai'r trigolion yn fodlon rhannu defnydd o'r arwydd gyda Phenmorfa, ond gan iddo fod ym Mhenmorfa am gyfnod mwy na'r disgwyl, 'roedd yn hen bryd iddo gael ei ddychwelyd i Bentrefelin.
- Bod gadael arwydd o'r fath yn ei unfan yn barhaol yn lleihau ei effaith a'i fod yn cael mwy o ardrawiad os yw yno am rai misoedd yn unig ar y tro.

Yn absenoldeb yr Aelod Cabinet Amgylchedd, y Cynghorydd Gareth Roberts, ymatebodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Dyfed Edwards, i'r cyflwyniad drwy nodi:-

- Ei fod yn derbyn bod hwn yn fater sy'n bwysig i bobl yr ardal ac y byddai'r ddeiseb yn cael ei throsglwyddo i'r Aelod Cabinet er sylw.
- Yr awgrymid bod yr aelod yn trafod gyda'r Aelod Cabinet er mwyn gweld oes modd symud ymlaen mewn ffordd gadarnhaol.

## 5. CWESTIYNAU

**Cwestiwn gan y Cynghorydd Dafydd Meurig**

"Mae penderfyniad yr Adran Addysg i ddileu bws plant Talybont i Ysgol Llandygai yn codi cwestiynau mawr am y ffordd y mae'r adran yn gwneud â gweithredu penderfyniadau parthed y polisi cludiant addysg. Ydi'r Cyngor yn barod i adolygu penderfyniad fyddai'n arwain at blant mor ifanc â 5 oed yn gorfod defnyddio priffordd brysur ddi-balmant, ac yng nghyd-destun toriadau sylweddol y mae'n ei wynebu dros y blynyddoedd nesaf, ydi'r Cyngor yn fodlon bod ei drefniadau ymgysylltu ac ymgynghori gyda dinasyddion Gwynedd yn addas i bwrpas?"

**Ateb gan y Cynghorydd Gareth Thomas, Aelod Cabinet Addysg**

*(Dosbarthwyd ateb ysgrifenedig yr Aelod Cabinet i'r aelodau yn eu cyfarfodydd grwpiau ar fore'r Cyngor.)*

"'Rwy'n cydnabod bod y newidiadau sy'n digwydd ynglŷn â chludiant plant i'r ysgol yn achosi pryder i nifer o gymunedau. Polisi'r Cyngor llawn hwn sy'n cael ei weithredu yma ac mae'n seiliedig ar ganllawiau'r Llywodraeth. Mae'r Adran Addysg yn cael barn broffesiynol yr Adran Gludiant sy'n pennu pa gartrefi sydd o fewn neu oddi allan i'r ddwy neu dair milltir a hefyd maent yn cael barn broffesiynol swyddogion yr Adran Draffig ar ddiogelwch llwybrau i'r ysgol. Y ddadl gan rieni yn Nhalybont yw bod y llwybr yn anniogel, ond o ddefnyddio'r canllawiau sydd gan y Llywodraeth, yr unig beth 'roedd yn rhaid i'r Adran Addysg ei ystyried oedd yr adroddiad gan y swyddog. Mae yna ganllawiau newydd allan erbyn hyn ac 'rwyf wedi gofyn i'r swyddogion gynnal asesiad arall o dan y canllawiau newydd hyn. Mae'r canllawiau yma yn galluogi i ddau o rieni fod gyda'r asesydd yn gwneud yr asesiad a hefyd mae'n golygu gofyn barn y plant. Cynhaliwyd yr asesiad fore ddoe, ac 'roedd y Cynghorydd Dafydd Meurig yn rhan o hynny, gyda dau riant ac mae'r gwaith o gael barn y plant yn digwydd yr wythnos hon. Nid ydym wedi derbyn y canlyniad eto ond gobeithio y byddwn yn ei gael yn reit fuan. Dyma'r trydydd asesiad sydd wedi'i wneud. Mae'r adran yn derbyn y gallai'r cyfathrebu gyda'r rhieni fod yn well ac 'rydym wedi dysgu gwersi o hyn a bydd y gwersi yn cael eu cymryd i fyny."

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Dafydd Meurig**

“Mae yna ail-edrych wedi bod ar y broblem ym Maesgeirchen. Mae’n amlwg bod yna synnwyr cyffredin wedi dod i mewn i hynny. Fedrwch chi gadarnhau y bydd yna synnwyr cyffredin yn dod i mewn i ail-edrych ar y penderfyniad yn Nhalybont hefyd?”

**Ateb gan y Cynghorydd Gareth Thomas, Aelod Cabinet Addysg**

“’Rwy’n falch bod yna ddatrysiad wedi’i ddarganfod ym Maesgeirchen, ond cwmni preifat wedi gweld cyfle yw hynny. Mae’r swyddogion wedi bod yn gweithio’n agos gyda’r cwmnïau yma a gobeithiwn y bydd y math yma o beth yn gallu digwydd mewn ardaloedd eraill hefyd. Fel y nodais, ‘rydym wedi gofyn am asesiad o dan y canllawiau newydd a chawn weld beth fydd canlyniad hynny maes o law.”

**6. CYFLWYNIAD GAN YR AELOD CABINET CYNLLUNIO**

Derbyniwyd cyflwyniad gan y Cynghorydd John Wyn Williams, Aelod Cabinet Cynllunio yn manylu ar ei gyfrifoldebau yn y meysydd cynllunio, tai, safonau masnach a diogelwch cymunedol.

Mewn ymateb i gwestiynau penodol, atebodd yr Aelod Cabinet:-

- Y cydnabyddid bod rhagor o waith datblygol i’w wneud yng nghyswllt gweithrediad Tai Teg.
- O ran y Bil Teithio Llesol, y cychwynnwyd ar y gwaith ym Mangor ac y byddai’n parhau.
- Na chyfeiriodd yn benodol at yr economi yn ei gyflwyniad gan y byddai’r Cyngor yn derbyn cyflwyniad gan yr Aelod Cabinet Economi maes o law ac, er na chyfeiriwyd at y Cynllun Datblygu Lleol, ‘roedd y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn edrych yn barhaus ar y maes adfywio.
- Y cytunai y dylid cyhoeddi datganiad clir yn pwysleisio mai trefn fewnol y Cyngor o gofnodi oedd yn cael ei farnu yn yr adroddiad hylendid bwyd, ac nid safon y busnesau unigol. Cadarnhaodd hefyd bod yna ail-edrych ar weithdrefnau’r adran yn dilyn cyhoeddi’r adroddiad.
- Ei fod wedi synnu bod y niferoedd ar y rhestr aros am dŷ wedi gostwng i 2,800, gan y bu’r ffigur yn uwch na hynny yn y gorffennol, ac mai gweledigaeth y Cabinet oedd codi cannoedd o dai cymdeithasol er mwyn diwallu anghenion pobl ynghyd â dod â thai gweigion yn ôl i ddefnydd.
- Oherwydd y llwyddwyd i gael grant i gynorthwyo tenantiaid dros dro, nad oedd ôl-ddyledion rhent wedi cynyddu gymaint â’r disgwyl o ganlyniad i’r dreth llofftydd, ond y pryderid beth fyddai’n digwydd ar ôl i’r grant ddarfod.
- Ei fod yn barod iawn i gynnal trafodaethau gyda’r swyddogion ynglŷn â’r cyfyngiadau TAN 15 (Llifogydd) ym Mhorthmadog gan fod angen adeiladu rhagor o dai fforddiadwy yno.
- Na allai dderbyn y sylw na fyddai adeiladu cannoedd o dai ychwanegol yn gwneud dim ond diwallu anghenion pobl o’r tu allan i’r sir. ‘Roedd angen tai yng Ngwynedd, ond ‘roedd yn bwysig eu hadeiladu yn y llefydd cywir a rhaid cael tystiolaeth o’r angen cyn eu codi.
- O ran sylw bod cytundebau adran 106 yn ei gwneud yn anodd i bobl leol godi tai, bod yna rywfaint o lacio wedi bod eisoes ar y canllawiau gyda’r cyfnod byw’n lleol bellach wedi gostwng i 3 blynedd. Petai’n cael ei ostwng ymhellach, byddai’n mynd yn ddibwrpas ac yn arwain at sefyllfa marchnad agored. ‘Roedd yna edrych ar yr adran 106 ac ‘roedd y sefyllfa tai dan ystyriaeth drwy’r adeg.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â safbwynt swyddogion cynllunio mewn apeliadau, eglurodd y Swyddog Monitro fod argymhellion y swyddogion i'r Pwyllgor Cynllunio yn seiliedig ar eu barn broffesiynol ar geisiadau, a phetai'r pwyllgor yn gwneud penderfyniad sy'n groes i argymhelliad y swyddogion, byddai'n anodd i'r swyddogion hynny roi cefnogaeth yn gyhoeddus i farn sy'n groes i'w barn broffesiynol mewn unrhyw apêl ddilynol. O'r herwydd, y drefn a weithredir yw bod aelod yn cynrychioli'r pwyllgor mewn apeliadau lle gwnaed penderfyniad yn groes i argymhelliad y swyddog.

Diolchwyd i'r Aelod Cabinet am ei gyflwyniad.

## 7. ADDASU'R POLISI TÂL

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Adnoddau adroddiad yn argymell addasiad i'r Polisi Tâl er mwyn hwyluso'r gallu i benodi Pennaeth Addysg.

Cynigiwyd yr argymhelliad gan yr Aelod Cabinet ac fe'i eiliwyd.

Yn ystod y drafodaeth, amlygwyd y prif sylwadau a ganlyn:-

- Nodwyd bod rhaid bod yn ofalus iawn os am gynyddu tâl y Pennaeth Addysg mewn cyfnod o dorri swyddi ar draws y Cyngor.
- Codwyd cwestiwn ynglŷn â'r dull o farchnata'r swydd yn wyneb y ffaith mai ond dau ymgeisydd a gafwyd, ond cadarnhaodd yr Aelod Cabinet fod y Cyngor wedi hysbysebu'n eang iawn ac nad oedd yna broblem o safbwynt marchnata'r swydd.
- Heriwyd penderfyniad y Cabinet i ganiatáu i benaethiaid ymddeol yn gynnar ac yna i ofyn am godi cyflog eu holynydd a holwyd oni fyddai'n well llunio Strategaeth Cyflogaeth i ddechrau a rhagdybio y byddai'n rhaid mynd i'r farchnad i chwilio. Atebodd y Darpar Brif Weithredwr fod dyled y Cyngor i'r Pennaeth Addysg presennol yn fawr iawn a bod ganddo'r hawl i ymddeol beth bynnag oherwydd ei oedran. Caniatawyd y cais er mwyn rhoi amser i fynd allan i'r farchnad.
- Awgrymwyd nad oedd yn gwneud synnwyr fod yna gyflogau penaethiaid ysgolion sy'n uwch na'r pennaeth gwasanaeth sy'n gyfrifol am holl gyfundrefn addysg y sir a nodwyd y byddai'r addasiad a gynigid i'r polisi tâl yn golygu y byddai cyflog y Pennaeth Addysg yn uwch na chyflog pob pennaeth ysgol yn y sir.
- Gwerthfawrogwyd y ffaith bod y mater hwn wedi dod gerbron y Cyngor llawn.
- Pwysleisiwyd bod rhaid codi'r cyflog er mwyn denu ymgeiswyr o'r radd flaenaf.
- Nodwyd bod y sefyllfa'n codi cwestiynau difrifol am strwythur y Cyngor. Dyma un o swyddi pwysicaf y Cyngor gyda chyllideb o £90m, sef hanner cyllideb y Cyngor. 'Roedd hon yn swydd statudol ac 'roedd y Cyngor yn ei gosod yn eilradd o fewn y gyfundrefn.
- Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd y Darpar Brif Weithredwr bod cost cynyddu cyflog y Pennaeth Addysg yn fater y byddai'n rhaid ei ariannu o arbedion, ond pe na lwyddid i lenwi swydd y Pennaeth Addysg, byddai'r gost i'r Cyngor yn llawer mwy.

Yn yr hinsawdd bresennol ac yn wyneb adroddiad Williams a'r cydweithio sy'n digwydd eisoes yn y maes addysg, cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant i ychwanegu'r geiriau canlynol at y cynnig gwreiddiol:-

"Yn ogystal, gofynnir i'r Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion agor trafodaethau gydag awdurdodau addysg cyfagos er mwyn gweld a oes modd cydweithio ar lefel uwch-reolaethol ym maes addysg a rhoddir hawl gweithredu i'r pwyllgor i benderfynu ar y ffordd orau o lenwi swydd y Pennaeth Addysg."

Mynegwyd cefnogaeth i'r gwelliant ar y sail bod hynny'n gadael pob opsiwn ar y bwrdd. I'r gwrthwyneb, awgrymwyd ei bod yn gynamserol i gydweithio ar y lefel uchaf bosib' ac y dylai'r Cyngor hwn arwain, yn hytrach na dilyn, cynghorau eraill.

Pleidleisiwyd ar y gwelliant ac fe gariodd.

Pleidleisiwyd ar y cynnig gwreiddiol gyda'r gwelliant ac fe gariodd.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu argymhelliad y Panel Penodi Prif Swyddogion a newid Polisi Tâl y Cyngor ar gyfer y Pennaeth Addysg fel bod uchafswm y raddfa gyflog yn gyson gyda chanolrif y meincnod. Yn ogystal, gofynnir i'r Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion agor trafodaethau gydag awdurdodau addysg cyfagos er mwyn gweld a oes modd cydweithio ar lefel uwch-reolaethol ym maes addysg a rhoddir hawl gweithredu i'r pwyllgor i benderfynu ar y ffordd orau o lenwi swydd y Pennaeth Addysg.**

## 8. Y CYFANSODDIAD NEWYDD

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio adroddiad yn gofyn i'r Cyngor fabwysiadu diwygiadau i'r Cyfansoddiad yn dilyn adolygiad.

Eglurodd y Dirprwy Swyddog Monitro fod angen i'r Cyngor benderfynu p'un ai'r Cabinet ynteu'r Cyngor llawn fyddai â'r hawl i ddod i benderfyniad ar gynigion cau neu sefydlu ysgolion unigol dan y cynllun trefniadaeth ysgolion, a rhoddodd gefndir i'r trefniadau.

Cynigiwyd argymhellion y Pwyllgor Archwilio gan Gadeirydd y Pwyllgor ac fe'i eiliwyd.

(A) Gan gyfeirio at yr hawl i benodi hyd at ddau aelod cyfetholedig, heb bleidlais, ar bob pwyllgor craffu (adran 7.7 o'r Cyfansoddiad), cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant bod unrhyw gyfethol yn cael ei gyfyngu i gyfnod o flwyddyn ar y tro oherwydd bod y pwyllgorau craffu yn delio ag ystod eang o bynciau ac y byddai'n fuddiol cael arbenigwyr o wahanol feysydd yn gwasanaethu arnynt.

Pleidleisiwyd ar y gwelliant ac fe gariodd.

Rhoddwyd rhybudd o welliant pellach.

Nodwyd bod peryg' o hoelio sylw ar un neu ddau o faterion yn unig ac awgrymwyd bod pob aelod yn derbyn copi llawn o'r Cyfansoddiad gan eu hannog i'w ddarllen.

(B) Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant mai'r Cabinet ddylai ddod i benderfyniad ar gynigion cau neu sefydlu ysgol unigol dan y cynllun trefniadaeth ysgolion am y rhesymau canlynol:-

- Mai mater cyfansoddiadol pur yw hyn. Gorfodwyd y Cyngor i symud i drefn Gabinet, ac o wneud hynny, rhaid derbyn y gyfundrefn sy'n mynd gyda hynny, sef bod gan y Cyngor Gabinet, sy'n gweithredu, a gweddill y Cyngor, sy'n dal y Cabinet i gyfri'.
- Gan mai'r Cabinet sy'n atebol, nid yw'n briodol symud un rhan o'i waith i'r Cyngor llawn.
- Na ddymunid gweld llwyfan yn cael ei ddefnyddio i ddibenion gwleidyddol.
- Bod lle i warchod yr aelodau lleol fel nad ydynt yn cael eu tynnu i mewn i'r materion hyn.

Mynegwyd gwrthwynebiad i'r gwelliant am y rhesymau a ganlyn:-

- Os oes yna amheuaeth ynglŷn â threfniadau ymgynghori'r Cyngor, rhaid sicrhau bod hynny'n cael ei wyntyllu a'i graffu'n briodol.
- Bod ethos y gwelliant yn awgrymu bod yna gyfyngu mwy ar yr aelod cyffredin.
- Bod y gwelliant yn annemocrataidd a bod gan bob aelod o'r Cyngor yr hawl i benderfynu ar faterion pwysig i gymunedau'r sir.
- Nad yw'r aelodau lleol yn dymuno cael eu gwarchod rhag cael eu tynnu i mewn i'r materion hyn.

Yn ei sylwadau cloi, nododd cynigydd y gwelliant fod y Cyngor yn rhedeg trefn lle mae yna wahaniaeth clir rhwng y rôl weithredol a'r rôl graffu. Y Cabinet ddylai weithredu'r strategaeth addysg a fabwysiadwyd gan y Cyngor, ond petai'r hawl i benderfynu ar un mater addysg yn cael ei dynnu oddi ar y Cabinet a'i roi i'r Cyngor llawn, ni fyddai modd dal y Cyngor i gyfri' gan na fyddai yna hawl galw i mewn.

Yn unol â Rheol Gweithdrefn 22(6), cofnodwyd y bleidlais ganlynol.

**O blaid y gwelliant: (32)** Y Cynghorwyr Craig ab Iago, Edward Dogan, Dyfed Edwards, Elwyn Edwards, Huw Edwards, Alan Jones Evans, Aled Evans, Sian Gwenllian, Annwen Hughes, Peredur Jenkins, Dyfrig Jones, Elin Walker Jones, Beth Lawton, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Dewi Owen, Caerwyn Roberts, Liz Saville Roberts, Mair Rowlands, Dyfrig Siencyn, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Paul Thomas, Ann Williams, Elfed Williams, Gethin Glyn Williams, Hefin Williams, John Wyn Williams, R.H.Wyn Williams, Mandy Williams-Davies ac Eurig Wyn.

**Atal: (2)** Y Cynghorwyr Selwyn Griffiths ac Anne Lloyd Jones.

**Yn erbyn: (28)** Y Cynghorwyr Stephen Churchman, Lesley Day, Gwynfor Edwards, Trevor Edwards, Thomas Ellis, Jean Forsyth, Gweno Glyn, Simon Glyn, Gwen Griffith, Alwyn Gruffydd, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, Jason Humphreys, Aeron Jones, Eric Merfyn Jones, Linda Ann Jones, Sion Wyn Jones, Eryl Jones-Williams, Dilwyn Lloyd, June E.Marshall, Christopher O'Neal, W.Roy Owen, Nigel Pickavance, Peter Read, John Pughe Roberts, Angela Russell, Eirwyn Williams ac Owain Williams.

(C) Gan gyfeirio at y bwriad i ddirprwyo'r hawl i gyfarwyddwr corfforaethol (neu bennaeth adran a enwebir ganddo), mewn ymgynghoriad ag aelod o'r Pwyllgor Apelau Cyflogaeth ac ymgynghorydd adnoddau dynol, benderfynu ar apeliadau gan staff yn erbyn camau disgyblaeth a gymerwyd yn eu herbyn neu apeliadau dan unrhyw rai o bolisïau cyflogaeth y Cyngor lle y caniateir hawl apelio (adran 13 o'r Cyfansoddiad), cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cadw'r drefn fel y mae, gyda'r Pwyllgor Apelau Cyflogaeth yn penderfynu ar y materion hyn.

Pleidleisiwyd ar y gwelliant ac fe gariodd.

Pleidleisiwyd ar y Cyfansoddiad yn ei gyfanrwydd ac fe gariodd.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Cyfansoddiad newydd yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Archwilio a'r crynodeb a geir yn yr atodiadau i'r adroddiad, yn ddarostyngedig i'r canlynol:-**

**(a) Gosod terfyn amser o 4 awr ar gyfarfodydd o'r Cyngor llawn, ond gan roi disgresiwn i'r Cadeirydd i barhau â'r cyfarfod heibio hynny os yw o'r farn bod hynny'n addas.**
**(b) Mai'r Cabinet ddylai ddod i benderfyniad ar gynigion cau neu sefydlu ysgol unigol dan y cynllun trefniadaeth ysgolion.**
**(c) Bod hawl i benodi hyd at 2 aelod cyfetholedig, heb bleidlais, ar bob pwyllgor craffu am gyfnod o flwyddyn ar y tro.**
**(ch) Parhau â'r drefn bresennol lle mae'r Pwyllgor Apelau Cyflogaeth yn penderfynu ar apeliadau gan staff yn erbyn camau disgyblaeth a gymerwyd yn eu herbyn neu apeliadau dan unrhyw rai o bolisïau cyflogaeth y Cyngor lle y caniateir hawl apelio.**

## 9. SWYDDOG COFRESTRU ETHOLIADOL / SWYDDOG CANLYNIADAU

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Gofal Cwsmer adroddiad yn argymell i'r Cyngor benodi Swyddog Cofrestru Etholiadol / Swyddog Canlyniadau o 1 Medi, 2014 yn sgil ymddeoliad deilydd presennol y swydd.

Cynigiwyd yr argymhelliad gan yr Aelod Cabinet ac fe'i eiliwyd.

Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd y Swyddog Monitro nad oedd yna unrhyw oblygiadau ariannol pellach ar gyfer y naill swyddog na'r llall.

Pleidleisiwyd ar y cynnig ac fe gariodd.

**PENDERFYNWYD**
**(a) Penodi'r Prif Weithredwr i fod yn Swyddog Cofrestru Etholiadol ar gyfer pob etholaeth a rhannau o etholaeth o fewn y Sir yn unol ag Adran 8(2A) Deddf Cynrychioli'r Bobl 1983.**
**(b) Penodi'r Swyddog Monitro i fod yn Ddirprwy Swyddog Cofrestru at y dibenion a restrir yn (a) uchod ac Adran 52(2) o'r Ddeddf.**
**(c) Penodi'r Prif Weithredwr i fod yn Swyddog Canlyniadau ar gyfer ethol cynghorwyr i'r Cyngor ac ethol cynghorwyr cymuned o fewn y Sir yn unol ag Adran 35(1A) Deddf Cynrychioli'r Bobl 1983.**

**Y cyfan yn weithredol o 1 Medi, 2014.**

## 10. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR STATUDOL GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2013/14 (YN YMGORFFORI ADRODDIADAU BLYNYDDOL Y PANEL RHIANT CORFFORAETHOL A'R PANEL STRATEGOL DIOGELU)

Cyflwynwyd – Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymgorffori adroddiadau blynyddol y Panel Rhiant Corfforaethol a'r Panel Strategol Diogelu.

Yn ei chyflwyniad, adlewyrchodd y Cyfarwyddwr ar berfformiad y gwasanaethau cymdeithasol yng Ngwynedd yn ystod y flwyddyn a fu, gan adrodd ar y blaenoriaethau a'r bwriadau ar gyfer 2014/15. Pwysleisiodd fod un neges yn hollol glir gan bawb, sef yr angen i wasanaethau'r Cyngor a gwasanaethau iechyd fod yn llai cymhleth ac yn fwy integredig fel bod y ddarpariaeth o'r safon uchaf ac yn hawdd ei chael pan fo'r angen yn codi.

Diolchodd y Cyfarwyddwr am ymrwymiad a gwaith caled y staff, darparwyr a phartneriaid wrth sicrhau bod plant, pobl ifanc ac oedolion bregus a'u teuluoedd yn derbyn y

gwasanaethau gorau bosibl. Diolchodd hefyd am arweiniad a chefnogaeth dadflinir Aelod Cabinet Gofal drwy gydol y flwyddyn.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

- Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â lleoli plant yn all-sirol, cyfeiriodd y Cyfarwyddwr at y gwaith dechrau i'r diwedd a gyflawnwyd yn y maes plant y llynedd. Nododd fod yna blant ag anghenion gofal dwys iawn, a phe bai'r asiantaethau wedi gallu ymyrryd ynghynt, byddai wedi bod yn bosib' eu cadw yn lleol.
- Pwysleisiwyd pwysigrwydd darparu gofal seibiant a gofal dementia yn lleol.
- Nodwyd y dylai'r aelodau hynny a fethodd fod yn bresennol yn yr hyfforddiant ar riantu corfforaethol yn gynharach eleni gael gwahoddiad i'r sesiwn hyfforddiant nesaf.
- Diolchwyd i'r adran a'r gofalwyr am eu gwaith amhrisiadwy.

Diolchodd yr Aelod Cabinet i'r Cyfarwyddwr am ei chyflwyniad a'i harweiniad yn ystod blwyddyn heriol iawn ac i staff yr adran am eu gwaith caled.

**11. ADRODDIAD BLYNYDDOL GAN Y PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD AR RAN Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD YNG NGHYSWLLT CEFNOGAETH I AELODAU**

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd adroddiad blynyddol yn diweddaru'r aelodau ynghylch y gefnogaeth sydd ar gael, y datblygiadau sydd wedi'u gwireddu a'r rhai sydd ar waith.

Nododd yr arbedion a wireddwyd yng nghyllideb y Gwasanaethau Democrataidd ac yng nghyllidebau adrannau unigol ers cyflwyno'r iPads i'r aelodau, ac apeliodd ar yr aelodau i beidio gofyn am gopïau papur o raglenni pwyllgorau.

Nododd fod yna wahoddiad i ferched sy'n gynghorwyr Gwynedd ddod i Fforwm Merched er mwyn edrych ar ddulliau o annog mwy o ferched i sefyll fel darpar gynghorwyr, rhwydweithio ac o bosib' gyflwyno grwpiau cefnogi a mentora i gynghorwyr sy'n ferched.

Llongyfarchodd y Cynghorydd Elin Walker Jones, Pencampwr Awtistiaeth, am roi'r gymuned awtistaidd a Gwynedd ar y map wrth iddi gael ei henwebu yn y categori Gyrrwr Cymdeithasol yng Ngwobrau y Grassroot Diplomat Initiative yn Llundain.

Diolchodd i'r holl swyddogion sy'n cefnogi'r aelodau.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

- Llongyfarchwyd Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar ei gwaith trwyadl a pharhaus.
- Nodwyd bod angen gwneud popeth i annog mwy o ferched, pobl ifanc o bob cefndir a phobl anabl i sefyll etholiad.
- Nodwyd nad oedd yna ferch ar y Cabinet presennol a holwyd oedd yna fwriad i ad-drefnu'r Cabinet i gynnwys merched. Nodwyd hefyd nad oedd yr un o'r grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor yn cael ei arwain gan ferch ac mai ychydig iawn o gadeiryddion pwyllgorau oedd yn ferched.
- Croesawyd y cyfweliadau datblygiad personol a gynigir i aelodau.
- Awgrymwyd y posibilrwydd o wneud arbediad ar y gyllideb hyfforddiant drwy anfon deunydd hyfforddi i aelodau ar eu iPads yn hytrach na'u galw i mewn i sesiynau ffurfiol. I'r gwrthwyneb, dadleuwyd bod mynychu hyfforddiant yn rhan o waith

cynghorydd ac awgrymwyd na allai darllen deunydd ar iPad / papur fyth fod mor effeithiol â'r profiad o wrando ar siaradwr a rhannu syniadau mewn grŵp.

- Nodwyd bod gan weithwyr llawn amser sy'n gynghorwyr gymaint i'w gyfrannu i'r swydd â phobl sydd wedi ymddeol, er eu bod yn gorfod gwneud dewis anodd yn feunyddiol rhwng eu gwaith bob dydd a'u gwaith fel cynghorydd.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

## 12. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR

Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn adolygu cydbwysedd gwleidyddol y Cyngor.

Cynigiwyd yr argymhelliad gan yr Arweinydd ac fe'i eiliwyd.

Nodwyd bod angen cywiro nifer seddau Llais Gwynedd ar ddiwedd yr ail floc yn Atodiad A i 27.

Pleidleisiwyd ar y cynnig ac fel gariodd.

Gan i'r cynnig gael ei dderbyn, cynigiodd yr Arweinydd ymhellach benodi aelodau unigol i wasanaethu ar wahanol bwyllgorau, ac fe'i eiliwyd.

Pleidleisiwyd ar y cynnig ac fe gariodd.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Mabwysiadu dyraniad seddau ar bwyllgorau'r Cyngor yn unol â'r tabl isod:-**

**PWYLLGORAU CRAFFU**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Aelod Unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Corfforaethol | 9 | 4 | 3 | 1 | 1 | |
| Cymunedau | 8 | 4 | 3 | 1 | 1 | 1 |
| Gwasanaethau | 9 | 4 | 3 | 1 | | 1 |
| Archwilio | 8 | 5 | 3 | 1 | | 1 |

**PWYLLGORAU ERAILL**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Aelod Unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Democratiaeth | 7 | 4 | 3 | 1 | | |
| Cynllunio | 7 | 3 | 3 | 1 | 1 | |
| Trwyddedu Canolog | 7 | 4 | 3 | | | 1 |
| Iaith | 7 | 4 | 3 | | | 1 |
| Penodi Prif Swyddogion | 7 | 4 | 2 | 1 | 1 | |
| Apelau Cyflogaeth | 3 | 1 | 1 | 1 | | 1 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer y seddau** | **74** | **37** | **27** | **8** | **4** | **2** | **154** |

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Aelod Unigol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pensiynau** | **3** | **2** | **1** | | **1** | | |
| **CYSAG** | **3** | **2** | **2** | | | | |
| **Cyd-bwyllgor Ymgynghorol Lleol** | **5** | **2** | **2** | **1** | | **1** | |
| **Cydbwyllgor Addysg Anghenion Arbennig** | **3** | **2** | **1** | | | **1** | |
| **Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd** | **4 (3 sedd ac un eilydd)** | **2** | **1** | **1** | | | |
| **Cyfanswm y Seddau** | **94** | **47** | **36** | **10** | **5** | **2** | **194** |

**(b) Penodi'r aelodau unigol a ganlyn i wasanaethu ar bwyllgorau gwahanol:-**

**<u>Bloc 1</u>**
**Pwyllgor Craffu Cymunedau – Y Cynghorydd Louise Hughes**
**Pwyllgor Craffu Gwasanaethau – Y Cynghorydd Linda Ann Jones**
**Pwyllgor Archwilio – Y Cynghorydd Charles Jones**

**<u>Bloc 2</u>**
**Pwyllgor Trwyddedu – Y Cynghorydd Louise Hughes**
**Pwyllgor Iaith – Y Cynghorydd Charles Jones**
**Pwyllgor Apelau Cyflogaeth – Y Cynghorydd Linda Ann Jones**

**<u>Bloc 3</u>**
**Cydbwyllgor Lleol - Y Cynghorydd Charles Jones**
**Cyd-bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig – Y Cynghorydd Linda Ann Jones**

**13. MATER A GYFEIRIWYD O'R PWYLLGOR IAITH – YMGYRCH MYNYDDOEDD PAWB**

Cyflwynodd y Cynghorydd Mair Rowlands, Is-gadeirydd y Pwyllgor Iaith, adroddiad y Swyddog Datblygu Iaith i'r Pwyllgor Iaith ar 26 Mehefin, 2014 gan adrodd fod y pwyllgor wedi penderfynu fel a ganlyn:-

*"PENDERFYNWYD*
*(a) Cyfeirio'r mater i'r Cyngor llawn er mwyn rhoi cryfder gwleidyddol i'r ymgyrch.*
*(b) Cysylltu â'r Cynghorau Cymuned i'w hatgoffa ei bod yn bwysig iddynt hwythau roi eu cefnogaeth i'r ymgyrch.*
*(c) Enwebu Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Iaith i fod yn bresennol yng Nghynhadledd nesaf Mynyddoedd Pawb."*

Cynigiodd fod y Cyngor llawn yn rhoi eu cefnogaeth i'r ymgyrch ac fe'i heiliwyd.

**PENDERFYNWYD bod Cyngor Gwynedd yn rhoi cefnogaeth i amcanion ymgyrch Mynyddoedd Pawb sy'n galw ar y cyrff perthnasol yn y sectorau statudol,**

**cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat i gymryd camau priodol i ddiogelu enwau lleoedd Cymraeg.**

## 14. CYNLLUN STRATEGOL Y CYNGOR

Cyflwynodd yr Arweinydd fersiwn diwygiedig o'r Cynllun Strategol yn cynnwys gwybodaeth gyflawn ar gyfer y mwyafrif o'r mesuryddion oedd angen sylw pellach ac yn gwahodd y Cyngor i fabwysiadu'r uchelgais sydd wedi cael ei bennu ar gyfer y mesuryddion sydd wedi eu hamlygu yn y ddogfen ar dudalennau 14, 16, 18, 19, 22, 23, 24, 28, 31, 33, 36 a 37.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r uchelgais ar gyfer y mesuryddion sydd wedi'u hamlygu yn y Cynllun Strategol.**

## 15. RHYBUDD O GYNNIG

Adroddwyd y derbyniwyd rhybudd o gynnig, yn unol â Rheol Gweithdrefn 17, ynghyd â rhybudd trefniadaethol, yn unol â Rheol Gweithdrefn 17(12), gan y Cynghorydd Alwyn Gruffydd, i drafod y cynnig canlynol yn y Cyngor llawn, yn hytrach na'i gyfeirio i bwyllgor.

**PENDERFYNWYD trafod y cynnig yn y cyfarfod hwn.**

Cynigiwyd ac eiliwyd y cynnig canlynol:-

**"Bod y Cyngor hwn yn estyn ei ddymuniadau gorau i lywodraeth a phobl yr Alban yn y refferendwm ar annibyniaeth i'w gwlad ym mis Medi, ac mai gobaith y Cyngor hwn yw y bydd canlyniad y refferendwm yn rhoi buddugoliaeth ddi-gwestiwn i'r ymgyrch o blaid rhoi'r hawl i'r Alban sicrhau ei lle ymysg cenhedloedd y byd fel gwlad rydd a dilyffethair."**

Er bod rhai aelodau yn ystyried nad oedd y cynnig yn berthnasol i Wynedd, 'roedd eraill yn gryf o'r farn y dylai'r Cyngor edrych y tu allan i ffiniau'r sir, a thrafod yr Alban, oherwydd, waeth beth fyddai canlyniadau'r refferendwm, byddai'n effeithio ar ddyfodol pobl y sir hon.

Yn unol â Rheol Gweithdrefn 22(6), cofnodwyd y bleidlais ganlynol:-

**O blaid y cynnig: (45)** Craig ag Iago, Edward Dogan, Dyfed Edwards, Elwyn Edwards, Huw Edwards, Thomas Ellis, Alan Jones Evans, Aled Evans, Gweno Glyn, Simon Glyn, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Sian Gwenllian, Annwen Hughes, Jason Humphreys, Peredur Jenkins, Aeron Jones, Dyfrig Jones, Elin Walker Jones, Eric Merfyn Jones, Linda Ann Jones, Dilwyn Lloyd, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Dewi Owen, W. Tudor Owen, Nigel Pickavance, Peter Read, Caerwyn Roberts, Liz Saville Roberts, Mair Rowlands, Dyfrig Siencyn, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Paul Thomas, Ann Williams, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gethin Glyn Williams, Hefin Williams, John Wyn Williams, Owain Williams, R.H.Wyn Williams a Mandy Williams-Davies.

**Atal: (4)** Y Cynghorwyr Trevor Edwards, Jean Forsyth, Gwen Griffith a Sion Wyn Jones.

**Yn erbyn: (8)** Y Cynghorwyr Stephen Churchman, Lesley Day, John Brynmor Hughes, Anne Lloyd Jones, Eryl Jones-Williams, Beth Lawton, June E.Marshall a W.Roy Owen.

**PENDERFYNWYD derbyn y cynnig.**

Ar ddiwedd y cyfarfod, dymunwyd ymddeoliad hapus i'r Prif Weithredwr, Y Pennaeth Addysg a'r Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol / Swyddog Monitro a diolchwyd iddynt am eu gwasanaeth clodwiw a'u harweiniad gwerthfawr mewn cyfnod heriol iawn.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00pm a daeth i ben am 5.20pm

| | |
|---|---|
| **ENW'R CYFARFOD** | **CYNGOR LLAWN** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **9 HYDREF, 2014** |
| **TEITL** | **AD-DREFNU LLWYODRAETH LEOL** |
| **PWRPAS** | **CEISIO BARN Y CYNGOR MEWN YMATEB I BAPUR GWYN Y LLYWODRAETH AR AD-DREFNU LLYWODRAETH LEOL** |
| **AWDUR** | **Dilwyn O Williams, Prif Weithredwr** |
| **AELOD CABINET** | **Y Cynghorydd Dyfed Edwards** |

**CEFNDIR**

1. Bydd aelodau'r Cyngor wedi bod yn dilyn y drafodaeth ar ad-drefnu llywodraeth leol sydd wedi eu sbarduno gan gyhoeddiad Comisiwn Williams a thrafodaethau cenedlaethol ar lefel Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a phleidiau gwleidyddol.

2. Erbyn hyn, wrth gwrs, mae Papur Gwyn wedi ei gyhoeddi gan y Llywodraeth ac mae copi o'r Papur Gwyn hwnnw ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad hwn. Er bod cynnwys y Papur Gwyn yn eang, yn fras iawn, gellir crynhoi ei gynigion o ran ad-drefnu cynghorau fel a ganlyn:-

- Symud i batrwm o 10-12 o awdurdodau newydd yng Nghymru o Ebrill 2020 ymlaen ar sail argymhellion Comisiwn Williams (Ynys Mon a Gwynedd yn ein hachos ni)
- Y cyfle i symud i uno cynt os oes awdurdodau yn gwirfoddoli i uno gydag awgrymiadau cynnil o gymhellion ar gyfer gwneud hynny

3. Yn fwy manwl, dyma'r amserlen o ran yr hyn sydd wedi digwydd dros y misoedd nesaf:-

- Cyhoeddi Adroddiad Comisiwn Williams yn Ionawr 2014 yn awgrymu, ymysg pethau eraill, symud i 10-12 o gynghorau
- Ymateb cymysg gan gynghorau a phleidiau gwleidyddol i'r cynigion
- Cyhoeddi Papur Gwyn ar Ddiwygio Llywodraeth Leol yng Ngorffennaf, 2014
- Penodi Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus newydd gyda briff clir i yrru'r ad-drefnu yn ei flaen
- Cyhoeddi Prosbectws y Llywodraeth ar "uno gwirfoddol" ym Medi, 2014

4. Tra mae'r Papur Gwyn, fel y soniwyd eisoes, yn son am amryw o bethau gwahanol, mae prif ffocws y drafodaeth heddiw ar y "map" a'r risgiau a'r cyfleon sydd ynghlwm â symud i'r "map" newydd hynny. Y "map" yw map Comisiwn Williams o 10-12 o gynghorau, sydd yn golygu, yng Ngogledd Cymru, Ynys Môn a Gwynedd / Conwy a Sir Ddinbych / Sir y Fflint a Wrecsam. Mae rhagdybiaeth gan Lywodraeth Cymru yn erbyn newid y "map" a byddant yn disgwyl achos cryf i gyfiawnhau rhywbeth gwahanol i'r map gan nodi, yn benodol, y byddai unrhyw gynnig gwahanol yn gorfod cynnwys uno gwirfoddol buan.

5. Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi cyhoeddi rhai camau allweddol ar gyfer y broses o hyn allan:-

- Cynghorau i gyflwyno datganiadau o ddiddordeb mewn uno gwirfoddol - 28 Tachwedd, 2014
- Ionawr 2015 - Cyflwyno mesur i alluogi uno cynghorau
- Cynnig Uno Ffurfiol – 30 Mehefin, 2015
- Hydref 2015 - Cyhoeddi mesur drafft ar sut y byddai unrhyw uno yn gweithio
- Haf 2016 (ar ol etholiadau'r Cynulliad) - Cyflwyno mesur yn sefydlu cynghorau newydd fydd yn cael eu creu trwy uno

6. Mae unrhyw amserlen ar ôl hynny yn ddibynnol ar ddewis cynghorau o ran uno'n wirfoddol neu beidio:-

| **Digwyddiad** | **Cynghorau sy'n uno'n wirfoddol** | **Cynghorau Eraill** |
|---|---|---|
| Etholiadau | Mai 2018 (am dymor o 4 blynedd) | Mai 2017 (tymor o 3 blynedd ar gyfer y cynghorau presennol)<br>Mai 2019 (tymor o 3 blynedd ar gyfer y cynghorau newydd) |
| Cyngor Cysgodol yn cychwyn | Hydref 2017 ( ar sail aelodaeth bresennol y cynghorau sy'n uno) | Mai 2019 |
| Diwrnod Breinio'r Cyngor newydd | Ebrill 2018 (DS - Mis cyn yr etholiadau) | Ebrill 2020 |
| Etholiadau nesaf | Mai 2022 (am dymor o 5 mlynedd) | Mai 2022 (am dymor o 5 mlynedd) |

**GWEITHDY I'R HOLL GYNGHORWYR**

7. Ar 1 Hydref, 2014, cynhaliwyd gweithdy y gwahoddwyd holl aelodau'r Cyngor iddo er mwyn ceisio cael blas o farn trwch aelodau'r Cyngor ar rai gwestiynau ad-drefnu, gan roi sylw penodol i'r canlynol:-

- Beth yw barn y Cyngor am y patrwm a gynnigir a'r risgiau a chyfleon sydd ynghlwm â hynny?

- Os yw am ddigwydd prun bynnag, beth ddylai agwedd y Cyngor fod tuag at uno gwirfoddol?
- Beth yw'r ystyriaethau allweddol i'r Cyngor wrth ystried mynd i fewn i unrhyw drafodaethau am ad-drefnu?
- A yw'r Cyngor am gynnig syniadau am ffyrdd i symleiddio trefniadau llywodraethu cynghorau lleol?
- Pa negeseuon y dylid eu cyflwyno i'r Comisiwn Ffiniau o ran trefniadau etholaethol?
- A oes una newidiadau y dylid eu cyflwyno i ddatblygu a chryfhau rôl aelodau etholedig o fewn eu hetholaethau?

8. Un ffactor bwysig yn hyn o beth yw'r cyd-destun ariannol ar gyfer unrhyw ad-drefnu a rhannwyd barn broffesiynol yn y gweithdy am yr hyn y gellid ei arbed wrth uno a sut y gallai hynny leihau y toriadau y byddai'n rhaid i'r Cyngor hwn, ac unrhyw gyngor arall y byddai'n uno â hwy, ei wneud o ran gwasanaethau i'r cyhoedd.

9. Yn amlwg, er bod nifer dda o aelodau yn bresennol yn y sesiwn (40), trafodaeth gweithdy yn unig oedd hwn a nid oes iddo unrhyw statws gyfansoddiadol; mater i'r Cyngor llawn yw ffurfio barn ar y mater. Fodd bynnag, ar sail y sylwadau a wnaed gan aelodau o bob plaid yn y gweithdy, awgrymir y sylwadau a ganlyn er trafodaeth yn y Cyngor.

9.1 Barn gychwynol y Cyngor yw y dylid datgan yn eglur mai prif gyfrifoldeb y Cyngor hwn yw gwarchod buddiannau trigolion Gwynedd a'r gwasanaethau a ddarperir ar eu cyfer. Oherwydd hyn, ac o dderbyn realiti'r newid annorfod sydd am ddod, y peth cyfrifol i'w wneud yw peidio â chau'r drws ar unrhyw bosibilrwydd allai arwain at arbedion mewn costau reolaethol, canolog neu swyddfa gefn a fyddai, yn ei dro, yn medru lleihau maint y toriadau y bydd yn rhaid i unrhyw gyngor ei wneud dros y blynyddoedd nesaf.

9.2 O ganlyniad, mae'r Cyngor yn datgan ei fod yn barod i gymryd rhan mewn unrhyw drafodaethau a fyddai'n hwyluso hynny er mwyn gwyntyllu pa fuddiannau y byddai uno gyda chyngor neu gynghorau eraill yn ei gynnig.

9.3 Wrth wneud hynny, mae'r Cyngor am nodi nifer o ystyriaethau o bwys y byddai yn ceisio sicrwydd amdanynt a rhai cwestiynau y byddai angen ateb iddynt cyn y byddai'r Cyngor yn medru mynd ymhellach o ran cyflwyno cais i uno.

9.4 Dyma'r ystyriaethau allweddol y byddai'r Cyngor yn ceisio sicrwydd amdanynt wrth i'r Cyngor drafod unrhyw uno posib:-

a) Mae sicrhau democratiaeth atebol lleol yn allweddol wrth symud ymlaen ac mae'n rhaid i unrhyw drefniadau llywodraethu ar gyfer y dyfodol gynnwys trefn i sicrhau deialog ar wasanaethau cyhoeddus ar lefel mwy lleol na lefelau'r cynghorau presennol Mae risg o bellhau atebolrwydd o gymunedau yn sgil canoli mewn cynghorau mwy a rhaid gwarchod rhag hynny er mwyn gwella trefniadau atebolrwydd ac ymgysylltu cynghorau ac aelodau lleol unigol gyda thrigolion a chymunedau.
b) Mae'n rhaid i'r patrwm o wasanaethau cyhoeddus i'r dyfodol gynnwys rôl ystyrlon i gynghorau tref a chymuned o ran bod yn gyfrifol am a darparu rhai gwasanaethau.

c) O ran atebolrwydd aelodau lleol, dylid gofyn am sicrwydd na fydd cynigion y Comisiwn Ffiniau yn creu wardiau rhyw fawr a fydd yn gwneud gwaith aelodau lleol o ymgysylltu'n effeithiol gyda'u cymunedau yn anos. Yn benodol, pwysir am sicrwydd na cheir mwy o wardiau aml-aelod, gan fod darpariaeth felly yn medru drysu atebolrwydd aelodau unigol o fewn eu hetholaethau
ch) Mae gweithredu Polisi Iaith sydd yn gadarn o blaid y Gymraeg yn allweddol ar gyfer unrhyw gyngor newydd y byddai Gwynedd yn ran ohonno i'r dyfodol
d) Mae angen sicrwydd am sefyllfa ariannol ac asedau pob partner posib er mwyn gweld pa fath o sefyllfa ariannol y byddai cyngor newydd yn ei etifeddu

9.5 Dyma'r cwestiynau y mae'r Cyngor yn dymuno cael atebion iddynt gan Lywodraeth Cymru a phartneriaid posib cyn medru ffurfio barn derfynol ar fudd posib unrhyw uno i drigolion Gwynedd:-

a) Mae angen llawer mwy o eglurder a phendantrwydd am y "cynnig" sydd ymhlyg ag uno gwirfoddol er mwyn pwyso hwnnw yn erbyn y gost ariannol ac anariannol o symud i ad-drefnu ynghynt. Pa fath a faint o gymorth ymarferol fyddai ar gael i gynghorau sydd yn uno?
b) A fydd cynigion y Llywodraeth yn hybu mwy o drefniadau datganoli gwasanaethau i ardaloedd mwy lleol a fframweithiau sydd yn hybu atebolrwydd a deialog gyda chymunedau a thrigolion?
c) A fydd modd bod yn hyblyg o ran trefniadau etholiadau sydd, ar hyn o bryd, mewn un senario, yn cynnig dau etholiad o fewn dwy flynedd (2017 a 2019) ar sail etholaethau a fydd, mae'n debyg yn wahanol?
ch) A fydd cynigion y Comisiwn Ffiniau yn cymryd sylw gwirioneddol o'r gwahaniaethau rhwng ardaloedd gwledig a threfol (yn cynnwys poblogaeth tymhorol / myfyrwyr) wrth bennu maint a natur etholaethau?
d) Rhaid rhannu gwybodaeth am ddarpariaeth gwasanaeth mewn ardaloedd cynghorau gwahanol er mwyn cynllunio'n effeithiol i ddwyn gwasanaethau sydd â safonau a phlisiau gwahanol ynghyd.

**PENDERFYNIAD**

10. Gwahoddir barn y Cyngor ar y safbwynt drafft a gynnigir uchod ym mharagraffau 9.1 i 9.5 er mwyn cyfleu barn y Cyngor i'r Llywodraeth.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Datganoli,
Democratiaeth a
Chyflawni

# Papur Gwyn – Diwygio Llywodraeth Leol

Dyddiad Cyhoeddi: 8 Gorffennaf 2014
Ymatebion erbyn: 01 Hydref 2014 @ 23:59

**Trosolwg**

Y Papur Gwyn 'Diwygio Llywodraeth Leol' yw datganiad o fwriad Llywodraeth Cymru ynglŷn a dyfodol Llywodraeth Leol. Mae'r Papur Gwyn hefyd yn ymateb i agweddau Llywodraeth Leol o adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaeth Cyhoeddus. Mae'r Papur Gwyn eisiau i chi fynegi'ch barn ar ein gweledigaeth, ac awgrymu sut allwn ni ei datblygu ymhellach.

**Sut i ymateb**

I ymateb i'r ymgynghoriad cwblhewch y ffurflen ar-lein neu cwblhewch yr holiadur yng nghefn y ddogfen a'i dychwelyd naill ai drwy e-bost i

DiwygioLlL@cymru.gsi.gov.uk

neu drwy'r post

Diwygio Llywodraeth Lleol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd

CF10 3NQ

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

Mae fersiynau o'r ddogfen hon ar gael mewn print bras, Braille ac ieithoedd eraill os gofynnir amdanynt.

**Manylion cysylltu**

I gael rhagor o whybodaeth:

Diwygio Llywodraeth Lleol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

ebost: DiwygioLlL@cymru.gsi.gov.uk

Digital ISBN 978 1 4734 1801 1
© Hawlfraint y Goron 2014
WG 22542

**Diogelu data**

## Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu inni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig inni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig weithiau dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn inni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

## Cynnwys

Rhagair gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth 5

Cyflwyniad 6

Canfyddiadau'r Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus 8

Dyfodol Llywodraeth Leol 10

Diwygio Llywodraeth Leol – Cryfhau democratiaeth, cynnal a gwella gwasanaethau 13

Diwygio Llywodraeth Leol – Uno Awdurdodau Lleol 21

Ystyriaethau ariannol – costau a manteision uno Awdurdodau Lleol 34

Casgliad 38

## Rhagair gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth



Mae Llywodraeth Leol yn darparu gwasanaethau y mae llawer o bobl yn dibynnu arnynt ac yn disgwyl iddynt fod yno pan fydd eu hangen arnom. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau sy'n addysgu ein plant, sy'n gofalu am bobl sy'n agored i niwed ac yn rhoi cymorth iddynt, ac yn casglu ein gwastraff. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Leol yn gwneud mwy na darparu gwasanaethau'n unig. Mae gennym draddodiad cryf o gyfranogiad cymunedol yng Nghymru a gwyddom fod y cyhoedd am fod yn gysylltiedig â chynllunio dyfodol eu hardalaloedd a'r gwasanaethau a ddarperir. Rydyn ni i gyd yn talu am wasanaethau cyhoeddus drwy'r trethi a dalwn, felly mae gennym oll ran yn eu dyfodol.

Mae bron yn amhosib adnabod amgylchedd y gwasanaethau cyhoeddus o'i gymharu â 50, 20 neu hyd yn oed 10 mlynedd yn ôl. Mae'n amser anodd yn ariannol, mae cynnydd yn y galw am lawer o wasanaethau ac mae'r cyhoedd yn disgwyl bod gwybodaeth ar gael iddynt ar unwaith. Mae'r Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cadarnhau'r hyn roeddem eisoes yn ei wybod - nid yw'n trefniadau presennol yn addas i'r diben. Rhaid i'r diwygio fod yn arwyddocaol ac yn gynaliadwy.

Yn y Papur Gwyn hwn, rwy'n rhoi fy sylwadau cychwynnol ichi ar weledigaeth ar gyfer Llywodraeth leol yng Nghymru sy'n addas i'r 21ain ganrif a thu hwnt.

Mae'n cynnig perthynas newydd rhwng Llywodraeth Leol a chymunedau. Mae angen gweld cymunedau ac Awdurdodau yn cydweithio i fynd i'r afael â phroblemau a chreu atebion ar y cyd. Rwyf eisoes wedi cyflwyno mesurau sy'n hyrwyddo mwy o ymgysylltu ac sy'n fwy agored a thryloyw. Ond mae angen gwneud rhagor.

Mae'r Papur Gwyn yn disgrifio camau gweithredu sy'n sicrhau bod y cynrychiolwyr a etholwyd gennym yn adlewyrchu'r cymunedau a wasanaethir ganddynt. Rwy'n teimlo'n angerddol bod angen cynyddu amrywiaeth o fewn Llywodraeth Leol.

Bydd yn cryfhau llywodraethu ac yn egluro sut y caiff penderfyniadau eu gwneud a phwy sy'n eu gwneud nhw. Bydd yn helpu Cynghorwyr lleol i herio ac i graffu'n effeithiol. Bydd yn annog arloesi a rhannu arferion da, er mwyn hybu perfformiad ardderchog a gwasanaethau sy'n diwallu anghenion pobl.

Mae'r Papur Gwyn yn dechrau nodi'r newidiadau sydd eu hangen i'r strwythur i rymuso'r Awdurdodau i wynebu'r her o arwain eu hardaloedd. Mae'n ein hatgoffa i beidio ag anghofio am gydweithredu.

Serch hynny, rhaid edrych yn fanwl ar y manylion. Er mwyn crisialu fy ngweledigaeth, ychwanegu safbwyntiau ehangach a chyflwyno cynlluniau ac amserlenni manwl i'w gweithredu, mae angen eich barn chi. Byddaf yn rhoi trefniadau ar waith i gael dadl agored a theg ac rwy'n disgwyl cael trafodaeth aeddfed ac adeiladol. Mae'n rhaid i Lywodraeth Leol fod yn barod i gymryd yr awenau wrth lunio ei thynged ei hun. Rhaid inni weithio gyda'n gilydd, mewn partneriaeth, yn ystod y misoedd i ddod er mwyn adeiladu Awdurdodau Lleol a gynlluniwyd ar gyfer Cymru, yng Nghymru.

.



## Cyflwyniad

1. Rydym yn gwybod bod pobl Cymru yn gwerthfawrogi eu gwasanaethau cyhoeddus yn fawr iawn. Mae hyn yn cynnwys y gwasanaethau a ddarperir gan Lywodraeth Leol sy'n addysgu ein plant, yn gofalu am ein pobl hŷn, yn trin y rheini sy'n sâl neu'n anabl, yn gofalu am y rheini sydd fwyaf agored i niwed, ac yn casglu ein gwastraff. Mae rhai pobl yn ein cymunedau yn dibynnu yn fawr ar y gwasanaethau hyn ac rydym oll yn dibynnu arnynt i fod ar gael ar adegau yn ein bywydau pan fydd eu hangen arnom. Rydym oll yn gwerthfawrogi'r miloedd o weision cyhoeddus ymroddgar sy'n gweithio'n galed i ddarparu'r gwasanaethau hyn ac rydym am i'w hymdrechion gael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi. Rydym oll yn talu am wasanaethau cyhoeddus drwy'n trethi cenedlaethol a lleol, felly mae eu dyfodol o bwys i bob un ohonom. Ond mae gwasanaethau cyhoeddus yn golygu mwy i ni na darparu gwasanaethau penodol. Maent yn rhan o'r cymunedau rydym yn byw ynddynt ac yn gefndir i fywyd bob dydd yng Nghymru.

2. Mae gennym draddodiad cryf o ddemocratiaeth leol a gweithredu a chyfranogiad cymunedol, ac rydym yn gwybod bod y cyhoedd yng Nghymru eisiau cyfrannu at y penderfyniadau ynghylch sut caiff dyfodol ein cymunedau ei gynllunio a'i gyflwyno. Rydym yn gwybod bod pobl yn cydnabod nad yw hyn yn ymwneud â'r sefyllfa fel ag y mae heddiw'n unig, ond mae hefyd yn ymwneud â sut mae gwneud gwasanaethau cyhoeddus yn gynaliadwy er mwyn cynnig darpariaeth effeithiol i genedlaethau'r dyfodol.

3. Fodd bynnag, mae Cymru – a'i gwasanaethau cyhoeddus – yn wynebu heriau cymhleth a digynsail. Gwaddol y gorffennol yw llawer o'r rhain, ond ni all y genhedlaeth hon eu gadael yn heriau i'r genhedlaeth nesaf. Mae pwysau ar y cyllid sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus ar hyn o bryd, ac mae'n debygol y bydd mwy a mwy o bobl angen y gwasanaethau hyn yn y dyfodol hefyd. Ni allwn barhau fel hyn, ac rydym yn gwybod bod angen i rywbeth newid. Mae'r Papur Gwyn hwn yn gwahodd ymgysylltiad helaeth ynghylch realiti'r sefyllfa rydym yn ei hwynebu – yr angen i ddiwygio'n strwythurau a'n gwasanaethau, a hefyd y telerau ymgysylltu gyda'n gwasanaethau cyhoeddus a'n disgwyliadau ohonynt.

4. Dyma pam y sefydlwyd y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus ("Y Comisiwn"), a gofyn iddo lunio adroddiad gonest, annibynnol a thrylwyr ar sut caiff ein gwasanaethau cyhoeddus eu llywodraethu a'u darparu nawr, sut mae angen i hyn newid er mwyn bodloni anghenion pobl heddiw, a sut gallwn ddatblygu sylfaen gynaliadwy at y dyfodol.

5. Mae'r Comisiwn wedi llunio adroddiad manwl ac awdurdodol, sydd â chyfres o argymhellion ar gyfer gweithredu. Mae tipyn ohono'n anodd i'w ddarllen – i Lywodraeth Cymru, i lywodraeth leol, ac i wasanaethau cyhoeddus eraill. Fodd bynnag, ni allwn fod yn amddiffynnol na gwadu'r heriau y mae'r Comisiwn wedi'u nodi. Efallai nad ydym yn cytuno â holl fanylion yr adroddiad, ond rydym yn cydnabod bod amrywiaeth eang mewn perfformiad ac effeithlonrwydd, diffyg trefniadau craffu a llywodraethu sy'n cefnogi ac yn llywio gwelliant, diffyg cymhwyso cyson ac effeithiol o ran safonau ac egwyddorion sylfaenol llywodraethu, a gorgymhlethu yn peri problemau.

6. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r Comisiwn am ei waith. Mae ei adroddiad yn sbardun pwysig ar gyfer newid, ac mae'r Papur Gwyn hwn yn ymateb cadarnhaol iawn i'r heriau y mae'r Comisiwn yn eu gosod ar gyfer dyfodol Llywodraeth Leol yng Nghymru, a'r cyfraniad at wasanaethau cyhoeddus ymatebol ac effeithlon o ansawdd uchel. Fodd bynnag, rydym am i'r papur hwn wneud mwy nag ymateb i'r Comisiwn. Dyma'n datganiad o fwriad am y Llywodraeth Leol rydym am ei chael, sy'n cyfrannu at les Cymru drwy gyfrannu at amcanion cyffredin hirdymor. Rydym am sicrhau bod berthnasol briodol rhwng y rheini sy'n darparu gwasanaethau a'r rheini sy'n dibynnu ar y gwasanaeth, drwy ddemocratiaeth leol gryfach, a chraffu mwy effeithiol, a galluogi cynghorwyr lleol i fynd ati'n briodol i ddwyn y rheini sy'n gyfrifol am wasanaethau i gyfrif, a hynny ar ran y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Rydym am weld Awdurdodau Lleol sy'n cael eu rhedeg yn dda ac yn gweithredu mewn ffordd dryloyw ac agored, yn cynllunio'n effeithiol, yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael mor effeithiol â phosibl, ac yn cydweithio ac yn gweithio mewn partneriaeth ag eraill lle bynnag y bydd hyn o fudd i'r bobl y maent yn eu gwasanaethu. Ac rydym eisiau i bobl gael llais cryfach eu hunain, a chael mwy o ddylanwad dros y ffordd y caiff gwasanaethau eu cynllunio a'u darparu. I'r perwyl hwn, bydd hefyd angen i Awdurdodau Lleol asesu a gwella eu perfformiad yn barhaus. Nid yw'r papur hwn yn ymdrin â phob agwedd ar sut byddwn yn cyflawni hyn – rydym yn parhau i ddatblygu'n cynlluniau mewn rhai meysydd, a bydd mwy o fanylion ar gael yn y misoedd i ddod.

7. Mae'r Papur hwn hefyd yn ymateb i rai o ganfyddiadau'r Comisiwn, lle mae goblygiadau y tu hwnt i Awdurdodau Lleol, fel partneriaeth a chydweithredu, ac mae'n mynd i'r afael ag argymhellion i Awdurdodau Tân ac Achub ynghylch craffu a llywodraethu, a newidiadau i ffiniau.

8. Ers i'r Comisiwn gyhoeddi ei adroddiad, mae'r drafodaeth wedi canolbwyntio ar a oes gennym ormod o Awdurdodau Lleol, ac a ddylem leihau'r nifer drwy uno rhai ohonynt. Mae cynigion y Comisiwn wedi ennyn cryn dipyn o sylwadau a thrafodaeeth. Mae rhai wedi awgrymu y dylem ganolbwyntio ein hymdrechion a'n hadnoddau ar wella gwasanaethau yn hytrach na newid ffiniau. Mae hyn yn colli'r pwynt: mae uno Awdurdodau yn elfen hanfodol – er nad yr unig elfen – o wella gwasanaethau, gwneud Awdurdodau'n fwy effeithlon a gwella'u gallu, a'u rhoi mewn sefyllfa ariannol sefydlog i fynd i'r afael â'r heriau sydd o'u blaen. Mae'r Comisiwn yn glir mai pecyn yw ei gynigion: rydym yn cytuno, hyd yn oed os nad ydym yn cytuno â holl fanylion yr argymhellion. Rydym yn gwybod na allwn uno Awdurdodau yn unedau mwy o faint, yna eistedd yn ôl a disgwyl i bethau wella. Fodd bynnag, heb ostyngiad yn nifer yr Awdurdodau, mae'n amlwg na fydd llawer ohonynt yn gynaliadwy ac y byddant yn cael trafferth o ran wynebu'r heriau y maent yn eu hwynebu nawr ac yn y dyfodol.

9. Y cynigion ar gyfer uno Awdurdodau Lleol yw'r un newid mwyaf y mae'r Comisiwn yn ei argymell, a bydd angen i ni ddechrau ar unwaith os ydym am wneud hyn mor gyflym ag y mae'r Comisiwn yn gofyn amdano. Mae'r papur hwn felly'n canolbwyntio ar y camau rydym yn bwriadu eu cymryd rhwng nawr a diwedd y Cynulliad presennol ym mis Mai 2016 i hwyluso rhaglen o uno Awdurdodau Lleol. Fodd bynnag, rydym yn parhau i fod yn glir mai dim ond rhan o'r stori yw uno. Felly, mae'r Papur Gwyn hwn hefyd yn gosod gweledigaeth ehangach ar gyfer dyfodol Llywodraeth Leol a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu. Yn y pen draw, rydym am gael Llywodraeth Leol sy'n addas at yr unfed ganrif ar hugain, sydd mewn cysylltiad â'i chymunedau, ac sy'n gwella llesiant ac yn mynd ati'n effeithiol i flaenoriaethu a darparu gwasanaethau i

safon uchel. Fodd bynnag, mae arnom angen eich safbwyntiau am y Llywodraeth Leol y mae Cymru am ei gweld hefyd: rydym eisiau bod yn siŵr mai ein cynlluniau a'n huchelgeisiau ni yw'r rhai iawn, ac rydym wedi cynnwys cwestiynau drwy'r Papur cyfan yn gwahodd safbwyntiau a sylwadau ar rai o'r dulliau gweithredu rydym wedi'u hamlinellu.

10. Ochr yn ochr â'r papur hwn, rydym hefyd wedi cyhoeddi 'Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni – Gwella gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer pobl Cymru'. Mae hyn yn gosod ymateb cynhwysfawr gan y Llywodraeth gyfan i'r heriau a nodwyd gan y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus, yn ogystal â gweledigaeth ar gyfer dyfodol y setliad datganoli, yn dilyn adroddiad y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru. Mae ystod 'Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni – Gwella gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer pobl Cymru' yn llawer ehangach na'r Papur Gwyn Llywodraeth Leol hwn, ond bydd gan lawer o'r camau gweithredu a gynigir oblygiadau i Lywodraeth Leol fel rhan o wasanaethau cyhoeddus datganoledig ehangach. Bydd hyn yn digwydd mewn perthynas â materion fel arweinyddiaeth, perfformiad, datblygu modelau gwasanaethau cyhoeddus newydd (gan gynnwys cydgynhyrchu) a'r cysyniad o 'un gwasanaeth cyhoeddus', yn ogystal â'n hymateb i gynigion penodol y Comisiwn ar gyfer Powys, ac integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol mewn ardaloedd eraill.

## Canfyddiadau'r Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus

11. Mae'n bwysig pwysleisio eto bod y Papur Gwyn hwn yn fwy na dim ond ymateb i ganfyddiadau'r Comisiwn. Yn hytrach, mae'n ddatganiad o fwriad ynghylch sut rydym yn bwriadu gwneud y newidiadau angenrheidiol os ydym am gael gwasanaethau cyhoeddus lleol cyson ragorol. Serch hynny, mae ymateb i waith a chanfyddiadau'r Comisiwn yn rhan ganolog o'r Papur hwn, felly rydym yn cychwyn drwy ailddatgan canfyddiadau allweddol y Comisiwn.

12. Canfu'r Comisiwn fod pwysau ariannol difrifol ac anghynaliadwy ar wasanaethau cyhoeddus. Mae hyd yn oed yr amcanestyniadau mwyaf cadarnhaol yn nodi na fydd gwariant cyhoeddus yn dychwelyd i lefelau 2011 tan oddeutu 2022. Yn y cyfamser, bydd nifer y bobl hŷn yn parhau i dyfu mewn perthynas â gweddill y boblogaeth (yn yr un modd â'r boblogaeth iau mewn rhai rhannau o Gymru), felly bydd y galw am wasanaethau Awdurdodau Lleol yn parhau i dyfu. Mae'r Comisiwn yn nodi nad yw'r pwysau a'r heriau hyn yn unigryw i Gymru na'r DU: maent yn bodoli ar draws y byd datblygedig.

13. Canfu'r Comisiwn fod perfformiad yn wael ac yn amrywiol, gyda gwahaniaeth mawr rhwng y gorau a'r gwaethaf, ac amrywiadau sylweddol o ran effeithlonrwydd. Mae'r Comisiwn yn derbyn bod peth amrywiaeth mewn perfformiad yn anochel oherwydd bod gwahanol Awdurdodau Lleol yn wynebu gwahanol heriau o ran demograffeg, amddifadedd a daearyddiaeth. Fodd bynnag, mae'n nodi bod y gwahaniaethau 'yn aml yn anesboniadwy'. O ystyried yr heriau ariannol yn y dyfodol, dim ond cynyddu y bydd gwendidau mewn perfformiad os na fyddwn yn gweithredu.challenges, weaknesses in performance will only increase unless we act.

14. Mae'r Comisiwn yn nodi nifer o ddiffygion sy'n cyfrannu at y problemau hyn o ran perfformiad. Mae'n canfod bod gormod o ymdrech yn cael ei gwastraffu ar reoli systemau a chysylltiadau sector cyhoeddus cymhleth yn hytrach na darparu gwasanaethau o ansawdd. Mae hyn yn broblem benodol i Awdurdodau Lleol oherwydd eu bod yn sefydliadau unigryw aml-asiantaeth, sydd â chysylltiad annatod â gweddill y sector cyhoeddus. Ei ateb yw gwneud y sector cyhoeddus yn llai cymhleth drwy symleiddio atebolrwydd, cael gwared ar ddyblygu, symleiddio partneriaethau a sicrhau bod sefydliadau'n cydweithio'n effeithiol.

15. Mae'r Comisiwn yn credu bod tystiolaeth gref yn dangos bod nifer o Awdurdodau Lleol yn rhy fach i fynd i'r afael â'r risgiau a'r pwysau y maent yn eu hwynebu. Nid yw hyn yn golygu o reidrwydd bod Awdurdodau mwy yn perfformio'n gyson well na rhai llai, ac nid yw'r Comisiwn yn awgrymu hynny. Fodd bynnag, mae'n gweld bod hyd a lled capasiti yn her wirioneddol, gyda maint bach yn peri risgiau annerbyniol o ran llywodraethu a darparu. Mae'r Comisiwn felly'n cynnig gostyngiad yn nifer yr Awdurdodau i rhwng 10 a 12 drwy uno Awdurdodau presennol. Mae o'r farn y bydd hyn yn mynd i'r afael â'r problemau difrifol sydd ynghlwm ag Awdurdodau Lleol bach ac yn ei gwneud yn haws iddynt weithio gyda sefydliadau gwasanaethau lleol eraill er budd y cyhoedd. Bydd hefyd yn sicrhau arbedion hirdymor sylweddol, a fydd yn helpu i amddiffyn gwasanaethau.

16. Mae'r Comisiwn yn tynnu sylw at bwysigrwydd llywodraethu, craffu ac atebolrwydd o ran llywio gwelliant. Ond mae'n canfod bod trefniadau llywodraethu sefydliadau yn rhy aneglur yn aml, ac nad yw craffu a threfniadau atebolrwydd eraill yn cael eu gwerthfawrogi'n ddigonol, a'u bod yn aneffeithiol. Mae'n argymell newidiadau i wneud sefydliadau'n fwy ymatebol, gyda threfniadau atebolrwydd sy'n fwy gwybodus, yn fwy ategol, yn fwy effeithiol ac yn llai o faich. Mae hefyd yn argymell mesurau i wella arweinyddiaeth, ac yn galw am ddatblygu set o werthoedd gwasanaeth cyhoeddus sy'n gydweithredol, yn canolbwyntio ar y dinesydd ac y mae pawb yn ei rhannu.

17. Canfu'r Comisiwn fod nifer a maint y Cynghorau Tref a Chymuned yn broblem a mynegodd ei bryderon ynghylch pa mor atebol a chynrychioliadol ydynt, a'u gallu i ddeall a chyfleu anghenion lleol. Daeth i'r casgliad bod angen diwygio'r sector Cynghorau Cymuned. Cydnabu'r Comisiwn bwysigrwydd defnyddio llais y dinesydd fel ffordd o sicrhau gwelliant, ond cydnabu fod y prosesau a'r arferion ar gyfer gwneud hynny yn dameidiog, yn anghyson ac yn aml yn aneffeithiol.

18. Yn olaf, mae'r Comisiwn yn canfod nad yw'r cyfoeth o ddata perfformiad y mae'r sector cyhoeddus yn ei gasglu yn cael ei ddefnyddio'n briodol i sicrhau canlyniadau gwell, ac mae'n argymell un set gryno o ganlyniadau cenedlaethol y gall partneriaethau a sefydliadau lleol gyfrannu ati.

19. Mae'r Comisiwn yn cydnabod bod enghreifftiau o berfformiad da, gan dynnu sylw at lwyddiant y Gwasanaethau Tân ac Achub o ran lleihau marwolaethau ac anafiadau yn sgil tân (sydd wedi mwy na haneru ers 2004-05), a llwyddiant Awdurdodau Lleol o ran cyrraedd targedau ar gyfer gwastraff ac ailgylchu. Serch hynny, rydym yn cytuno bod angen gwella perfformiad, ac rydym yn cydnabod bod angen newid sylfaenol i'r ffordd rydym yn blaenoriaethu, yn trefnu, yn rheoli ac yn darparu gwasanaethau er mwyn i hyn ddigwydd.

## Dyfodol Llywodraeth Leol – beth ddylem ei ddisgwyl gan Awdurdodau Lleol?

20. Uchelgais Llywodraeth Cymru yw gwneud Cymru'n lle gwell, sicrhau newid go iawn i wella bywydau pobl nawr, a rhoi etifeddiaeth well i'n plant a'n hwyrion. Mae hyn yn golygu Cymru sy'n fwy cyfartal, ffyniannus ac arloesol, gyda phobl iachach yn byw mewn cymunedau diogel, cydlynus a chydnerth, sydd â mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

21. Rydym ni – ac yn enwedig y rheini sy'n dibynnu'n fwy ar wasanaethau – yn disgwyl i'n gwasanaethau chwarae ran lawn a chanolog o ran sicrhau'r Gymru a garem. Ym mis Chwefror 2014, amlinellwyd ein gweledigaeth ar gyfer dyfodol cynaliadwy i Gymru – Y Gymru a Garem yn 2050. Mae Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a gyflwynwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 7 Gorffennaf 2014 yn cynnig fframwaith deddfwriaethol newydd i gytuno ar set o nodau llesiant hirdymor i Gymru, a fframwaith datblygu cynaliadwy sydd â chyrff cyhoeddus wrth ei wraidd. Mae hyn yn golygu meddwl mwy am yr hirdymor, cydweithio'n well, gweithredu'n gynnar ac ymgysylltu â phobl ar y daith hon.

22. Un o nodau'r Bil yw sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn gweithio gyda'i gilydd, a chyda rhannau eraill o'r gwasanaeth cyhoeddus, i wella bywydau pobl, nawr ac yn y dyfodol, drwy gyflawni set o nodau hirdymor cyffredin ar gyfer gwella llesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Bydd y nodau llesiant hirdymor hyn ar gyfer Cymru yn ein helpu i fynd i'r afael â galwad y Comisiwn i ddiwygio gael ei lywio a'i gydlynu'n genedlaethol ar draws y sector cyhoeddus, gydag awgrymiadau am ddatganiad clir a chryno ar ganlyniadau Cymru gyfan y gall pob sefydliad sector cyhoeddus gyfrannu ato. Bydd y Bil hefyd yn sicrhau dulliau llywodraethu allweddol, sef atal problemau a chydweithredu; mae hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau ehangach y Comisiwn ynghylch pwysigrwydd atal problemau a chydgynhyrchu wrth ddatblygu a darparu gwasanaethau.

23. Rydym yn gwybod bod Awdurdodau'n ymrwymedig i fynd ati i hyrwyddo a gwella llesiant, yn y ffordd a ragwelir ym Mil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), yn ogystal â darparu gwasanaethau. Ond mae'n rhaid i hyn gychwyn gyda gwneud y pethau y gall y cyhoedd ddisgwyl y byddant yn eu gwneud o fewn rheswm. Beth yw'r disgwyliadau hyn?

24. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod pobl am weld Awdurdodau Lleol a all ddarparu'r gwasanaethau y mae eu hangen arnynt, ac a all ymateb yn gyflym ac yn effeithiol pan fydd eu hangen. Dylai gwasanaethau fod yn perfformio'n rhagorol, yn syml i bobl eu cael a'u defnyddio (yn Gymraeg ac yn Saesneg), yn ddigon cadarn i ymdopi â galw cynyddol, ac yn gallu addasu i heriau newydd drwy arloesi. Dylai Awdurdodau weithio gyda chymunedau ac unigolion ar gynllunio gwasanaethau, gan gynnwys partneriaid eraill a'r Trydydd Sector yn arbennig, yn ogystal â'u staff eu hunain, gyda llawer ohonynt yn awyddus i wneud mwy i gynllunio ffyrdd arloesol o drechu'r heriau ynghylch darparu y maent yn eu gweld bob dydd.

25. Fodd bynnag, dylai Awdurdodau hefyd fod yn rhagweld a rheoli'r galw, a nodi ac ymdrin â phroblemau'n gynnar i atal y problemau hynny rhag gwaethygu, a fyddai yn ei dro yn rhoi mwy o ofynion ar wasanaethau sydd eisoes dan bwysau. Mae hefyd angen i ni a Llywodraeth Leol fod yn agored a gonest am gyfyngiadau'r hyn y gall Awdurdodau Lleol ei ddarparu, yn enwedig

o ystyried y cyfyngiadau ariannol cynyddol. Er bod yn rhaid i wasanaethau Awdurdodau Lleol fod ar gael bob amser i helpu'r rheini sy'n agored i niwed a chefnogi'r rheini sy'n wynebu argyfwng, ni allant (ac ni ddylent) fod yno i ddatrys pob problem sy'n codi. Mae gan bobl rôl i'w chwarae a chyfrifoldeb dros eu llesiant eu hunain. A gallai rhai gwasanaethau gael eu darparu yn fwy effeithiol mewn ffordd wahanol.

26. Rydym hefyd yn gwybod bod pobl am weld a deall sut mae Awdurdodau Lleol yn gwneud penderfyniadau am eu gwasanaethau lleol, a bod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau, gyda chyfle i leisio barn a'u safbwyntiau'n cael eu hystyried. Mae hyn yn golygu bod angen i Awdurdodau fod yn agored, gan ddweud wrth bobl am yr hyn y maent yn ei wneud, cynnwys pobl yn yr hyn sy'n bwysig iddynt drwy ymgysylltu rheolaidd a rhagweithiol, a'i gwneud yn haws i bobl gael yr wybodaeth y mae ei hangen arnynt er mwyn ymgysylltu'n effeithiol.

27. Mae pobl yn talu am eu gwasanaethau lleol drwy eu trethi (cenedlaethol a lleol), ac maent eisiau gwybod bod eu harian yn cael ei ddefnyddio'n briodol ac yn effeithiol, gyda phrosesau trylwyr ac effeithiol ar waith i sicrhau bod hyn yn digwydd. Mae angen i Awdurdodau Lleol gael eu rhedeg yn dda, gan wneud penderfyniadau mewn ffordd briodol a thryloyw, a chydymffurfio â'r holl ofynion ariannol a chyfreithiol, fel bod pobl yn hyderus bod yr arian y maent yn ei ddarparu bob amser yn cael ei ddefnyddio mor effeithiol â phosibl.

28. Mae pobl am i'w Cynghorwyr gynrychioli amrywiaeth y cymunedau sy'n eu hethol, ac maent eisiau bod yn hyderus bod eu cynghorwyr yn gweithio i wella gwasanaethau. Mae hyn yn golygu mynd ati i gynrychioli safbwyntiau unigolion a chymunedau yn effeithiol, a dwyn arweinwyr yr Awdurdod i gyfrif o ran darparu gwasanaethau a gwaith tymor hwy i wella llesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

29. Yn olaf, rydym yn gwybod bod pobl yn disgwyl i Awdurdodau adweithio pan fydd gwasanaethau yn disgyn islaw y safon ofynnol. Mae pobl yn deall y bydd pethau yn mynd o chwith weithiau, ond pan fydd hyn yn digwydd maent yn disgwyl ymateb cyflym a gweithredu effeithiol, a bod gwersi'n cael eu dysgu, fel nad yw'r un camgymeriadau'n digwydd eto.

## A yw Awdurdodau Lleol yn bodloni'r disgwyliadau hyn?

30. Yn anffodus, nid yw'r disgwyliadau hyn yn cael eu bodloni bob amser. Mae'r Comisiwn wedi tynnu sylw at berfformiad gwael ac anghyson yn narpariaeth llawer o wasanaethau, ac amrywiadau helaeth o ran effeithlonrwydd. Ni all fod yn briodol bod pobl anabl mewn un Awdurdod yn gorfod aros dros flwyddyn yn hwy am addasiadau i'w cartrefi nag mewn Awdurdod arall. Hefyd, mewn hinsawdd o doriadau ariannol parhaus, ni allwn ychwaith anwybyddu gwahaniaeth mewn costau rheoli corfforaethol blynyddol o fwy na £50 y dinesydd rhwng dau Awdurdod cyfagos, neu wahaniaeth cost o £90 y tunnell o wastraff sy'n cael ei gasglu rhwng un Awdurdod a'r llall. Mae llawer o'n Hawdurdodau yn destun, neu wedi bod yn destun, mesurau arbennig ar gyfer addysg yn ddiweddar. A hyd yn oed os yw Awdurdod yn perfformio'n dda mewn un maes gwasanaeth, yn aml ni all berfformio cystal ym mhob maes cyfrifoldeb. Nid mater o ddangosyddion a thargedau yn unig yw hyn. Canfu Arolwg Cenedlaethol Cymru 2012-13 nad yw 43% o bobl yng Nghymru yn 'cytuno' bod eu Cyngor

yn cynnig gwasanaethau o ansawdd uchel; hefyd, nid oedd 59% o bobl yn cytuno bod eu Hawdurdod Lleol yn gwneud yn dda o ran eu hysbysu am ei berfformiad[1].

31. Mae Awdurdodau'n dod yn fwy agored a thryloyw, ond mae gormod o enghreifftiau o hyd o benderfyniadau'n cael eu gwneud heb ymgynghori priodol, ac rydym wedi gweld nifer o fethiannau o ran llywodraethu mewn nifer o Awdurdodau. Hyd yn oed os yw'r symiau arian dan sylw yn gymharol fach yng nghyd-destun cyfanswm cyllideb Awdurdod, mae'r methiannau hyn yn cael effaith niweidiol sylweddol ar hyder pobl yng ngallu eu Hawdurdod Lleol i ddefnyddio arian trethdalwyr lleol mewn ffordd briodol ac effeithiol.

32. Canfu'r Arolwg Cenedlaethol fod 47% o bobl eisiau ymwneud yn fwy â phenderfyniadau eu Cyngor. Mae Awdurdodau Lleol yn wynebu penderfyniadau anodd ynghylch cyllidebau yn y dyfodol ac mae rhai enghreifftiau rhagorol o sut maent wedi ymgysylltu â'u cymunedau, ond mae angen mwy o hyn. Canfu Swyddfa Archwilio Cymru[2] nad yw nifer o Gynghorau yn ymgysylltu'n effeithiol wrth gynllunio cyllidebau, nac yn ystyried canlyniadau ymarferion ymgysylltu a gynhelir. O ganlyniad, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn dod i'r casgliad nad yw rhai Cynghorau yn adlewyrchu anghenion, blaenoriaethau a disgwyliadau eu cymunedau.

33. Mae ffordd bell i fynd o hyd nes y bydd gennym gorff o aelodau etholedig sy'n adlewyrchu'n llawn y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, ac sy'n craffu'n effeithiol ac yn dwyn eu Hawdurdodau i gyfrif. Mae angen i'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau ar ein rhan ddeall eu cymunedau, bod yn gynrychioliadol ohonynt, a deall eu hanghenion; fodd bynnag, mae mwyafrif y cynghorwyr yng Nghymru dros 60 oed, mae llai na thraean yn fenywod, ac mae 99 o bob 100 yn wyn.

34. Mae craffu'n gwella, ond canfu'r Comisiwn – a Swyddfa Archwilio Cymru[3] yn fwy diweddar – fod llawer mwy i'w wneud o hyd i gynyddu atebolrwydd cyhoeddus o ran gwneud penderfyniadau. Mae'r ohebiaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei derbyn yn dangos bod pobl yn anfodlon o hyd gyda'r ffordd y mae Awdurdodau yn ymateb i gwynion amdanynt, ac mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi tynnu sylw at broblemau sy'n cael eu achosi wrth i Awdurdodau Lleol a gwasanaethau cyhoeddus eraill oedi wrth ymateb i gwynion.[4]

35. Mae angen i Awdurdodau fynd benben â'r heriau hyn. Ond rydym yn cydnabod bod heriau i ni hefyd, ac rydym yn gwybod bod gan Lywodraeth rôl i'w chwarae. Yn yr un modd â phob llywodraeth genedlaethol, mae'n rhaid i ni osod y canlyniadau rydym am eu gweld, ac mae'n rhaid i ni alluogi a chefnogi Awdurdodau Lleol ac eraill i wneud hynny. Ond nid oes angen i ni reoli manylion busnes Awdurdodau Lleol. Gallwn a dylem adael i'r rheini sy'n darparu'r gwasanaethau gael mwy o annibyniaeth a gwneud penderfyniadau. Mae angen

[1] Arolwg Cenedlaethol Cymru, Prif ganlyniadau Ebrill 2012– Mawrth 2013, 23 Mai 2014. http://wales.gov.uk/statistics-and-research/nationals-survey/?lang=en#/statistics-and-research/nationals-survey/?lang=cy

[2] Ymdrin â'r Heriau Ariannol sy'n wynebu Llywodraeth Leol yng Nghymru, Swyddfa Archwilio Cymru, Ionawr 2014. https://www.wao.gov.uk/publication/meeting-financial-challenges-facing-local-government-wales

[3] Craffu Da? Cwestiwn Da! - Astudiaeth wella Archwilydd Cyffredinol Cymru: Craffu mewn Llywodraeth Leol, Mai 2014. http://www.wao.gov.uk/cy/cyhoeddi/craffu-da-cwestiwn-da-astudiaeth-wella-archwilydd-cyffredinol-cymru-craffu-mewn-llywodraeth

[4] Coflyfr yr Ombwdsmon Rhifyn 15, Ionawr 2014. https://www.ombudsman-wales.org.uk/cy-GB/publications/The-Ombudsmans-Casebook.aspx

i'r ffordd rydym yn datblygu polisïau gydnabod cryfderau cydlynu, ac mae angen bod yn fwy cyson ynghylch materion ymarferol darparu. Ac mae angen i ni gael gwared ar beth o'r baich rydym yn ei roi ar Awdurdodau drwy ormod o fesur perfformiad, gofynion cynllunio manwl, a chyfyngiadau ariannol. Yn gyfnewid, byddem yn disgwyl bod perfformiad yn gwella a bod ein blaenoriaethau'n cael eu cyflawni.

**Cwestiwn: Sut gall Awdurdodau Lleol ymgysylltu'n fwy effeithiol â'u cymunedau ynghylch heriau cynnal gwasanaethau fel y maent yn cael eu darparu ar hyn o bryd a'r angen am newid?**

**Cwestiwn: Beth arall y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud i helpu Awdurdodau gyda'r ddeialog hon i wella eu perfformiad o ran darparu gwasanaethau â blaenoriaeth?**

**Cwestiwn: Pa awgrymiadau penodol sydd gennych ar gyfer lleihau a symleiddio gweinyddu a fyddai'n rhyddhau amser ac adnoddau i ddarparu a gwella gwasanaethau?**

## Symud Ymlaen

36. Mae'n hawdd dadlau y dylem ganolbwyntio ar ddatrys y problemau hyn yn hytrach na newid strwythurau. Fodd bynnag, mae'n rhaid cael system o lywodraethu ar lefel genedlaethol a lleol sy'n ein rhoi yn y sefyllfa orau bosibl i unioni'r pethau hyn, a bod gennym sefydliadau a all berfformio. Nid ein nod craidd yw ailstrwythuro Llywodraeth Leol, ond yn hytrach bod Awdurdodau Lleol yn darparu gwasanaethau sy'n gwella'n barhaus ac yn ymdrechu am ragoriaeth, lle mae eu perfformiad yn weladwy ac yn dryloyw i'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, ac yn gallu cael ei gymharu â'r gorau. Mae hyn yn golygu'r gorau o'u math, nid dim ond y gorau yng Nghymru: nid yw dyhead lleol i fod yn well na chyfartaledd Cymru yn ddigon da.

37. Mae'r Papur Gwyn hwn yn amlinellu'r camau y mae angen eu cymryd i uno Awdurdodau Lleol yn sefydliadau mwy o faint a mwy cynaliadwy. Fodd bynnag, bydd uno Awdurdodau yn cyflawni'r nodau hyn dim ond os bydd Llywodraeth Leol yn cael ei diwygio'n ehangach, oherwydd na fydd cyfuno'r Awdurdodau presennol yn gyrff mwy sy'n parhau i wneud yr un pethau yn yr un ffordd yn cynnig gwasanaethau gwell neu ganlyniadau gwell. Mae angen i ni baratoi nawr os ydym am sicrhau diwygio cydlynus a chynhwysfawr sy'n cael ei gynllunio'n drylwyr. Mae gweddill y papur hwn felly'n gosod ein gweledigaeth ar gyfer Awdurdodau Lleol a sut rydym yn bwriadu ei gwireddu.

## Diwygio Llywodraeth Leol – Cryfhau democratiaeth, cynnal a gwella gwasanaethau

38. Fel rydym yn ei nodi yn y cyflwyniad, rydym am weld Awdurdodau Lleol sy'n addas at yr unfed ganrif ar hugain. Rydym am gael perthynas go iawn rhwng y rheini sy'n darparu gwasanaeth a'r rheini sy'n dibynnu arno, drwy ddemocratiaeth leol gryfach a chraffu mwy effeithiol, gan alluogi cynghorwyr lleol i fynd ati'n briodol i ddwyn y rheini sy'n gyfrifol am wasanaethau i gyfrif, a hynny ar ran y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Rydym

eisiau i hyn gynnwys cynllunio ar gyfer yr hirdymor, yn hytrach na dim ond canolbwyntio ar benderfyniadau tymor byr. Rydym hefyd am weld awydd o'r newydd gan Awdurdodau Lleol i wneud mwy o waith partneriaeth a chydweithredu, gyda'i gilydd, gyda rhannau eraill o'r gwasanaeth cyhoeddus a chyda'r Trydydd Sector, pan mai dyma'r ffordd orau o ddarparu ar gyfer cymunedau.

## Sut allwn ni wneud Llywodraeth Leol yn fwy atebol a thryloyw? – Democratiaeth a Chraffu

39. Mae gan Awdurdodau Lleol rôl hanfodol o ran darparu gwasanaethau i'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Fodd bynnag, rydym am weld Awdurdodau Lleol sy'n fwy na rheolwyr ar gyfres o wasanaethau unigol; rydym hefyd eisiau iddynt arwain ar wella'r ystod lawn o wasanaethau fel bod gwasanaethau'n cydweithio i sicrhau llesiant ehangach eu cymunedau. Mae hyn yn gofyn am ddemocratiaeth leol iach a chadarn, lle mae cynghorwyr yn gweld eu hunain fel hyrwyddwyr pobl a chymunedau ac yn cael eu cydnabod felly, a lle maent yn gyfrifol am wneud penderfyniadau a dwyn ei gilydd i gyfrif yn effeithiol. Hefyd mae ganddynt rolau clir i'w chwarae o ran darparu a gwella gwasanaethau ar gyfer y trigolion y maent yn eu gwasanaethu ac yn eu cynrychioli.

40. Er mwyn sicrhau y gall Awdurdodau Lleol gefnogi'r nod hwn, rydym yn bwriadu cynnal adolygiad sylfaenol o gyfansoddiad ein Hawdurdodau er mwyn creu setliad cyfansoddiadol newydd ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y dyfodol ar ôl eu diwygio. Bydd hyn yn manteisio ar y cyswllt rhwng Aelodau Etholedig a'u cymunedau, gan sicrhau bod penderfyniadau agored a thryloyw yn cael eu gwneud, gydag atebolrwydd wrth wraidd hyn. Rydym yn bwriadu archwilio trefniadau craffu a llywodraethu a rôl archwilio, arolygu a rheoleiddio fel rhan o'r adolygiad hwn.

41. Bydd trefniadau craffu a llywodraethu felly'n cael eu had-drefnu i sicrhau eu bod yn fwy agored, tryloyw ac atebol. Er enghraifft, rydym wedi gwneud newidiadau i'w gwneud yn ofynnol i bob swydd Awdurdod Lleol â chyflog o fwy na £100,000 gael eu hysbysebu'n gyhoeddus, i Gynghorau llawn wneud penderfyniadau ynghylch tâl swyddogion uwch, ac i dâl Prif Weithredwyr gael ei gyfeirio at y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Rydym wedi gwella mynediad at fusnes Cynghorau ac wedi cynnig arian i helpu Awdurdodau i ddechrau darlledu byw o gyfarfodydd llawn prif Gynghorau a Phwyllgorau, ac rydym yn bwriadu ei gwneud yn orfodol i bob Awdurdod wneud hynny.

42. Hefyd rydym am sicrhau bod ein Haelodau a Etholir yn Lleol yn wirioneddol gynrychioliadol o'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu: mae adroddiad y Grŵp Arbenigwyr ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol[5] yn dangos bod tipyn o ffordd i fynd o hyd cyn cyflawni hyn. Rydym wedi datblygu a byddwn yn rhoi Cynllun Gweithredu ar waith mewn ymateb i adroddiad y Grŵp Arbenigwyr, a byddwn yn gweithio'n agos gyda'r holl bleidiau gwleidyddol i gyflawni targedau sy'n flaenoriaeth, fel y targed i 40 y cant o leiaf o gynghorwyr fod yn fenywod. Sefydlwyd grŵp i lywio'r gwaith hwn hyd at yr etholiadau Llywodraeth Leol yn 2017.

[5] http://wales.gov.uk/topics/localgovernment/publications/expert-group-report/?lang=cy

Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o amryw sefydliadau, gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), Un Llais Cymru a'r pleidiau gwleidyddol. Yn gefn i hyn bydd arbenigwr ar secondiad gyda Llywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â'r Cynllun Gweithredu y cyflwynodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth a rhwydwaith o eiriolwyr Aelodau Etholedig o bob un o'r Awdurdodau Lleol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

43. Gwnaeth y Comisiwn nifer o argymhellion sy'n ceisio lleihau'r cymhlethdod sy'n gysylltiedig ag archwilio, arolygu a rheoleiddio[6], ac alinio craffu lleol a'r drefn archwilio ac arolygu gwasanaethau cyhoeddus fwyfwy. Bydd ein hadolygiad o archwilio ac arolygu yn cefnogi'r argymhellion hyn. Mae'r adolygiad hwn eisoes wedi cychwyn a bydd y canfyddiadau'n llywio'r ffordd y caiff y gyfundrefn archwilio ac arolygu ei datblygu. Yn y cyfamser, rydym yn cytuno gyda'r Comisiwn y dylai archwilwyr ac arolygwyr sy'n adrodd ar Awdurdodau Lleol wneud hynny'n uniongyrchol i'r pwyllgor craffu neu archwilio priodol, ac rydym yn disgwyl iddynt ddechrau gwneud hynny ar unwaith.

44. Rydym hefyd yn derbyn argymhellion y Comisiwn ynghylch atgyfnerthu statws a gwerth craffu, ac rydym yn cytuno bod angen i sefydliadau ystyried craffu fel buddsoddiad a all arwain at wasanaethau gwell ac arbedion effeithlonrwydd yn y dyfodol. Mae'n rhaglen bresennol o gymorth ar gyfer craffu eisoes wedi cael effaith ar statws ac effeithiolrwydd craffu gan Awdurdodau Lleol. Yn ystod y broses ddiweddar o osod cyllidebau Awdurdodau Lleol ar gyfer 2014-15, llwyddodd nifer o Awdurdodau i osod strategaethau ymgysylltu i lywio'r gwaith o graffu ar gynigion cyllidebol a wnaed mewn ymateb i'r gostyngiadau yn yr adnoddau sydd ar gael. Mae hyn wedi dangos gwerth ymgysylltu a chraffu pan fydd yn rhaid i Awdurdodau Lleol wneud penderfyniadau anodd, yn enwedig effaith y penderfyniadau hynny ar ddefnyddwyr gwasanaethau. Mae'r Gronfa Datblygu Gwaith Craffu hefyd yn cefnogi prosiect i ddatblygu egwyddorion craffu effeithiol ar wasanaethau sy'n cael eu darparu ar y cyd.

45. Rydym yn bwriadu parhau â'r rhaglen bresennol, ond rydym hefyd yn ymchwilio i sut gellid ymestyn ei chwmpas er mwyn rhoi cymorth ychwanegol yn benodol i gyflawni argymhellion y Comisiwn i'r perwyl hwn. Rydym yn disgwyl gweld sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru yn buddsoddi yn yr un modd mewn swyddogaethau craffu, gan ddarparu hyfforddiant priodol i sicrhau bod craffu yn effeithiol, ac ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau i sicrhau bod pawb yn deall gwerth craffu. Hefyd, o fod wedi rhoi dyletswydd ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ar Awdurdodau Lleol i ymgysylltu'n effeithiol â defnyddwyr gwasanaethau wrth gyflawni eu swyddogaethau craffu, rydym yn annog cyrff cyhoeddus eraill i sicrhau y gall safbwyntiau defnyddwyr gwasanaethau gyfrannu at eu prosesau craffu.

**Cwestiwn: Pa newidiadau penodol y dylid eu gwneud i gyfansoddiad presennol Awdurdodau Lleol i sicrhau eu bod yn agored ac yn dryloyw, a bod atebolrwydd yn eglur?**

**Cwestiwn: Sut dylai'r rhaglen cefnogi gwaith craffu gael ei llunio i gefnogi gwelliannau o ran effeithiolrwydd gwaith craffu?**

**Cwestiwn: Ym mha ffyrdd eraill y dylid cryfhau gwaith craffu er mwyn gwella gwasanaethau?**

[6] Mae'r cyrff allweddol yn cynnwys Swyddfa Archwilio Cymru, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, ac Estyn

## Craffu a Llywodraethu – Awdurdodau Tân ac Achub

46. Mae pwysigrwydd llywodraethu a chraffu o ran sicrhau gwelliant parhaus, hyd yn oed lle ceir perfformiad da, yr un mor berthnasol i Awdurdodau Tân ac Achub ag i wasanaethau cyhoeddus eraill. Argymhellodd adroddiad y Comisiwn y dylid ail-lunio cyfansoddiad Awdurdodau Tân ac Achub er mwyn dwyn Prif Swyddogion Tân i gyfrif a chryfhau'r gwaith llywodraethu a chraffu ar benderfyniadau gwasanaeth ac ariannol strategol. Byddai pob Prif Swyddog Tân yn cael cyfrifoldebau cyfreithiol dros gynllunio, rheoli a darparu Gwasanaeth Tân ac Achub effeithiol yn eu hardal berthnasol. Bydd yr argymhelliad hwn gan y Comisiwn yn gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol. Byddai'n cynigion isod i greu Awdurdodau mwy o faint a mwy cadarn drwy uno, waeth bynnag, yn gofyn i ni ystyried sut byddai'r newidiadau hyn yn effeithio ar gyfansoddiad Awdurdodau Tân ac Achub.

**Cwestiwn: Beth yw'r ffordd orau o sicrhau llywodraethu a craffu ar benderfyniadau gwasanaeth ac ariannol strategol Awdurdodau Tân ac Achub?**

## Sut allwn ni roi llais cryfach i bobl yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt? – Llywodraethu Cymunedol

47. Cydnabu'r Comisiwn fod yn rhaid defnyddio llais y dinesydd, naill ai'n uniongyrchol neu wedi'i gyfryngu drwy gynrychiolaeth effeithiol, fel grym ar gyfer gwella, ond roedd cydnabyddiaeth helaeth bod y prosesau a'r arferion ar gyfer gwneud hynny yn dameidiog, yn anghyson ac yn aml yn aneffeithiol. Rydym yn cytuno. Mae angen llais clir a phwerau ar bobl i helpu i lywio gwasanaethau lleol, ac rydym yn credu bod llywodraethu cymunedol cryfach hefyd yn hanfodol ar gyfer democratiaeth gref. Mae hyn yn gofyn am lais cryf a chlir sy'n cael effaith ar benderfyniadau Awdurdodau Lleol, ac yn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu llunio a'u darparu mewn ffordd sy'n adlewyrchu anghenion cymunedau yn eu cyfanrwydd, yn ogystal â defnyddwyr gwasanaethau unigol.

48. Mae Cynghorau Tref a Chymuned yn un elfen o lywodraethu cymunedol, ond mae argymhellion y Comisiwn hefyd yn cydnabod gwerth ffyrdd newydd o reoli cymdogaethau. Nid ydym yn credu bod y ffyrdd hyn yn anghydnaws. Fodd bynnag, rydym yn credu bod ffactorau pwysig y mae angen ymchwilio iddynt ymhellach, fel rôl benodol a gwerthfawr y cynghorydd ward mewn prif Awdurdodau, a Phwyllgorau Ardal Prif Awdurdodau. Mae hyn mewn cyd-destun lle mae cymunedau'n cael eu grymuso i gymryd eu camau eu hunain y tu allan i fodelau llywodraethu democrataidd traddodiadol, drwy grwpiau adfywio a gweithredu cymunedol, a thrwy ddefnyddio technoleg fodern.

49. Rydym yn cytuno â'r Comisiwn bod angen diwygio a gwella. Rydym yn cytuno bod rhai Cynghorau Tref a Chymuned yn rhy fach, ac nad oes ganddynt ddigon o gapasiti ac adnoddau. Fel cam cychwynnol, byddwn yn ystyried a fyddai unrhyw ardaloedd Prif Awdurdodau yng Nghymru yn elwa ar adolygiad o'u cymunedau ac yn trefnu i adolygiad gael ei gynnal gan y prif gyngor neu Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru. Fodd bynnag, rydym yn credu bod yn rhaid ystyried rôl Cynghorau Tref a Chymuned yn nghyd-destun Prif Awdurdodau mwy a rôl Cynghorwyr ward yn yr Awdurdodau hynny. Nid ydym am ail-greu system dwy haen o Lywodraeth Leol yng Nghymru. Mae hefyd yn rhaid ystyried ein cynigion ym Mil Llesiant

Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ar gyfer cynlluniau llesiant lleol, a'r amryw ffyrdd eraill y mae cymunedau yn dod ynghyd i roi llais effeithiol i'w hanghenion a'u pryderon. Felly, byddwn yn cyhoeddi papur pellach yn yr hydref eleni er mwyn ymgynghori â rhanddeiliaid a chymunedau ar opsiynau ar gyfer cryfhau llywodraethu cymunedol fel ei fod yn effeithiol ac yn addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.

**Cwestiwn: Pa awgrymiadau sydd gennych i sicrhau bod gan gymunedau lais effeithiol ym mhenderfyniadau'r Awdurdodau newydd?**

**Cwestiwn: Pa fath o brosesau ymgynghori, ymgysylltu ac adborth a ddylai fod rhwng yr Awdurdodau newydd a chymunedau?**

## Partneriaeth a Chydweithredu

50. Os ydym am fynd i'r afael â nifer o'r heriau rydym yn eu hwynebu nawr ac yn y dyfodol o ran darparu, bydd angen i Awdurdodau Lleol – waeth faint sy'n bodoli a beth yw eu maint – barhau i weithio gyda'i gilydd, gyda rhannau eraill o'r sector cyhoeddus a chyda phartneriaid eraill (gan gynnwys y Trydydd Sector). Bydd cydweithredu a gwaith partneriaeth yn parhau i fod yn hanfodol os yw'r cyhoedd am gael y gwasanaethau y gallant eu disgwyl o fewn rheswm. Er mai ar lefel leol iawn yw'r ffordd orau o ddarparu rhai gwasanaethau, mae ar eraill angen buddsoddiad neu arbenigedd na ellir eu cynnig ym mhob cymuned leol. Rydym yn credu o hyd yng ngwerth cydweithredu, ac yn egwyddor gwaith partneriaeth gan gyrff cyhoeddus lle ceir manteision o wneud hynny. Mae gan Awdurdodau Lleol rôl hanfodol fel canolbwynt cydweithredu democrataidd lleol ar draws gwasanaethau cyhoeddus.

51. Cydnabu'r Comisiwn bwysigrwydd cydweithredu oherwydd mai prin y mae heriau darparu yn gyfyngedig i ffiniau sefydliadol neu ddaearyddol. Fodd bynnag, roedd hefyd o'r farn nad oedd cydweithredu gwirfoddol wedi newid pethau'n ddigon cyflym, a'i fod mewn rhai achosion wedi gwneud pethau'n fwy cymhleth drwy greu set bellach o brosesau i'w dilyn a chysylltiadau i'w rheoli, a gallai'r rheini dynnu sylw oddi ar ddarparu.

52. Mae Llywodraeth Cymru wedi annog ac wedi buddsoddi mewn cydweithredu lleol, ond nid yw erioed wedi ystyried cydweithredu yn bwrpas ynddo'i hun. Rydym yn credu bod angen mwy o ymrwymiad o ran symud mentrau cydweithredu yn eu blaen, a bod angen gwneud hynny'n gynt. Mae enghreifftiau da wedi bod o weithgarwch cydweithredu i sicrhau manteision (yn ariannol ac o ran gwella darpariaeth), ond nid ydym yn credu bod partneriaid wedi achub ar bob cyfle posibl. Rôl Llywodraeth yw pennu'r canlyniadau strategol, ond yna i bartneriaethau gyflawni'r canlyniadau hynny.

53. Yn 2011, cytunodd Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru ar raglen o weithgarwch a phrosiectau cydweithredol i wella gwasanaethau.[7] Rydym yn cytuno ei bod wedi cymryd yn rhy hir i ad-drefnu rhai o'r gwasanaethau, a bod trafod ac ystyried gormodol, yn hytrach na gweithredu, wedi amharu ar hyn. Yn yr adroddiad terfynol ar weithredu'r rhaglen,

[7] Compact ar gyfer Newid rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol yng Nghymru, Rhagfyr 2011 http://wales.gov.uk/topics/improvingservices/publicationsevents/publications/compact/?lang=cy

a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2013, amlinellwyd y cynigion hynny ar gyfer darparu gwasanaethau rhanbarthol y bernir eu bod yn werth eu dilyn, wedi i'r prosiectau ddatblygu achosion busnes. Rydym yn cytuno â'r Comisiwn y dylai'r cynigion cydweithredu sy'n weddill fod yn rhan o'r un trefniadau llywodraeth â'r brif raglen ar gyfer uno Llywodraeth Leol, wedi iddynt gael eu gosod. Rydym hefyd yn comisiynu gwerthusiad o ffrydiau cyllid i gefnogi gwaith cydweithredol, a fydd yn cyflwyno adroddiad ddiwedd 2015 ac yn cyflwyno tystiolaeth ar ganlyniadau i wasanaethau cyhoeddus a defnyddwyr gwasanaethau, ac unrhyw effaith ar y cyhoedd yn ehangach.

54. Partneriaethau yw Byrddau Gwasanaethau Lleol lle mae arweinwyr sefydliadau cyhoeddus a Thrydydd sector lleol yn dod ynghyd i gymryd camau ar y cyd i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn effeithiol, a'u bod yn canolbwyntio ar anghenion pobl a chymunedau. Rydym yn credu'n gryf bod gan Fyrddau Gwasanaethau Lleol, ac y bydd ganddynt, rôl hanfodol o ran dod â sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus lleol ynghyd. Ond rydym yn cydnabod bod lle i wella ymhellach, fel y mae'r Comisiwn yn ei nodi. Dyna pam y bydd darpariaethau ar gyfer diwygio Byrddau Gwasanaethau Lleol yn rhan allweddol o'n Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Bydd y Bil yn rhoi argymhellion allweddol y Comisiwn ar waith drwy:

- wneud Byrddau Gwasanaethau Lleol yn statudol, gydag uwch-gynrychiolwyr o bob sefydliad a threfniadau llywodraethu cyson a mwy effeithiol;
- ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Gwasanaethau Lleol baratoi cynlluniau llesiant lleol i nodi blaenoriaethau lleol lle mae angen gweithredu aml-asiantaeth, ar sail dadansoddiad o anghenion ac ymgysylltu â phobl a chymunedau'r ardal;
- ei gwneud yn ofynnol i amlinellu'r camau y mae'n rhaid eu cymryd i gyflawni'r blaenoriaethau, gan bwy a phryd;
- gosod cynllunio llesiant lleol yng nghyd-destun ehangach o dargedau a dangosyddion llesiant cenedlaethol sy'n cael eu pennu gan y Bil, gan sicrhau bod cynlluniau llesiant lleol yn rhoi ar waith yr egwyddorion datblygu cynaliadwy o feddwl hirdymor, integreiddio, cydweithredu, atal problemau ac ymgysylltu â dinasyddion;
- sicrhau bod Byrddau Gwasanaethau Lleol yn cael eu dwyn i gyfrif a bod pwyllgor craffu democrataidd Llywodraeth Leol penodedig yn monitro effeithiolrwydd eu cynlluniau llesiant a'u trefniadau llywodraethu.

## Trefniadau Partneriaethau Cenedlaethol

55. Rydym yn cytuno bod angen adolygu a diwygio Cyngor Partneriaeth Cymru a Grŵp Arwain y Gwasanaeth Cyhoeddus i adlewyrchu'r model gwasanaethau cyhoeddus newydd[8]. Rydym hefyd yn cytuno y dylai Cyngor Partneriaeth Cymru fod yn berchen ar y rhaglen waith sy'n ofynnol i roi ar waith y diwygiadau rydym yn eu hamlinellu yn y papur hwn. Ein bwriad yw bod Cyngor Partneriaeth Cymru yn cynnig arweinyddiaeth ac atebolrwydd gwleidyddol ar nifer o elfennau'r agenda diwygio gwasanaethau cyhoeddus newydd, gan gynnwys uno Awdurdodau Lleol. Rydym yn rhag-weld y bydd nifer o is-grwpiau a grwpiau cynghori yn cefnogi hyn, gyda'r bwriad o ganolbwyntio ar agweddau technegol penodol ar y broses uno. Bydd manylion y ffrydiau gwaith hyn yn cael eu datblygu mewn ymgynghoriad â Chyngor Partneriaeth Cymru. Rydym yn credu bod cylch gwaith presennol Cyngor Partneriaeth Cymru, fel y'i nodir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006, yn ddigon eang ar gyfer y diben newydd rydym yn ei ragweld.

**Cwestiwn: Sut y gallwn ymgysylltu orau gyda Llywodraeth Leol i ddatblygu rhaglen o ddiwygio Llywodraeth Leol?**

## Sut allwn ni sicrhau bod perfformiad Llywodraeth Leol yn gwella ac yn parhau i wella?

56. Un o nodau craidd gwaith y Comisiwn oedd dod o hyd i ffyrdd o wella perfformiad gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r Comisiwn wedi cyflwyno tystiolaeth gref ynghylch sut mae trefniadau rheoli perfformiad cymhleth wedi tynnu sylw gwasanaethau o'r diben canolog o helpu pobl Cymru i fwynhau bywydau gwell.

57. Mae trefniadau adrodd ar berfformiad yn aml wedi tyfu mewn ffordd anghyson ac rydym yn cytuno bod angen gweithio mewn ffordd fwy penodol. Fodd bynnag, nid yw hyd yn oed yr wybodaeth orau am berfformiad yn gwella perfformiad ar ei phen ei hun. Mae hyn yn digwydd dim ond pan fydd yr wybodaeth gywir yn cael ei defnyddio'n effeithiol – i bwyso a mesur bod lle i wella, dylanwadu ar benderfyniadau, llunio atebion, monitro cynnydd a mesur effaith. Mae hyn yn dibynnu ar fwy na'r wybodaeth iawn a'r sgiliau dadansoddol i'w dehongli a'i herio, ond hefyd ar roi rheoli a perfformiad a gwybodaeth am berfformiad yng nghyd-destun diben, blaenoriaethau a chyfeiriad strategol clir.

58. Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn rhan ganolog o'n gwaith strategol ar gyfer gwella perfformiad a darparu. Mae'n ymrwymiad gwirioneddol i ddarparu, ac yn ffordd wahanol o fesur llwyddiant o'i gymharu â'r dull oedd yn rhoi gormod o bwyslais ar

[8] Mae Cyngor Partneriaeth Cymru yn hybu gwaith ar y cyd a chydweithredu rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol. Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth sy'n ei gadeirio a'i gyfrifoldebau allweddol yw::
- annog deialog rhwng Gweinidogion Cymru a Llywodraeth Leol ar faterion sy'n effeithio ar Lywodraeth Leol yng Nghymru
- cynnig atebolrwydd gwleidyddol casgliadol ar gyfer cymryd camau i wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gwasanaethau cyhoeddus..

Mae Grŵp Arwain y Gwasanaeth Cyhoeddus yn cynnig arweinyddiaeth genedlaethol ar gydweithredu. Mae hefyd yn cael ei gadeirio gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth, ac mae'n cynnwys uwch arweinwyr ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

yr arian sy'n cael ei wario, neu nifer y polisïau sy'n cael eu rhoi ar waith, yn hytrach na'r effaith y mae'r Llywodraeth yn ei chael ar fywydau pobl mewn gwirionedd. Cydnabu'r Comisiwn pa mor bwysig yw bod y Llywodraeth yn pennu ei chanlyniadau strategol a sut dylid asesu cynnydd. Fodd bynnag, canfu fod y fframweithiau mesur presennol yn gymhleth, a bod angen ymdrech sylweddol i asesu cynnydd o'r wybodaeth am berfformiad sy'n deillio ohonynt.

59. Rydym yn credu y bydd Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn cynnig fframwaith ar gyfer diben eglur yn y tymor hwy, ac felly dyma fydd y cam cyntaf tuag at sicrhau gwelliannau. Bydd y Bil yn pennu set lai o dargedau llesiant cenedlaethol, a phroses er mwyn i sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus ddangos sut maent wedi ceisio cyflawni'r nodau hynny.

60. Byddai'r drefn fwy effeithiol o reoli perfformiad y mae'r Comisiwn yn galw amdani ar draws y sector cyhoeddus cyfan yn newid uchelgeisiol i'r system gyfan. Mae cymryd y cyfle a gyflwynir gan y Bil hwn yn fan cychwyn ar gyfer diwygio, ac rydym yn bwriadu gwneud mwy o gynnydd cynnar drwy lunio egwyddorion a safonau rheoli perfformiad i'w cymhwyso ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.

61. Yn y cyfamser, rydym am weld Awdurdodau Lleol yn cymryd cyfrifoldeb llawn am berfformiad eu gwasanaethau, hybu llesiant drwy gamau ataliol yn ogystal â chamau adweithiol, a gwelliant corfforaethol, gyda phwyllgorau craffu yn cynnig her effeithiol i'r ffordd y mae eu Hawdurdod yn perfformio. Dylai'r cyfrifoldeb fod ar Awdurdodau i fynd ati i nodi ac ymateb i faterion perfformiad neu lywodraethu wrth iddynt godi cyn i archwilwyr neu arolygwyr dynnu sylw atynt. Rydym yn gwybod bod hyn yn digwydd mewn rhai o feysydd gwasanaeth rhai Awdurdodau, ond nid yw'n beth cyffredin o bell ffordd. Yn rhy aml, ymddengys mai'r unig bryd y bydd ymateb effeithiol i fater gwasanaeth neu lywodraethu yw wedi i arolygiaethau neu Swyddfa Archwilio Cymru dynnu sylw ato. Rydym yn bwriadu adolygu Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i weld a oes modd ei newid er mwyn helpu i wella gwasanaethau yn fwy effeithiol, a sicrhau bod perthynas fwy eglur rhwng hunan-asesu ac arolygu allanol.

62. Rydym hefyd am weld Awdurdodau Lleol yn darparu gwybodaeth mewn ffordd hygyrch a thryloyw i'w cymunedau fel y gall y cymunedau hynny wybod sut mae eu gwasanaethau'n cael eu rheoli, a'u bod yn ymgysylltu â hynny. Mae hyn yn gofyn am ymrwymiad gan arweinwyr ac uwch swyddogion i fod yn agored, ond mae hefyd yn gofyn am swyddogaeth strategol gref a medrus ym mhob Awdurdod. Bydd hyn yn gofyn am fuddsoddiad priodol yn y capasiti a'r adnoddau arwain a dadansoddi y mae eu hangen i ddehongli tystiolaeth, nodi'r tueddiadau tymor hwy mewn llesiant y dylai Awdurdodau fod yn ceisio mynd i'r afael â hwy a chreu ffyrdd o ymdrin â nhw. Rydym yn cydnabod y gallai fod yn anodd i Awdurdodau llai gefnogi a chadw'r capasiti a'r adnoddau angenrheidiol, ond dylai fod yn haws i Awdurdodau mwy ac Awdurdodau sy'n cael eu huno wneud hynny. Bydd hyn hefyd yn cefnogi craffu lleol mwy effeithiol gan Aelodau Etholedig.

63. Bydd dangosyddion canlyniadau a mesurau perfformiad yn parhau i fod yn rhan bwysig o reoli a gwella perfformiad Llywodraeth Leol. Fodd bynnag, rydym yn bwriadu pennu canlyniadau clir a chyffredin, sy'n canolbwyntio'n fwy effeithiol ar welliannau tymor hwy o ran llesiant pobl. Rydym hefyd yn bwriadu gwneud mesur perfformiad lefel gwasanaeth yn llai cymhleth. Rydym hefyd am i Awdurdodau Lleol wneud defnydd gwell o wybodaeth ansoddol am sut mae

gwasanaethau'n perfformio, a allai olygu defnyddio grwpiau ffocws er enghraifft, neu ystyried yr hyn mae natur cwynion yn ei ddweud am y ffordd y mae pobl yn meddwl am wasanaeth penodol, yn ogystal â'r hyn y mae mesurau perfformiad yn ei ddweud ynghylch a yw targedau lefelau gwasanaeth yn cael eu cyrraedd.

64. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn gwneud buddsoddiad sylweddol i gefnogi gwelliant Awdurdodau Lleol drwy amryw ymyriadau a mentrau. Rydym yn bwriadu adolygu'r ffordd rydym yn defnyddio cyllid o'r fath i weld sut y gallem fynd ati'n fwy effeithiol i gefnogi Awdurdodau i ganolbwyntio ar les hirdymor ac atal problemau, yn ogystal ag ar wella gwasanaethau a llywodraethu da

**Cwestiwn: Sut allwn ni helpu ac annog Awdurdodau Lleol i fod yn fwy rhagweithiol o ran nodi ac ymateb i faterion darparu neu lywodraethu?**

**Cwestiwn: Beth ddylai'r egwyddorion a'r safonau fod ar gyfer rheoli perfformiad ac adrodd ar berfformiad ar draws Awdurdodau Lleol, a'r sector cyhoeddus ehangach?**

**Cwestiwn: Ym mha ffyrdd y gallem fynd ati'n fwy effeithiol i ddefnyddio'r arian rydym yn ei fuddsoddi i gefnogi gwelliant Awdurdodau Lleol?**

## Diwygio Llywodraeth Leol – Uno Awdurdodau Lleol

65. Rydym wedi dechrau amlinellu gweledigaeth uchod ar gyfer dyfodol Llywodraeth Leol, ar sail democratiaeth iach a chraffu a llywodraethu trylwyr, a chydweithredu a phartneriaeth barhaus lle bo'n briodol. Fodd bynnag, ni allwn anwybyddu heriau sylfaenol cynaliadwyedd, maint a gallu y mae'n Hawdurdodau Lleol yn eu hwynebu, ac nid ydym yn creu ei bod yn ymarferol parhau â 22 Awdurdod. Rydym felly'n derbyn argymhellion y Comisiwn i leihau nifer yr Awdurdodau drwy uno, ac mae gweddill y papur hwn yn rhoi mwy o fanylder ynghylch sut rydym yn bwriadu cychwyn y broses o wneud hynny.

## Pa achos sydd dros leihau nifer yr Awdurdodau Lleol?

66. Mae'r Comisiwn wedi amlinellu achos cryf dros leihau nifer yr Awdurdodau Lleol. Nid oedd yn rhaid iddynt wneud hyn yn ôl y cylch gwaith, ac ni chychwynnodd y Comisiwn gydag unrhyw ragdybiaethau ynghylch sut dylid strwythuro Llywodraeth Leol. Mae'n amlwg ei fod wedi dod i'r casgliad hwn ar sail y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod ei waith.

67. Wrth ystyried maint a gallu sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus, cydnabu'r Comisiwn nad yw sefydliadau bach o reidrwydd yn darparu gwasanaethau gwael. Fodd bynnag, canfu rai meysydd lle mae diffyg maint yn peri risg o safbwynt llywodraethu a darparu. Canfu hefyd fod y risgiau hyn yn codi'n amlach mewn Awdurdodau Lleol yn hytrach na darparwyr gwasanaeth cyhoeddus oherwydd ystod eu gwaith. Roedd y Comisiwn yn glir iawn na fydd newidiadau strwythurol yn unig yn arwain at y gwasanaethau cyhoeddus rydym am eu gweld, ond maent yn rhan angenrheidiol o'r newid sydd angen digwydd.

68. Mae'r Comisiwn wedi tynnu sylw at ddiffyg cydnerthedd mewn sefydliadau llai, sy'n ei gwneud yn anoddach i reoli risg mewnol ac allanol yn effeithiol ac addasu i amgylchedd sy'n newid. Efallai bod gan sefydliadau llai o faint lai o arbenigedd ar draws eu maes gwaith oherwydd diffyg galw neu adnodd ar gyfer arbenigwyr ym mhob maes. Mae diffyg capasiti hefyd yn fwy heriol mewn sefydliadau llai, a all gael trafferth hefyd o ran rheoli'r heriau strategol a gweithredol y maent yn eu hwynebu. Pwysleisiodd y Comisiwn bwysigrwydd arweinyddiaeth, ond gwelodd ei bod yn anoddach i sefydliadau llai recriwtio a chadw arweinwyr o safon uchel.

69. Cydnabu'r Comisiwn fod arbedion maint i'w cael mewn Llywodraeth Leol, a bod gorbenion corfforaethol a'r costau fesul uned ar gyfer darparu gwasanaethau penodol o reidrwydd yn uwch mewn Awdurdodau Lleol bach. Mae hyn yn golygu y gall Awdurdodau mwy ddarparu gwasanaethau rheng flaen yn fwy effeithlon oherwydd bod y costau hyn yn is. Yng nghyd-destun presennol y pwysau digynsail ar gyllidebau gwasanaethau, dadl y Comisiwn oedd ei bod yn hanfodol sicrhau unrhyw arbedion posibl o ran gorbenion a chostau fesul uned.

70. Ystyriodd y Comisiwn pa mor dda y mae Awdurdodau Lleol yn debygol o ymdrin â heriau yn y dyfodol, yn ogystal â heriau presennol. Ni fydd newidiadau demograffig yn y 20-25 mlynedd nesaf yn gyfartal ledled Cymru; canfu'r Comisiwn fod dirywiad yn fwy tebygol ym mhoblogaeth Awdurdodau llai a bod oedran eu trigolion yn gymharol uwch. Bydd Awdurdodau llai yn gweld cynnydd mwy yn y galw am wasanaethau a llai o adnoddau i gefnogi'r cynnydd hwn mewn galw.

71. O ganlyniad i'r pwysau cyllid, arweinyddiaeth ac arbenigedd y mae Awdurdodau'n eu hwynebu, canfu'r Comisiwn ei bod yn anoddach iddynt ymateb yn hyblyg i bwysau sy'n codi, ac yn anoddach iddynt allu arloesi. O ganlyniad, awgrymodd y Comisiwn fod sefydliadau llai yn dueddol o ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau dyddiol mewn ffyrdd arferol, sy'n golygu ei bod yn anoddach gwella gwasanaethau. Wrth i'r pwysau gynyddu fwyfwy yn sgil galw cynyddol a llai o adnoddau, bydd mwy o angen i arloesi a bod yn hyblyg. Mae'r Comisiwn yn credu y bydd yn anodd iawn i Awdurdodau llai ddiwallu'r angen hwn.

72. Canfu'r Comisiwn hefyd fod y risgiau y mae sefydliadau llai yn eu hwynebu yn achosi risgiau i'r system gyfan. Mae nifer fawr o sefydliadau llai yn arwain at fwy o gystadleuaeth am yr arweinwyr, y rheolwyr a'r gweithwyr proffesiynol gorau. O ganlyniad, canfu'r Comisiwn fod talent yng Nghymru yn mynd ar wasgar yn ormodol. Mae'n rhaid i sefydliadau sy'n gweithio ar raddfa fwy, fel y GIG a'r heddlu, weithio gyda gormod o bartneriaid Llywodraeth Leol, sy'n gwneud gwaith partneriaeth yn fwy o her. Er mwyn lleihau risgiau maint, mae Awdurdodau Lleol wedi cydweithredu i sicrhau'r capasiti a'r arbenigedd angenrheidiol, ond mae angen capasiti rheoli sylweddol os yw cydweithredu o'r fath am fod yn llwyddiannus, ac efallai nad yw Awdurdodau llai yn meddu ar hyn.

73. Nododd y Comisiwn yn glir nad yw cynnal y sefyllfa sydd ohoni yn opsiwn ymarferol ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn y dyfodol. Ystyriodd y Comisiwn opsiynau ar gyfer diwygio strwythurol, gan gynnwys cydweithredu mwy estynedig a pharhaol, dychwelyd i strwythur dwy haen ac uno. Canfu'r Comisiwn fod cydweithredu gwirfoddol wedi symud yn ei flaen yn araf yng Nghymru, ac awgrymodd nad yw wedi sicrhau'r manteision y gobeithiwyd amdanynt. Canfu y byddai strwythur dwy haen yn gwneud y sefyllfa'n fwy cymhleth, ac yn

costio mwy, ac y byddai arweinyddiaeth yn mynd ar wasgar fwy fyth. Felly nid argymhellodd y Comisiwn y naill na'r llall o'r opsiynau hyn. Argymhellodd uno Awdurdodau Lleol, ar y sail y byddai democratiaeth leol yn cael ei chynnal, ac y byddai'r sefyllfa'n fwy cydnerth, gyda'r lleiaf o effaith bosibl ar ddarparu gwasanaethau rheng flaen yn ystod y cyfnod pontio.

74. Wrth wneud argymhellion penodol ar gyfer uno, dadl y Comisiwn oedd bod yn rhaid i Awdurdodau Lleol fod yn ddigon mawr i osgoi'r risgiau o fod yn rhy fach, ond peidio â bod mor fawr fel eu bod yn anhylaw, yn anghynrychioliadol neu'n rhy bell o'u cymunedau i gael perthynas effeithiol â nhw. Ystyriodd y Comisiwn sawl maen prawf a allai effeithio ar allu Llywodraeth Leol i ymateb i anghenion dinasyddion a chymunedau. Roedd y rhain yn cynnwys treftadaeth a diwylliant cyffredin, yn enwedig iaith; lefelau amddifadedd; dwysedd poblogaeth; lefelau'r dreth gyngor; a phatrymau cymudo a thwf economaidd.

75. Hefyd ceisiodd y Comisiwn wella cydlyniant a chydffinioldeb rhwng Awdurdodau Lleol a darparwyr gwasanaethau mawr eraill. Argymhellodd y Comisiwn y dylid uno o fewn ffiniau sefydliadau mwy, fel Byrddau Iechyd Lleol a heddluoedd, i leihau nifer yr Awdurdodau Lleol y mae'n rhaid i'r sefydliadau hynny weithio â nhw. Roedd y Comisiwn o'r farn bod hyn yn arbennig o bwysig o ran helpu i integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r Comisiwn hefyd yn dadlau mai annoeth fyddai uno ardaloedd sy'n gymwys am gyllid cydgyfeirio'r UE gyda rhai sy'n anghymwys, oherwydd y gallai hynny olygu y byddai'r rheini sy'n gymwys ar hyn o bryd golli eu hawl am gyllid yn y dyfodol.

76. Roedd y Comisiwn yn glir iawn yn argymell uno yn hytrach nag ail-lunio unrhyw ffiniau. Bydd yn gynt ac yn haws cynllunio a bwrw ymlaen ag uno, a sicrhau manteision, heb yr amharu a'r gost llawer mwy sylweddol a fyddai'n dod yn sgil ail-lunio ffiniau.

77. Cydnabu'r Comisiwn gryfder hunaniaeth leol, ond nid yw creu unedau gweinyddol newydd yn gofyn am ymdeimlad newydd o deyrngarwch neu gymuned, nac yn dinistrio unrhyw hen rai. Cafodd y Comisiwn lawer o dystiolaeth yn dadlau "nad yw pobl yn poeni pwy sy'n darparu gwasanaeth cyn belled â'i fod yn wasanaeth da" a daeth y Comisiwn i'r casgliad bod angen newid strwythurol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n bodloni anghenion pobl a chymunedau nawr ac yn y dyfodol.

78. Rydym yn derbyn asesiad y Comisiwn a'i argymhelliad y dylid lleihau nifer yr Awdurdodau Lleol drwy raglen uno. Fel y nodwyd uchod, rydym am greu Awdurdodau sy'n addas i fynd i'r afael â heriau'r unfed ganrif ar hugain. Yn arbennig, rydym eisiau iddynt reoli gwasanaethau rhagorol sy'n perfformio i safon uchel, ac yn ddigon cadarn i ymdopi â chynnydd mewn galw. Rydym eisiau iddynt fod â chysylltiad gwell â'n cymunedau a'u cynrychioli'n well. Rydym hefyd eisiau iddynt allu cefnogi Aelodau Etholedig yn well.

79. Yn ogystal, mae angen bod modd iddynt addasu i heriau newydd drwy arloesi, gan fanteisio'n llawn ar y cyfleoedd a ddaw drwy dechnoleg a chyfathrebu digidol, a chael a chadw'r sgiliau a'r wybodaeth arbenigol angenrheidiol. Mae'r holl briodoleddau hyn yn hanfodol mewn byd cynyddol gymhleth a chyflym.

80. Fodd bynnag, ceir tystiolaeth gref bod rhai Awdurdodau yn rhy fach i fynd i'r afael â'r heriau hyn. Rydym yn cydnabod bod gwahanol safbwyntiau ynghylch sut dylid ailstrwythuro Llywodraeth Leol i'w gwneud yn fwy cadarn er mwyn wynebu heriau'r dyfodol, ond rydym yn credu bod cytundeb helaeth (er nad yw'n unfrydol) bod yn rhaid i rywbeth newid: nid yw'r sefyllfa sydd ohoni yn opsiwn, ac mae'n rhaid lleihau nifer yr Awdurdodau. Mae rhan nesaf y papur yn canolbwyntio ar sut rydym yn bwriadu cyflawni hyn.

## Ffurf Llywodraeth Leol yn y dyfodol

81. Mae lleihau nifer yr Awdurdodau drwy broses uno yn osgoi llawer o'r cymhlethdodau a'r heriau a fyddai'n gysylltiedig ag ail-lunio ffiniau, ond serch hynny mae'n dasg sylweddol. Nid ydym yn credu bod digon o amser i ddatblygu, cynllunio a deddfu ar gyfer rhaglen lawn o uno cyn etholiadau nesaf y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mai 2016.

82. Felly ni fydd Bil i uno Awdurdodau yn cael ei gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol yn ystod tymor y Cynulliad hwn, a ddaw i ben ym mis Ebrill 2016. Fodd bynnag, yn yr hydref 2015 rydym yn bwriadu cyhoeddi Bil drafft ar gyfer ymgynghoriad a fydd yn amlinellu'n bwriad i uno Awdurdodau. Ochr yn ochr â'r Bil drafft hwn bydd Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft manwl yn gosod y sail resymegol dros yr opsiynau rydym yn eu ffafrio ar gyfer uno, yn ogystal ag asesiadau effaith ar Gydraddoldeb, y Gymraeg, Anghenion Cefn Gwlad a Hawliau'r Plentyn fel sy'n briodol. Bydd hyn yn rhoi'r cyfle i'r cyhoedd, Awdurdodau ac eraill wneud sylw ar ein cynigion, wedi'u hysbysu gan asesiad llawn o'r costau a'r manteision tebygol. Bydd Llywodraeth Cymru o fis Mai 2016 ymlaen yna'n gallu gwneud penderfyniadau cynnar ynghylch sut mae am fwrw ymlaen, gyda'r fantais o gynnig deddfwriaethol datblygedig, a dealltwriaeth lawn o safbwyntiau rhanddeiliaid.

83. Fel y nodir uchod, rydym yn bwriadu cyhoeddi'r Bil drafft hwn ar gyfer ymgynghoriad yn Hydref 2015. Fodd bynnag, rydym eisiau bod yn eglur nawr ynghylch bwriad Llywodraeth Cymru fel ag y mae ar hyn o bryd ynghylch ffurf Llywodraeth Leol yng Nghymru yn y dyfodol.

84. Fel yr ydym wedi dweud, cynhaliodd y Comisiwn broses gynhwysfawr o ymchwil a chasglu tystiolaeth ynglŷn â strwythurau darparu gwasanaethau cyhoeddus. Roedd y gwaith yn cynnwys ystyried yr ystod eang o ymatebion a gafwyd i'r galwadau am dystiolaeth gan ddarparwyr a defnyddwyr gwasanaethau cyhoeddus. O ganlyniad i hyn, ac ar sail gwerthuso'r dystiolaeth, nododd bedwar opsiwn posibl ar gyfer uno Awdurdodau, a fyddai'n golygu bod 10 i 12 o ardaloedd Awdurdodau Lleol. Ei ddadl oedd mai lleihau nifer yr Awdurdodau i 12 ar y mwyaf oedd yr isafswm o uniadau yr oedd eu hangen i fynd i'r afael yn systematig â phroblemau maint. Rydym yn cytuno ag asesiad a barn y Comisiwn ynglŷn â'r terfyn uchaf ar gyfer nifer yr ardaloedd Awdurdodau Lleol. O blith y pedwar opsiwn a gyflwynwyd, rydym o'r farn mai opsiwn cyntaf y Comisiwn, a fyddai'n arwain at 12 Awdurdod Lleol, sy'n rhoi'r patrwm cyffredinol mwyaf cydlynus. Mae'n taro cydbwysedd rhwng meithrin gallu sefydliadol a sicrhau ymatebolrwydd democrataidd lleol, o ran cryfhau'r cysylltiad rhwng yr Awdurdodau a'u cymunedau a sicrhau eu bod yn eu cynrychioli'n well.

### Y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus: Opsiwn Uno 1

- Ynys Môn a Gwynedd
- Conwy a Sir Ddinbych
- Sir y Fflint a Wrecsam
- Ceredigion a Sir Benfro
- Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr
- Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful
- Caerdydd a Bro Morgannwg
- Blaenau Gwent, Caerffili a Thorfaen
- Sir Fynwy a Chasnewydd
- Sir Gaerfyrddin
- Powys
- Abertawe

85. Rydym yn nodi dadl bwerus y Comisiwn, wrth iddo amlinellu'r hyn oedd orau ganddo o safbwynt yr opsiynau, bod angen i ffiniau'r Awdurdodau Lleol a gaiff eu huno gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau mewn modd integredig, a hynny drwy sicrhau bod y ffiniau'n cyd-fynd â ffiniau byrddau iechyd a heddluoedd. Yn ein barn ni, mae'r ddadl hon yn un mor gryf fel y byddai angen cyflwyno achos eithriadol dros ymwrthod â'r egwyddor hon. At hynny, mae synnwyr yn nadl y Comisiwn y dylid seilio'r diwygiadau ar uno er mwyn osgoi'r ansefydlogrwydd a fyddai'n cael ei achosi wrth hollti'r Awdurdodau sy'n bodoli'n barod. Mae'r ddadl hon yn un gadarn ac rydym yn glir na ddylid hollti'r Awdurdodau sy'n bodoli'n barod, ond y dylid eu defnyddio'n hytrach fel 'blociau adeiladu' i greu'r Awdurdodau cryfach a mwy cydnerth yr ydym yn awyddus i'w gweld. Cododd y Comisiwn hefyd fater y ffin ag ardal 'gydgyfeirio' Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, lle mae cyllid yr UE a lwfansau cymorth gwladwriaethol yn berthnasol. Gallai'r mater olaf hwn fod yn ystyriaeth berthasol er na ddylai, yn ein barn ni, fod yn drech nag achos strategol, hirdymor o blaid uno, yn enwedig pe bai'r Awdurdodau Lleol dan sylw yn fodlon derbyn y materion a'r risgiau posibl.

86. Ers i'r Comisiwn gyflwyno'i adroddiad, mae rhai Awdurdodau Lleol wedi awgrymu y byddai'n well ganddynt drefniadau uno gwahanol, er nad ydym wedi gweld unrhyw gynigion penodol wedi'u hategu gan dystiolaeth ac wedi'u cefnogi gan yr holl Awdurdodau Lleol cyfredol yr effeithid arnynt yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol. Wrth inni fynd ati i lunio'r ddeddfwriaeth y bydd ei hangen yn sail i raglen uno, byddwn yn barod o hyd i ystyried dewisiadau eraill posibl, ond byddai'n hanfodol bod unrhyw gynnig gwahanol yn cyd-fynd â'r egwyddorion allweddol a nodwyd uchod. Yn achos unrhyw gynnig gwahanol – yn enwedig un sy'n cyflwyno dadl eithriadol yn erbyn yr egwyddor o fod yn gyson ag ardaloedd y byrddau iechyd a'r heddluoedd – a'r cynnig hwnnw'n cael ei gefnogi gan yr holl Awdurdodau Lleol yr effeithid arnynt yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, byddem yn disgwyl i'w hymrwymiad i'r cynnig olygu hefyd eu bod yn ymrwymo i uno'n wirfoddol ac yn gynnar.

87. Ar adeg briodol, bydd ymgynghoriad ffurfiol yn cael ei gynnal ar y cynigion yn y ddeddfwriaeth ddrafft fydd yn sefydlu'r Awdurdodau newydd yn dilyn y broses uno. Fodd bynnag, fel y mae'r Comisiwn a'r Awdurdodau Lleol eu hunain wedi dweud, gorau po gyntaf y ceir eglurder, a hynny er mwyn osgoi ansicrwydd hyd y bo modd, a sicrhau bod y newidiadau'n dwyn ffrwyth yn gynt. Ar sail yr achos strategol grymus o blaid gweithredu ar frys, rydym yn glir nad oes lle i oedi na bod yn blwyfol yn y broses hon. Byddwn felly'n bwrw ati rhag-blaen i ddatblygu'r rhaglen uno. Bydd hyn yn cynnwys caniatáu i Awdurdodau Lleol sy'n dymuno uno'n wirfoddol ar sail yr opsiwn a ffefrir, fel y'i disgrifiwyd yn y ddogfen hon – neu ar sail dewis arall sy'n mynd i'r afael â'r materion allweddol a nodir uchod – fynd ati i wneud hynny'n gyflymach. Bydd darpariaeth ar gyfer uno gwirfoddol cynnar yn cael ei chynnwys yn y ddeddfwriaeth y byddwn yn ei chyflwyno yn y Cynulliad yn gynnar y flwyddyn nesaf. Yr haf hwn, byddwn yn cyhoeddi 'prosbectws' yn amlinellu sut y byddwn yn helpu'r Awdurdodau hynny sy'n dymuno uno'n wirfoddol, a'r hyn yr ydym yn ei ddisgwyl oddi wrthynt. Ceir rhagor o fanylion am uno gwirfoddol 91-98 isod.

88. Rydym yn cydnabod manteision ffiniau cyson ar draws sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus i gefnogi gwaith partneriaeth effeithiol er budd dinasyddion Cymru. Fel y mae'r Comisiwn yn ei argymell, byddwn yn ystyried y ffin rhwng Awdurdodau Tân ac Achub De Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru, gan ystyried uno rhwng Awdurdodau Lleol.

## Beth yw'r amserlen ar gyfer uno?

89. Byddwn yn amlinellu rhaglen fanwl a threfniadau llywodraethu ar gyfer y rhaglen uno maes o law, ond mae'r cerrig milltir allweddol yn debygol o gynnwys:

- Ym mis Ionawr 2015, byddwn yn cyflwyno Bil cyntaf gerbron y Cynulliad a fydd yn cynnig y pwerau angenrheidiol i ganiatáu a hwyluso gwaith paratoadol pwysig ar gyfer rhaglen uno, ond ni fydd yn cynnig cynigion uno penodol. Mae manylion cynnwys arfaethedig y Bil cyntaf i'w gweld isod.

- Byddai'r pwerau newydd arfaethedig, ymysg pethau eraill, yn galluogi Gweinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ddechrau gwaith ar ystyried a gwneud argymhellion ar gyfer trefniadau etholiadol yr Awdurdodau arfaethedig newydd.

- Rhagwelir y byddai'r Bil cyntaf hwn yn cael Cydsyniad Brenhinol ym mis Tachwedd 2015, yn amodol ar ei basio yn y Cynulliad.
- Yn Hydref 2015, byddwn yn cyhoeddi ail Fil drafft ar gyfer ymgynghori. Maes o law, yr ail Fil hwn fydd yn sefydlu'r Awdurdodau newydd i'w creu drwy uno.
- Yn fuan ar ôl etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai 2016, byddwn yn cyflwyno'r ail Fil hwn i'r Cynulliad, ac wedi iddo gael ei ystyried gan y Cynulliad rydym yn rhagweld y bydd yn cael Cydsyniad Brenhinol yn ystod Haf 2017.
- Ym mis Mai 2017, bydd etholiadau Llywodraeth Leol (wedi'u gohirio o fis Mai 2016) i'r Awdurdodau Lleol presennol yn cael eu cynnal (gweler isod). Bydd cynghorwyr sy'n cael eu hethol i Awdurdodau a fydd yn cael eu huno yn gwasanaethu am dymor o dair blynedd. Bydd cynghorwyr Awdurdodau sy'n parhau (h.y. y rheini nad ydynt yn uno) yn gwasanaethu am gyfnod o bum mlynedd.
- Byddai etholiadau i Gynghorau Tref a Chymuned yn cael eu cynnal ar yr un diwrnod ym mis Mai 2017.
- Ym mis Mai 2019, byddai etholiadau cyntaf yr Awdurdodau newydd i'w huno o dan ddarpariaethau'r ail Fil hwn yn cael eu cynnal, gyda'r cynghorwyr yn cael eu hethol am dymor o dair blynedd. Byddai'r Cynghorau sy'n weddill yn bodoli fel Awdurdodau cysgodol[9] tan y Diwrnod Breinio ar 1 Ebrill 2020, pan fyddent yn cymryd yr holl swyddogaethau a'r hen Awdurdodau cyfansoddol yn cael eu diddymu.
- Ym mis Mai 2022, byddai etholiadau Llywodraeth Leol llawn yr holl Awdurdodau'n cael eu cynnal, gyda thymor arfaethedig o bum mlynedd.

90. Rydym yn credu bod hon yn amserlen uchelgeisiol ond yn ymarferol, ac mae'n cydbwyso'r angen i symud yn gyflym gyda'r angen i wneud pethau'n gywir. Ochr yn ochr â hyn, bydd y trefniadau llywodraethu y byddwn yn eu gosod ar gyfer uno yn goruchwylio'r rhaglen waith gynhwysfawr sy'n angenrheidiol i ymdrin â'r ystod eang o gwestiynau ymarferol, logistaidd ac ariannol y bydd angen eu hateb. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Leol a rhanddeiliaid eraill i gyflawni'r rhaglen waith hon, a byddwn yn ymgynghori'n agos â nhw ynghylch yr ystod o faterion y bydd angen penderfynu arnynt.

9 Byddai Awdurdodau cysgodol yn gyfrifol am faterion y mae'n rhaid penderfynu arnynt cyn bod Awdurdod newydd yn dod i fodolaeth yn ffurfiol, fel cytuno ar gyllideb a gosod treth gyngor am y flwyddyn gyntaf, penodi staff, datblygu cynlluniau darparu gwasanaethau, caffael a gwaredu asedau, a sefydlu pwyllgorau. Byddai is-ddeddfwriaeth yn pennu union gwmpas swyddogaethau Awdurdod cysgodol, gan ddefnyddio pwerau sy'n cael eu cynnwys yn y Bil i'w cyflwyno ar ddechrau'r Cynulliad nesaf.

## Uno gwirfoddol

91. Rydym wedi gosod y prif gerrig milltir arfaethedig ar gyfer y brif raglen uno. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn hefyd yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gefnogi a chymell yr Awdurdodau hynny sy'n dymuno cychwyn proses uno wirfoddol. Rydym yn cytuno ac yn ymrwymedig i hwyluso uno gwirfoddol ym mha bynnag ffordd bosibl.

92. Yn gyntaf ac yn bwysig iawn, byddwn yn gwneud darpariaeth ddeddfwriaethol benodol yn y Bil cyntaf a fydd yn caniatáu i Awdurdodau parod ac ymrwymedig i symud ymlaen yn gyflym. Mae'n cynigion ar gyfer hyn wedi'u hamlinellu isod, ac rydym yn credu y bydd hyn yn caniatáu i'r Awdurdodau newydd hyn gael eu sefydlu erbyn mis Ebrill 2018. Dyma fyddai un amserlen bosibl ar gyfer Awdurdodau sy'n dymuno uno'n wirfoddol

- Byddai'r Bil cyntaf a gyflwynir i'r Cynulliad ym mis Ionawr 2015 yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru uno Awdurdodau sy'n dymuno gwneud hynny'n wirfoddol.
- Mae'n rhaid i Awdurdodau sy'n dymuno'n wirfoddol fynegi diddordeb yn fanwl erbyn mis Tachwedd 2014 a gwneud achos llawn dros uno erbyn mis Mehefin 2015, i'w ystyried gan Weinidogion Cymru. Bydd yr Awdurdodau a Gweinidogion Cymru yn gweithio gyda'i gilydd wrth ystyried yr achosion i alluogi Awdurdodau i gyflwyno datganiadau cadarnhad o fwriad i symud ymlaen i uno'n wirfoddol erbyn mis Tachwedd 2015. Bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud yr is-ddeddfwriaeth angenrheidiol erbyn mis Chwefror 2016 i'r Cynulliad ei chymeradwyo.
- Ni fyddai'r Awdurdodau sy'n uno'n wirfoddol yn cynnal etholiadau ym mis Mai 2017. Yn hytrach, byddai'r is-ddeddfwriaeth sy'n darparu ar gyfer uno gwirfoddol yn ymestyn tymor cynghorwyr presennol tan fis Mai 2018.
- Ym mis Hydref 2017, byddai Awdurdod cysgodol a Chyngor cysgodol yn cael eu sefydlu ar gyfer yr Awdurdodau sy'n uno, yn cynnwys corff llawn y cynghorwyr sy'n gwasanaethu ar y cynghorau cyfansoddol. Byddai Gorchymyn yn rhagnodi eu swyddogaethau ar gyfer creu'r Awdurdod newydd.
- Diwrnod breinio'r Awdurdodau newydd sy'n uno'n wirfoddol fyddai 1 Ebrill 2018. Yna byddai etholiadau cyntaf yr Awdurdodau newydd yn cael eu cynnal ym mis Mai 2018, gyda'r cynghorwyr newydd yn cymryd cyfrifoldeb bedwar diwrnod ar ôl yr etholiadau. Byddant yn gwasanaethu am bedair blynedd, nes i gylch cyfan o etholiadau Llywodraeth Leol gael eu cynnal ym mis Mai 2022.
- Bydd etholiadau a chyfnodau Cynghorau Tref a Chymuned mewn Awdurdodau sy'n uno'n wirfoddol yn newid i gyd-fynd â'r trefniadau ar gyfer sefydlu'r Awdurdod unedig newydd.

93. Byddem felly'n rhoi sicrwydd deddfwriaethol cynnar i'r Awdurdodau hyn, a bydd uno yn gyflym ac yn wirfoddol yn golygu y bydd angen llai o'r darpariaethau trosglwyddo rydym yn credu fydd yn hanfodol ar gyfer uno yn ehangach. Byddai'n golygu un set yn llai o etholiadau cyn y strwythurau newydd, sefydlogrwydd blwyddyn ychwanegol i gynghorau presennol gynllunio ar gyfer trosglwyddo, a llai o gyfnod cysgodi, ar sail cynghorau presennol. Dylai'r

rheini sy'n uno'n gynnar gael eu breinio'n llawn ddwy flynedd cyn yr Awdurdodau eraill, a fydd yn eu galluogi i fod yn fwy effeithlon yn gynt a dechrau gwneud arbedion i'w hail-fuddsoddi mewn gwasanaethau gwell.

94. Fodd bynnag, rydym yn cynnig mwy na dim ond cyflwyno deddfwriaeth. Byddwn yn parhau i ddisgwyl i bob Awdurdod geisio gwella drwy ailgynllunio gwasanaethau a threfniadau gweinyddol; ond byddwn yn ystyried rhoi mwy o gymorth i'r Awdurdodau sy'n bwriadu uno'n wirfoddol ac Awdurdodau sy'n parhau i fod yn gynlluniau peilot a braenaru ar gyfer y math o drawsnewid mewn gwasanaethau a chyfansoddiad rydym yn dymuno'i weld. Gallai hyn gynnwys profi ffyrdd o ymdrin â heriau'r gweithlu fel cysoni telerau ac amodau, trefniadau tâl cyfartal, a threfniadau pensiwn. Byddwn hefyd yn ystyried rhoi cymorth ymarferol i Awdurdodau sy'n uno'n gynnar ac yn fodlon bod yn Awdurdodau 'model', gan ddatblygu dulliau arloesol ar gyfer craffu ac ymgysylltu â'r cyhoedd er mwyn gwella cyfranogiad democrataidd a sicrhau cynrychiolaeth fwy amrywiol.

95. Gyda'i gilydd, byddai'r cymhelliannau hyn yn gyfle i Awdurdodau baratoi eu hunain at y dyfodol, dangos y gallu i arloesi, a gwneud penderfyniadau allweddol sy'n eu rhoi ar y blaen i Awdurdodau eraill.

96. Mae'r Comisiwn yn rhoi dadl gref dros wneud pethau'n llai cymhleth i Lywodraeth Leol, a thros drefniadau cyllid sy'n symlach ac yn canolbwyntio ar sicrhau canlyniadau. Mae'r Comisiwn hefyd yn galw i'n hadolygiad presennol o archwilio, arolygu a rheoleiddio nodi ffyrdd o wneud pethau'n llai cymhleth a chynnig mwy o ffocws, ac rydym yn gwybod bod gan lawer o Awdurdodau Lleol ddiddordeb mawr yn hyn.

97. Rydym yn cytuno â chanfyddiadau'r Comisiwn ac yn credu bod modd mynd ymhellach. Yn yr un modd ag yr ydym yn ceisio mwy o bwerau drwy ddatganoli cyfrifoldebau o Lywodraeth y DU, ein huchelgais yw trosglwyddo pwerau a chyfrifoldebau i Awdurdodau Lleol lle bynnag y bo'n briodol. Fodd bynnag, mae angen bod Awdurdodau'n ddigon mawr i allu cymryd y cyfrifoldebau ychwanegol hyn mewn modd effeithiol a chynaliadwy. Felly mae potensial i Awdurdodau sy'n uno'n gynnar weithio gyda ni i sicrhau'n gynt yr annibyniaeth gynyddol y mae'r Comisiwn yn ei rhagweld.

98. Byddwn yn gweithio gydag Awdurdodau sydd am uno'n wirfoddol i benderfynu'n fanylach pa gefnogaeth a chymorth y gallwn eu cynnig er mwyn eu helpu i symud tuag at uno'n gynnar. Yn y cyfamser, rydym yn bwriadu cyhoeddi 'prosbectws' yn yr haf ar gyfer uno gwirfoddol, a fydd yn amlinellu'r hyn rydym yn ei ddisgwyl gan Awdurdodau sy'n dymuno uno'n wirfoddol.

**Cwestiwn: A oes gennych awgrymiadau penodol ar gyfer pwerau a chyfrifoldebau y gellid ystyried eu datganoli i'r Awdurdodau newydd?**

## Hwyluso a chymell uno gwirfoddol

99. Mae'r Comisiwn yn argymell y dylid cymell ymgeiswyr cynnar ar gyfer uno gwirfoddol; rydym yn cytuno, ac wedi amlinellu uchod rai o'r dulliau anneddfwriaethol rydym yn bwriadu'u defnyddio i wneud hyn. Rydym o'r farn bod gan Weinidogion Cymru y pwerau eisoes a fyddai'n caniatáu iddynt gymell a chefnogi uno gwirfoddol, ond byddwn yn cynnig mabwysiadu pwerau newydd drwy'r Bil cyntaf.

100. Er mwyn rhoi grym cyfreithiol i uno gwirfoddol, bydd y Bil cyntaf yn cynnwys pwerau i alluogi Gweinidogion Cymru i uno dau Awdurdod Lleol neu fwy yn un Awdurdod newydd, o ddyddiad i'w ragnodi. Bydd y Bil yn gosod y weithdrefn a'r amserlen ar gyfer cychwyn ac ystyried cynigion ar gyfer uno gwirfoddol. Bydd y Bil hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch arfer y pwerau ar gyfer uno gwirfoddol er mwyn egluro unrhyw bryd y caiff y pŵer ei arfer:

- Y dyddiad y bydd Awdurdod yn dod i fodolaeth, ei enw a'i statws;
- Y trefniadau etholiadol ar gyfer Awdurdod newydd, dyddiad yr etholiadau cyntaf a hyd tymor y cynghorwyr sy'n cael eu hethol yn yr etholiadau cyntaf ac wedi hynny;
- Sut caiff awdurdod cysgodol a gweithrediaeth gysgodol eu sefydlu, eu cyfansoddiad a'u swyddogaethau;
- Sut caiff Awdurdodau presennol eu diddymu a sut bydd cynghorwyr yn ymddiswyddo o'r Awdurdodau hyn;
- Canslo etholiadau Awdurdodau presennol;
- Gohirio etholiadau cynghorau cymuned mewn ardaloedd lle bwriedir uno ac ymestyn tymor cynghorwyr cymuned presennol;
- Y ddyletswydd ar Awdurdodau presennol i gydweithredu i baratoi ar gyfer Awdurdod newydd a gweithio gyda'i Awdurdod neu'i Weithrediaeth Gysgodol;
- Gosod trefniadau ar gyfer trosglwyddo eiddo yn amserol, parhad hawliau a rhwymedigaethau;
- Materion staff;
- Materion ariannol.

**Cwestiwn: A oes angen cynnwys unrhyw beth arall mewn pŵer ar gyfer uno gwirfoddol?**

**Cwestiwn: A yw'ch Awdurdod yn ystyried cyflwyno cynnig ar gyfer uno gwirfoddol?**

## Wardiau etholiadol Awdurdodau Lleol

101. Bydd gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru rôl hollbwysig i'w chwarae o ran ystyried a gwneud argymhellion ar gyfer trefniadau etholiadol Awdurdodau Lleol sy'n cael eu huno.

102. Mae angen digon o amser ar Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru i adolygu Awdurdod Lleol unigol, ymchwilio i amgylchiadau ardal, ystyried safbwyntiau cymunedau lleol, llunio a rhoi cyhoeddusrwydd i gynigion ac ymgynghori'n llawn cyn cyflwyno argymhellion. Mae'r broses yn cymryd o leiaf 18 mis ar gyfartaledd. Nid yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn caniatáu i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ddechrau adolygu Awdurdod newydd nes i'r Awdurdod newydd gael ei sefydlu'n ffurfiol. Byddai hyn yn golygu oedi hir nes bod modd i'r Awdurdod newydd gynnal yr etholiadau cyntaf. Rydym yn bwriadu rhoi pwerau yn y Bil cyntaf i ganiatáu i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ddechrau gweithio cyn gynted ag y gallwn gadarnhau'n bwriad i sefydlu Awdurdod newydd.

103. Bydd y Bil cyntaf felly'n gwneud darpariaethau i ganiatáu i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ddechrau ystyried a gwneud argymhellion ynghylch Awdurdodau newydd arfaethedig. Rydym yn bwriadu i'r Bil cyntaf roi pwerau i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ystyried a gwneud argymhellion

- ar gyfer trefniadau etholiadol yr Awdurdodau newydd arfaethedig sy'n destun cynigion ar gyfer uno gwirfoddol;
- ar gyfer trefniadau etholiadol yr Awdurdodau newydd arfaethedig fel y'u disgrifir yn y cyfarwyddyd, er mwyn paratoi ar gyfer yr ail Fil a fyddai'n cael ei gyflwyno yn nhymor nesaf y Cynulliad.

104. Bydd y Bil cyntaf hefyd yn diwygio Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, fel bod cylch adolygu statudol Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn rhoi ystyriaeth i greu Awdurdodau newydd.

**Cwestiwn: A oes angen i ni wneud unrhyw beth arall i sicrhau y gall Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru roi ystyriaeth effeithiol a gwneud argymhellion ar gyfer trefniadau etholiadol yn yr Awdurdodau arfaethedig?**

## Taliadau Cydnabyddiaeth i Aelodau Etholedig

105. Bydd angen i'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol ystyried a gwneud penderfyniadau ar lefelau taliadau i aelodau Awdurdodau newydd arfaethedig cyn i'r Awdurdodau hyn ddod i fodolaeth. Fodd bynnag, ar hyn o bryd gall wneud penderfyniadau ynghylch taliadau i aelodau Awdurdodau sefydledig yn unig. Felly, bydd y Bil cyntaf hefyd yn cynnwys darpariaeth i ganiatáu i'r Panel ar Gydnabyddiaeth Ariannol ddechrau gweithio'n gynnar i wneud penderfyniadau ynghylch taliadau i aelodau Awdurdodau Lleol newydd ac Awdurdodau cysgodol. Yn benodol, bydd y pwerau newydd yn caniatáu i'r Panel:

- Ystyried a gwneud penderfyniadau ar gyfer gwneud taliadau i aelodau Awdurdodau Lleol newydd arfaethedig i'w sefydlu drwy uno, p'un ai'n wirfoddol neu drwy rinwedd yr ail Fil;
- Ystyried a gwneud penderfyniadau ar gyfer gwneud taliadau i aelodau Awdurdodau cysgodol ar gyfer Awdurdodau Lleol newydd arfaethedig;
- Gosod y cyfran uchaf o daliadau i'w gwneud i aelodau Awdurdodau cysgodol sydd hefyd yn aelodau o Awdurdodau Lleol presennol, er mwyn sicrhau nad yw'r aelodau hyn yn cael eu talu ddwywaith am wneud yr un swydd yn y bôn.

**Cwestiwn: A oes unrhyw beth arall y mae angen i ni ei wneud i sicrhau bod y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn gallu rhoi ystyriaeth effeithiol a gwneud argymhellion ar gyfer taliadau i gynghorwyr yn yr Awdurdodau y bwriedir eu huno ac unrhyw Awdurdodau cysgodol a ddaw cyn hynny?**

## Gwaredu eiddo ac asedau

106. Yn ystod yr ad-drefnu a ddaeth yn sgil Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, sefydlwyd Corff Gweddilliol i waredu a dosbarthu asedau Awdurdodau Lleol. Roedd hyn yn angenrheidiol gan fod ad-drefnu 1994 wedi lleihau Llywodraeth Leol i un haen ac wedi ail-lunio ffiniau. Roedd gofyn am Gorff Gweddilliol i ymdrin â materion lle nad oedd Awdurdod olynol amlwg, er enghraifft dosbarthu neu waredu eiddo a oedd yn gwasanaethu mwy nag un ardal, neu oedd yn ymwneud â swyddogaethau cyrff gwahanol; neu dir neu adeiladau oedd yn gorwedd ar draws ffiniau dau Awdurdod neu fwy. Gan mai cynigion i uno Awdurdodau yw'r rhai presennol, heb ail-lunio ffiniau, nid ydym yn rhagweld y bydd angen gwaredu a dosbarthu eiddo ac asedau. Fodd bynnag, efallai y bydd angen darpariaeth i alluogi neu ofyn i awdurdodau sy'n uno sicrhau arbedion mewn perthynas ag asedau. Byddwn felly'n ystyried cynnwys pŵer yn y Bil cyntaf yn caniatáu i Weinidogion Cymru helpu Awdurdodau newydd gyda'r materion hyn.

**Cwestiwn: Ydych chi'n cytuno y bydd y pŵer arfaethedig i Weinidogion Cymru yn ddigonol ar gyfer gwaredu eiddo ac asedau? Os nad ydych yn cytuno y bydd y pŵer arfaethedig yn ddigonol, pa broblemau penodol ydych chi'n eu rhag-weld?**

**Cwestiwn: Pa fath o gymorth neu gyfarwyddyd y gallai fod eu hangen ar Awdurdodau Lleol?**

## Cydweithredu, cydweithio a pharatoi cyn uno

107. Er mwyn helpu i hwyluso cynllunio ar y cyd gan Awdurdodau sy'n uno, a fydd yn hanfodol wrth iddynt baratoi i uno, rydym yn bwriadu cynnwys pŵer yn y Bil cyntaf i ganiatáu i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol sefydlu cyd-bwyllgorau pontio i sicrhau eu bod yn cydweithio at y diben penodol o gynllunio ar y cyd a pharatoi i uno.

108. Byddai'r pŵer yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi rhai tasgau paratoadol i'r cydbwyllgorau pontio, er enghraifft pwyso a mesur y trefniadau presennol ar gyfer darparu gwasanaethau, strwythurau'r gweithlu, eiddo ac asedau eraill ar draws yr Awdurdodau sy'n uno. Byddai'r pŵer hefyd yn caniatáu i'r pwyllgorau pontio ystyried unrhyw fater arall sy'n angenrheidiol yn eu barn i baratoi'n effeithiol ar gyfer yr Awdurdod newydd.

**Cwestiwn: A oes unrhyw beth arall y dylid ei ragnodi i gydbwyllgorau pontio eu gwneud i baratoi ar gyfer uno eu Hawdurdodau?**

109. Rydym hefyd yn bwriadu cynnwys darpariaeth yn y Bil cyntaf i atal gweithgareddau gan Awdurdodau presennol, Awdurdodau cysgodol neu Awdurdodau newydd a allai achosi niwed i sefyllfa ariannol neu enw da unrhyw Awdurdod newydd. Mae hyn yn debygol o gynnwys:

- Cyfyngiadau ar Awdurdodau presennol i atal gwaredu tir neu adeiladau mewn ffordd niweidiol neu amhriodol;
- Cyfyngiadau ar Awdurdodau presennol i'w hatal rhag llofnodi contractau hirdymor niweidiol neu amhriodol;
- Cyfyngiadau ar ddefnyddio cronfeydd wrth gefn;
- Ymestyn gofynion Deddf Lleoliaeth 2011 i Awdurdodau cysgodol ar gyfer paratoi a chyhoeddi datganiadau polisi tâl;
- Ymestyn y pwerau presennol yn Neddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 i Awdurdodau cysgodol i'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol wneud argymhellion ynghylch cyflogau Prif Weithredwyr;
- Ymestyn y pwerau presennol yn adran 141(2) Deddf Llywodraeth Leol 1972 i ganiatáu i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Cysgodol ddarparu gwybodaeth sydd yn ei feddiant (er mwyn helpu unrhyw ddiben sy'n gysylltiedig ag uno).

**Cwestiwn: Pa bwerau eraill y gallai fod eu hangen ar Weinidogion Cymru i atal ymddygiad niweidiol?**

## Materion staffio

110. Nid ydym yn credu y bydd lleihau nifer yr Awdurdodau Lleol drwy uno yn creu cynifer o faterion staffio a gweithlu â'r hyn ddigwyddodd adeg ad-drefnu Llywodraeth Leol. Rydym hefyd yn gwybod bod rhai Awdurdodau eisoes yn wynebu penderfyniadau anodd am eu gweithlu waeth beth yw'r newidiadau strwythurol i Lywodraeth Leol. Bydd angen gwneud newidiadau i'r ffordd y caiff gwasanaethau rheng flaen eu darparu yn sgil llai o adnoddau, mwy o alw a mwy o ddisgwyliadau. Serch hynny, rydym yn cydnabod y bydd y newidiadau hyn yn gythryblus i'r gweithlu Llywodraeth Leol, a bydd angen cymryd camau ynghylch materion staffio a'u datrys.

111. Rydym felly'n bwriadu sefydlu Comisiwn Staff i gynghori Gweinidogion Cymru ar faterion staff mewn perthynas â'r bwriad i uno Awdurdodau Lleol. Rydym yn rhagweld, fel isafswm, y bydd angen i'r Comisiwn Staff roi cyngor a chyfarwyddyd awdurdodol ar faterion y gweithlu. I ddechrau, byddwn yn sefydlu Comisiwn Staff anstatudol. Fodd bynnag, fel rhan o'r ail Fil rydym yn bwriadu gwneud y Comisiwn yn statudol. Rydym yn rhagweld y byddai'r ail Fil:

- Yn pennu statws a chyfansoddiad y Comisiwn Staff;
- Yn diffinio'i gylch gwaith, yn bennaf ynghylch cynghori Gweinidogion Cymru, Awdurdodau presennol, Awdurdodau cysgodol ac Awdurdodau newydd ar faterion penodol sy'n berthnasol i uno Awdurdodau Lleol;
- Yn rhoi'r pwerau y mae eu hangen ar y Comisiwn Staff er mwyn cyflawni ei swyddogaethau statudol, fel pŵer i'w gwneud yn ofynnol i Awdurdod Lleol presennol ddarparu gwybodaeth iddo;
- Yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i ganiatáu iddynt roi cyfarwyddyd i'r Comisiwn Staff, a chyfarwyddo Awdurdod i weithredu ar gyngor y Comisiwn Staff.

112. Byddwn yn ystyried ymhellach sut gellir alinio gwaith y Comisiwn Staff gyda phwerau presennol Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau ar ddatganiadau polisi tâl o dan adran 40 Deddf Lleoliaeth 2011, a chyfrifoldebau'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol ynghylch cyflogau Prif Weithredwyr yn adran 143A Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

**Cwestiwn: Beth ydych chi'n credu ddylai fod yn rôl a chyfrifoldebau i'r Comisiwn Staff?**

**Cwestiwn: A oes unrhyw beth arall y mae angen ei wneud i baratoi ar gyfer uno Awdurdodau Lleol?**

## Ystyriaethau ariannol – costau a manteision uno Awdurdodau Lleol

113. Mae cryn sylwadau wedi cael eu gwneud ynghylch y gost bosibl o uno Awdurdodau Lleol ers i'r Comisiwn gyhoeddi ei adroddiad. Rydym yn deall hyn, ac mae'r Comisiwn a CLlLC wedi llunio amcangyfrifon gwahanol iawn o'r costau posibl, ac rydym yn dychwelyd at y rhain isod. Fodd bynnag, mae'n hanfodol rhoi cyd-destun i unrhyw oblygiadau o ran cost.

114. Yn gyntaf, mae'r Comisiwn yn nodi'r pwysau ariannol difrifol ac anghynaliadwy ar ein gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r pwysau hyn yn debygol o barhau am y degawd nesaf o leiaf, wrth i'r galw am rai gwasanaethau gynyddu. Yn wyneb yr heriau hyn, nid yw gwneud dim yn opsiwn. Bydd costau yn codi waeth beth fydd yn digwydd wrth i wasanaethau ddechrau gwegian o dan y pwysau. Ni allwn ychwaith fforddio aros nes y bydd hinsawdd ariannol mwy ffafriol cyn i ni weithredu.

115. Yn ail, mae'r pwysau ariannol difrifol hefyd yn golygu nad yw'n realistig disgwyl i Lywodraeth Cymru gynnig llawer o arian i dalu am uno fel y mae Llywodraeth ganolog wedi gwneud yn aml yn y gorffennol adeg ailstrwythuro Llywodraeth Leol. Un o'r egwyddorion sy'n llywio'r gwaith uno hwn yw eu rheoli yn y fath fodd i wneud y mwyaf o'r manteision a chadw'r costau mor isel â phosibl.

116. Yn drydydd, rydym wastad wedi datgan yn glir bod hyn yn fwy na mater ariannol. Mae'n fater o wella perfformiad, llywodraethu gwell a democratiaeth gryfach, yn ogystal â defnyddio adnoddau cyfyngedig yn well. Mae effeithlonrwydd a gwerth am arian yn bwysig iawn, ond nid dyma'r unig linyn mesur ar gyfer mesur llwyddiant.

117. Amcangyfrif CLlLC, ar sail gwaith a gomisiynodd gan Deloitte, oedd y byddai uno yn costio rhwng £200 miliwn a £400 miliwn, gydag arbedion blynyddol rheolaidd o £92 miliwn i £100 miliwn. Archwiliodd y Comisiwn ffigurau CLlLC a daeth i'r casgliad eu bod, am wahanol resymau, yn rhoi amcangyfrif rhy uchel o'r costau a'r arbedion posibl. Awgrymodd y Comisiwn y gallai'r costau cychwynnol fod yn £80 miliwn i £100 miliwn, gydag arbedion rheolaidd o £60-£80 miliwn y flwyddyn.

118. Nid yw'r gwahaniaeth sylweddol yn y ffigurau hyn yn syndod: mae amcangyfrifon y costau yn dibynnu ar y rhagdybiaethau wrth eu llunio. Ond gan nad oes cynsail i'r rhaglen uno rydym yn ei chynnig, nid oes modd nodi'n bendant a yw'r naill safbwynt na'r llall yn briodol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod angen asesu 'r costau a'r manteision posibl cyn belled ag sy'n ymarferol o fewn rheswm, a byddwn yn llunio Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft a fydd yn dod gyda'r Bil drafft rydym yn bwriadu ei gyhoeddi yn yr Hydref 2015.

119. Yn y cyfamser, mae angen gwneud rhai pwyntiau pwysig. Mae'n rhaid rhoi unrhyw gostau uno posibl yng nghyd-destun yr £8 biliwn y mae Llywodraeth Leol yng Nghymru yn ei wario bob blwyddyn. Mae amcangyfrif cost uchaf CLlLC yn cyfateb ag oddeutu 5% o'r gwariant blynyddol hwn. Hefyd, bydd rôl allweddol i Awdurdodau Lleol o ran sicrhau bod y costau cychwynnol hyn yn cael eu cadw mor fach â phosibl. Efallai na fydd modd osgoi rhai o'r costau hyn, ond mae modd osgoi neu ostwng rhai o'r costau eraill, yn enwedig os bydd Awdurdodau yn dechrau rhoi ystyriaeth nawr i'r tebygolrwydd o uno wrth wneud penderfyniadau cyllidebol, ac os na fyddant yn gwneud penderfyniadau a fydd yn arwain at gostau diangen yn y dyfodol. Mae hyn yn golygu meddwl yn ofalus iawn, er enghraifft cyn cytuno ar drefniadau newydd, a chyn gwneud penderfyniadau gwariant mawr ynghylch adeiladau ac asedau eraill.

120. Ein nod cyffredinol yw helpu i greu Awdurdodau sy'n addas at yr unfed ganrif ar hugain, a chreu model newydd ar gyfer Llywodraeth Leol a fydd yn para am genhedlaeth o leiaf. Yn y cyd-destun hwn, hyd yn oed pe bai uno yn costio £400 miliwn (amcangyfrif uchaf CLlLC) a phe

bai'r arbedion rheolaidd yn £92 miliwn (amcangyfrif isaf CLlLC), mae hyn yn awgrymu cyfnod ad-dalu uniongyrchol o lai na phum mlynedd ar gyfer creu Awdurdodau a fydd gobeithio yn para am 25 mlynedd o leiaf ac yn cynnig gwasanaethau mwy effeithiol. Rydym yn credu bod hyn yn ganlyniad mwy na derbyniol i'r buddsoddiad.

## Cyllid Llywodraeth Leol – sut caiff gwasanaethau lleol eu hariannu yn y dyfodol

121. Mae Llywodraeth Leol yng Nghymru yn gwario dros £8 biliwn y flwyddyn (refeniw a chyfalaf) ar ddarparu gwasanaethau. Daw'r gwariant hwn o nifer o ffynonellau. Mae'r rhain yn cynnwys grantiau cyffredinol a phenodol Llywodraeth Cymru, grantiau eraill, incwm y dreth gyngor ac ardrethi annomestig, ffioedd a chostau, derbyniadau a benthyciadau. Y ffynhonnell unigol fwyaf yw Grant Cymorth Refeniw Llywodraeth Cymru, sy'n cyfrannu tua £3.3 biliwn ar hyn o bryd.

122. Mae amryw rannau system gyllid Llywodraeth Cymru yn gweithredu fel cyfanwaith ac yn dibynnu ar ei gilydd. Hefyd ceir cysylltiad agos â'r ffordd yr ariennir plismona yng Nghymru. I'r perwyl hwn, nid yw'n ymarferol ailgynllunio rhannau o'r system ar eu pen eu hunain. Bydd angen i ni adolygu'r system i sicrhau bod y trefniadau cyllid yn gwasanaethu strwythurau yr Awdurdodau newydd sy'n cael eu huno. Yn arbennig, byddwn yn ymchwilio i'r posibilrwydd o ddatblygu cysylltiadau cryfach rhwng cyllid, perfformiad a chyflawni'r canlyniadau strategol a nodwyd drwy Fil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Bydd hyn yn golygu ystyried yr hyn y mae Llywodraeth Leol yn ei wneud a sut mae angen addasu hyn i adlewyrchu'r hinsawdd ariannol newydd. Byddwn hefyd yn ceisio symleiddio'r trefniadau cyllid presennol lle bo hynny'n ymarferol a sicrhau bod trefniadau cyllido a chyllidebu Llywodraeth Leol yn fwy cynhwysol a thryloyw.

123. Hefyd bydd nifer o ddatblygiadau perthnasol eraill yn digwydd ochr yn ochr, fel yr agenda Diwygio Ariannol a datganoli trethi penodol yn sgil adroddiad cyntaf Comisiwn Silk ar Ddatganoli yng Nghymru a'i ail adroddiad ar bwerau deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol. Bydd busnes arall y Llywodraeth hefyd yn parhau yn ystod y cyfnod hwn ac mae'n debygol y bydd ein rhaglen ddeddfwriaethol yn parhau i gyflwyno pwerau a dyletswyddau newydd i Lywodraeth Leol. Mae maint a natur y datblygiadau hyn yn cynnig cyfleoedd da iawn, ond maent hefyd yn golygu bod risgiau sylweddol os nad yw'r goblygiadau ariannol yn cael eu hystyried a'u trin yn llawn. Fel y cyfryw, nid ydym yn rhagweld y byddwn yn gwneud newidiadau mawr i system gyllid Llywodraeth Leol cyn y ddeddfwriaeth. Rydym yn cydnabod bod rhai agweddau ar y system bresennol a fydd yn gofyn am sylw arbennig.

## Cyllid Llywodraeth Leol – Treth Gyngor

124. Yn ogystal â'r costau cyffredinol, arweiniodd y syniad o uno Awdurdodau Lleol at gryn dipyn o sylwadau ynghylch yr effaith debygol ar lefelau'r dreth gyngor. Eto, rydym yn deall hyn: er bod y dreth gyngor yn gyfran fach o'r enillion treth cyffredinol, dyma yw un o'r ychydig drethi y mae'n rhaid i bobl eu talu'n uniongyrchol, yn hytrach na bod trethi'n cael eu cymryd yn uniongyrchol o'u cyflogau, neu sy'n rhan o gost nwyddau neu wasanaethau. Hefyd dyma'r

dreth a all amrywio'n sylweddol, gan ddibynnu ar ble mae rhywun yn byw ac ym mha fath o eiddo. Cydnabu'r Comisiwn fod y dreth gyngor yn ffactor pwysig, ac o ddiddordeb arbennig i'r cyhoedd, wrth ddatblygu ei gynigion ar gyfer uno.

125. Nid ydym yn credu y byddai'n ddefnyddiol damcaniaethu ynghylch yr union effaith ar y dreth gyngor ar hyn o bryd. Mae'r trefniadau cyllid presennol yn ystyried ystod eang o ddangosyddion sy'n amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Mae unrhyw amcangyfrifon sy'n cael eu llunio ar hyn o bryd yn debygol o fod yn gamarweiniol, o ystyried nad ydym yn credu y bydd uno'n digwydd tan fis Ebrill 2018 o leiaf.

126. Serch hynny, mae'n bwysig iawn cydnabod, er y bydd peth effaith leol ar lefelau'r dreth gyngor, na ddylai fod angen i'r gofyniad treth gyngor cyffredinol gynyddu o ganlyniad i uno. Yn wir, dylai uno ddigwydd i wneud arbedion effeithlonrwydd lle bo'n bosibl. Gan ei bod yn afrealistig disgwyl yr un math o symiau mawr o arian newydd a ddarparwyd adeg ailstrwythuro blaenorol, i gyfyngu ar yr effaith ar lefelau treth gyngor Awdurdodau unigol, byddwn yn lle hynny yn chwilio am atebion i osgoi creu a/neu leihau effeithiau lleol sylweddol gymaint â phosibl.

**Cwestiwn: Beth fyddai'r ffordd decaf o godi refeniw ar gyfer gwasanaethau lleol?**

## Cyllid Llywodraeth Leol – Cymorth Llywodraeth Cymru

127. Wrth ystyried effeithiau posibl uno, rydym yn deall y bydd cryn sylw ar y dreth gyngor, fel rydym wedi'i nodi uchod. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyfran llawer mwy o'r refeniw sydd ar gael i Awdurdodau Lleol, a hynny drwy'r Grant Cymorth Refeniw. Caiff hyn ei ddosbarthu gan ddefnyddio'r fformiwla dosbarthu ar sail anghenion, a ddatblygir drwy ymgynghori â Llywodraeth Leol.

128. Bydd rhaglen uno yn gofyn am ddatblygu sylfaen newydd ar gyfer dosbarthu'r cyllid hwn er mwyn ystyried nodweddion cymdeithasol ac economaidd holl Awdurdodau Cymru. Efallai y bydd modd parhau â'r dosbarthiad presennol ar gyfer yr Awdurdodau sy'n cael eu huno am gyfnod cyfyngedig, ond nid yw hyn yn debygol o fod yn gynaliadwy yn y tymor hwy. Byddwn felly'n gweithio gyda Llywodraeth Leol ac eraill i ddatblygu'r drefn ar sail anghenion ar gyfer dosbarthu cyllid Llywodraeth Cymru.

129. Rydym hefyd yn cydnabod yr hyn a ddywedodd y Comisiwn ynghylch i ba raddau y caiff cyllid ei glustnodi (ei "neilltuo") at ddibenion penodol. Fodd bynnag, mae'r heriau perfformiad a amlinellir gan y Comisiwn ac sy'n cael eu hadlewyrchu mewn rhannau eraill o'r ddogfen hon yn golygu na all hyn fod yn fater o ddadneilltuo'r holl ffynonellau cyllid presennol ar unwaith. Fel y nodwyd yn gynharach, byddwn yn manteisio ar y cyfle i adolygu'r ffordd rydym yn rhoi cyllid i wneud hyn yn symlach ac yn fwy hygyrch, gan ganolbwyntio ar ganlyniadau, gyda chyfrifoldebau a rhwymedigaeth clir ar gyfer cyflawni'r canlyniadau hyn.

## Casgliad

130. Yn y papur hwn, rydym wedi ceisio amlinellu ein huchelgeisiau ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru yn yr unfed ganrif ar hugain. Rydym am gael Awdurdodau Lleol sy'n perfformio'n rhagorol ac yn cael eu rhedeg yn dda, sy'n gweithredu mewn ffordd dryloyw ac agored, yn cynllunio'n effeithiol ac yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael iddynt, adnoddau a fydd yn parhau i fod o dan bwysau sylweddol yn y blynyddoedd i ddod. Hefyd rydym am weld perthynas go iawn rhwng y rheini sy'n darparu gwasanaethau a'r rheini sy'n dibynnu arnynt, drwy ddemocratiaeth leol gryfach a chraffu mwy effeithiol. Rydym yn gwybod na fydd hyn yn hawdd: mae'n holl wasanaethau cyhoeddus yn wynebu heriau cymhleth a digynsail, fel y mae'r Comisiwn wedi'i nodi. Mae uno Awdurdodau Lleol yn rhan hanfodol o wireddu'r weledigaeth hon, ond ni fydd uno yn cyflawni unrhyw beth o'i wneud ar ei ben ei hun. Rydym yn nodi'n glir bod y diwygiadau hyn yn rhan o becyn.

131. Ni all Llywodraeth Cymru ar ei phen ei hun gyflawni'r newid rydym ei angen – mae angen i Awdurdodau Lleol, gwasanaethau cyhoeddus eraill a chymunedau eu hunain weithio gyda'i gilydd. Hefyd mae arnom angen safbwyntiau ynghylch a yw ai ein gweledigaeth ni yn gywir, ac awgrymiadau ynghylch sut gellid datblygu hyn ymhellach.

**Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad**

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n gymwys):

e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

## Dyfodol Llywodraeth Leol – beth ddylem ei ddisgwyl gan Awdurdodau Lleol?

Cwestiwn 1: Sut gall Awdurdodau Lleol ymgysylltu'n fwy effeithiol â'u cymunedau ynghylch heriau cynnal gwasanaethau fel y maent yn cael eu darparu ar hyn o bryd a'r angen am newid?

Cwestiwn 2: Beth arall y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud i helpu Awdurdodau gyda'r ddeialog hon i wella eu perfformiad o ran darparu gwasanaethau â blaenoriaeth?

Cwestiwn 3: Pa awgrymiadau penodol sydd gennych ar gyfer lleihau a symleiddio gweinyddu a fyddai'n rhyddhau amser ac adnoddau i ddarparu a gwella gwasanaethau?

## Diwygio Llywodraeth Leol – Cryfhau democratiaeth, cynnal a gwella gwasanaethau

Cwestiwn 4: Pa newidiadau penodol y dylid eu gwneud i gyfansoddiad presennol Awdurdodau Lleol i sicrhau eu bod yn agored ac yn dryloyw, a bod atebolrwydd yn eglur?

Cwestiwn 5: Sut dylai'r rhaglen cefnogi gwaith craffu gael ei llunio i gefnogi gwelliannau o ran effeithiolrwydd gwaith craffu?

Cwestiwn 6: Ym mha ffyrdd eraill y dylid cryfhau gwaith craffu er mwyn gwella gwasanaethau?

## Craffu a Llywodraethu – Awdurdodau Tân ac Achub

Cwestiwn 7: Beth yw'r ffordd orau o sicrhau llywodraethu a craffu ar benderfyniadau gwasanaeth ac ariannol strategol Awdurdodau Tân ac Achub?

Cwestiwn 8: Pa awgrymiadau sydd gennych i sicrhau bod gan gymunedau lais effeithiol ym mhenderfyniadau'r Awdurdodau newydd?

Cwestiwn 9: Pa fath o brosesau ymgynghori, ymgysylltu ac adborth a ddylai fod rhwng yr Awdurdodau newydd a chymunedau?

## Trefniadau Partneriaeth Cenedlaethol

Cwestiwn 10: Sut y gallwn ymgysylltu orau gyda Llywodraeth Leol i ddatblygu rhaglen o ddiwygio Llywodraeth Leol?

## Sut allwn ni sicrhau bod perfformiad Llywodraeth Leol yn gwella ac yn parhau i wella? - Gwella Perfformiad

Cwestiwn 11: Sut allwn ni helpu ac annog Awdurdodau Lleol i fod yn fwy rhagweithiol o ran nodi ac ymateb i faterion darparu neu lywodraethu?

Cwestiwn 12: Beth ddylai'r egwyddorion a'r safonau fod ar gyfer rheoli perfformiad ac adrodd ar berfformiad ar draws Awdurdodau Lleol, a'r sector cyhoeddus ehangach?

Cwestiwn 13: Ym mha ffyrdd y gallem fynd ati'n fwy effeithiol i ddefnyddio'r arian rydym yn ei fuddsoddi i gefnogi gwelliant Awdurdodau Lleol?

## Ffurf Llywodraeth Leol yn y dyfodol

Cwestiwn 14: A oes gennych awgrymiadau penodol ar gyfer pwerau a chyfrifoldebau y gellid ystyried eu datganoli i'r Awdurdodau newydd?

## Hwyluso a chymell uno gwirfoddol

Cwestiwn 15: A oes angen cynnwys unrhyw beth arall mewn pŵer ar gyfer uno gwirfoddol?

Cwestiwn 16: A yw'ch Awdurdod yn ystyried cyflwyno cynnig ar gyfer uno gwirfoddol?

## Wardiau etholiadol Awdurdodau Lleol

Cwestiwn 17: A oes angen i ni wneud unrhyw beth arall i sicrhau y gall Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru roi ystyriaeth effeithiol a gwneud argymhellion ar gyfer trefniadau etholiadol yn yr Awdurdodau arfaethedig?

## Taliadau Cydnabyddiaeth i Aelodau Etholedig

Cwestiwn 18: A oes unrhyw beth arall y mae angen i ni ei wneud i sicrhau bod y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn gallu rhoi ystyriaeth effeithiol a gwneud argymhellion ar gyfer taliadau i gynghorwyr yn yr Awdurdodau y bwriedir eu huno ac unrhyw awdurdodau cysgodol a ddaw cyn hynny?

## Gwaredu eiddo ac asedau

Cwestiwn 19: Ydych chi'n cytuno y bydd y pŵer arfaethedig i Weinidogion Cymru yn ddigonol ar gyfer gwaredu eiddo ac asedau? Os nad ydych yn cytuno y bydd y pŵer arfaethedig yn ddigonol, pa broblemau penodol ydych chi'n eu rhag-weld?

Cwestiwn 20: Pa fath o gymorth neu gyfarwyddyd y gallai fod eu hangen ar Awdurdodau Lleol?

## Cydweithredu, cydweithio a pharatoi cyn uno

Cwestiwn 21: A oes unrhyw beth arall y dylid ei ragnodi i gydbwyllgorau pontio eu gwneud i baratoi ar gyfer uno eu hawdurdodau?

Cwestiwn 22: Pa bwerau eraill y gallai fod eu hangen ar Weinidogion Cymru i atal ymddygiad niweidiol?

## Materion staffio

Cwestiwn 23: Beth ydych chi'n credu ddylai fod yn rôl a chyfrifoldebau i'r Comisiwn Staff?

Cwestiwn 24: A oes unrhyw beth arall y mae angen ei wneud i baratoi ar gyfer uno Awdurdodau Lleol?

## Cyllid Llywodraeth Leol – Treth Gyngor

Cwestiwn 25: Beth fyddai'r ffordd decaf o godi refeniw ar gyfer gwasanaethau lleol?

## Materion eraill

Cwestiwn 26: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodedig. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael yn benodol â nhw, gadewch inni wybod trwy ddefnyddio'r gofod isod:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau weithiau yn cael eu cyhoeddi – ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Ticiwch y blwch yma pe bai'n well gennych gadw eich ymateb yn gyfrinachol:

☐

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod** | Cyngor |
| **Dyddiad** | 9 Hydref 2014 |
| **Teitl** | Polisi Tal y Cyngor |
| **Pwrpas** | Argymell addasiad i'r Polisi Tal er mwyn hwyluso'r gallu i benodi |
| **Awdur** | Prif Weithredwr – Dilwyn Williams |
| **Aelod Cabinet** | Cynghorydd Peredur Jenkins |

1. Cafodd y Polisi Tal ar gyfer 2014/15 ei fabwysiadu gan y Cyngor ar 6ed o Fawrth eleni, a'i addasu o ran cyflog y Pennaeth Addysg yn ei gyfarfod diwethaf.

2. Wrth i ni ddilyn y trywydd o geisio penodi Pennaeth Addysg daeth yn amlwg fod yna un elfen ar goll o bolisi'r Cyngor allasai fod yn arf pwysig i'r Cyngor i ddenu ymgeiswyr gorau

3. Mae'r drefn sydd gennym ar gyfer holl staff y Cyngor yn caniatáu i ni dalu atodiad marchnad (atodiad i'r cyflog) mewn achosion lle na ellir denu ymgeiswyr addas oherwydd bod amgylchiadau'r farchnad lafur yn golygu nad yw'r cyflog a arfarnwyd fel rhan o'r broses arfarnu swyddi yn ddigonol i ddenu ymgeiswyr gyda'r galluoedd angenrheidiol i gyflawni'r swydd.

4. Nid oes gennym ddarpariaeth ar gyfer talu atodiad marchnad ar gyfer swyddi Penaethiaid ac wrth ystyried y sefyllfa gyda swydd Pennaeth Addysg yn ddiweddar, daeth y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion i'r casgliad y byddai darpariaeth o'r fath yn ddefnyddiol er mwyn sicrhau fod y gallu gennym i weithredu trefn tebyg ar gyfer Penaethiaid.

5. Yn wahanol i'r drefn ar gyfer staff fodd bynnag, ni ellir gadael swm yr atodiad yn ben agored gan fod yn rhaid i'r Cyngor bennu swm y cyflog y bwriedir ei dalu. Felly tra bod modd i'r Cyngor gytuno i roddi polisi o'r fath yn ei le ar gyfer Penaethiaid byddai'n rhaid iddo hefyd bennu uchafswm.

6. Argymhelliad y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion felly yw bod y Cyngor yn addasu ei bolisi tal i ganiatáu i'r Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion dalu atodiad marchnad o **hyd at** £5,000 mewn achosion lle mae'r Pwyllgor o'r farn fod angen talu swm ychwanegol oherwydd bod sefyllfa'r farchnad yn amlygu fod angen gwneud hynny.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | CYNGOR |
| **DYDDIAD** | 9 HYDREF 2014 |
| **PENNAWD** | DIWIGIO CYFANSODDIAD |
| **PWRPAS** | I addasu'r Cyfansoddiad i ymateb i'r newidiadau cyfrifoldebau yn dilyn ail strwythuro cyn Adran Democratiaeth a Chyfreithiol ac addasiadau yn deillio oherwydd effaith Rheoliadau Llywodraeth Leol (Gorchmynion Sefydlog) ( Cymru) (Diwygio) 2014. |
| **ARGYMHELLIAD** | Bod y Cyngor yn addasu'r Cyfansoddiad yn unol a'r adroddiad. |
| **AELOD CABINET** | Cyng. Dyfed Edwards, Arweinydd y Cyngor. |
| **AWDUR** | Iwan G D Evans - Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol – Swyddog Monitro |

**1. Cyflwyniad**

Fe fabwysiadwyd Cyfansoddiad diwygiedig gan y Cyngor ar 17 Gorffennaf 2014. Ar y 1af o Fedi daeth strwythur amgen i rym yn dilyn ail drefnu Adran Democratiaeth a Chyfreithiol. O ganlyniad mae angen addasu y trefniadau dirprwyo i sicrhau eglurdeb yn y cyfrifoldebau am benderfyniadau. Yn ychwanegol ar y 1af o Orffennaf 2014 daeth Rheoliadau Llywodraeth Leol (Gorchmynion Sefydlog) ( Cymru) ( Diwygio) 2014 i rym sydd yn golygu fod angen addasu y Cyfansoddiad er sicrhau ei fod yn cydymffurfio a gofynion statudol. Mae'r adroddiad yn argymell Rheol Sefydlog ynglŷn a mynychu cyfarfodydd o bell drwy cyfarpar fideo. Yn olaf mae'r adroddiad yn ymdrin a sefyllfa Cadeirio y Pwyllgorau Trwyddedu Canolog a Thrwyddedu Cyffredinol.

**2. Swyddogaethau Dirprwyedig**

Yn Atodlen 1 ceir tabl sydd yn amlinellu y newidiadau a argymhellir yn sgil yr ail strwythuro. Mae rhai o'r newidiadau yn gyfrifoldeb y Weithrediaeth ac adroddir ar y rhain er gwybodaeth. Nid yw'r tabl yn awgrymu newidiadau i'r hyn a ddirprwyir ond diweddarwyd cyfeiriadau statudol sydd bellach wedi eu newid neu yn ddi-rym.

3. **Rheoliadau Llywodraeth Leol ( Gorchmynion Sefydlog) ( Cymru) ( Diwygio) 2014**

Daeth y Rheoliadau i rym ar y 1af o Orffennaf 2014 ac mae gofyn statudol eu bod yn cael eu mabwysiadu. Mae’r Rheoliadau yma yn addasu Rheoliadau Llywodraeth Leol ( Gorchmynion Sefydlog) ( Cymru) sydd yn gosod gofynion statudol ynglŷn a chynnwys Rheoliadau Sefydlog ynglŷn a materion megis pleidleisio, arwyddo cofnodion, staff a phenodi Prif Swyddogion.

Gallir crynhoi y newidiadau sydd yn ganlyniad o’r Rheoliadau:

i. Diddymu pob cyfeiriad at fodelau llywodraethu Maer a Rheolwr Cyngor a Threfniadau Amgen;
ii. Darparu’r un statws i Bennaeth Gwasanaethau Democrataidd ac y rhoddir i Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, Swyddog Monitro a Prif Swyddog Cyllid ynglŷn a’r broses ar gyfer ymchwilio a chymryd camau disgyblaeth yn eu herbyn;
iii. Diwygio Rheol 9 sydd yn ymwneud a’r drefn ar gyfer ymdrin a honiadau o gamymddwyn yn erbyn y swyddogion uchod;
iv. Ychwanegu y warchodaeth uchod at swyddogion oedd, ond nid ydynt bellach yn dal y swyddogaethau uchod ble cyfyd y seiliau am y gweithredu yn deillio o’i cyfnod yn y swyddogaeth;
v. Gosod gofyn statudol i hysbysu swyddi Prif Swyddogion yn gyhoeddus ble mae cyfanaswn cydnabyddiaeth flynyddol y swydd yn uwch na £100,000 y flwyddyn ac eithrio penodiadau dros dro am gyfnodau sefydlog hyd at 12 mis;
vi. Ychwanegu Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Monitro i’r swyddi nad ydynt yn ddarostyngedig i’w penodi na’i diswyddo gan Bennaeth Gwasanaeth Cyflogedig;
vii. Fod unrhyw benderfyniad i osod neu addasu y gydnabyddiaeth a delir i Brif Swyddog yn nwylo’r Cyngor Llawn.

Mae’r addasiadau i’r Cyfansoddiad sydd angen er cyd ymffurfio wedi eu hamlygu yn Atodlen 2.

4. **Pwyllgorau Trwyddedu**

Sefydlwyd y Pwyllgor Trwyddedu Canolog i ymdrin â materion o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005. Mae’n ofynnol yn statudol i sefydlu’r pwyllgor hwn, ond ni all ystyried unrhyw fater arall. Fel canlyniad sefydlodd y Cyngor y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol i benderfynu ar faterion trwyddedu eraill.

Yn gyfansoddiadol felly maent yn ddau bwyllgor gwahanol sy’n cynnal cyfarfodydd ar wahân . Serch hynny, mae’r Cyngor hefyd wedi penderfynu y bydd y ddau bwyllgor yn cynnwys yr un pymtheg aelod, ac mae hynny wedi ei gynnwys yn y Cyfansoddiad.

Mae'r Cyfansoddiad hefyd yn darparu na all yr un aelod fod yn gadeirydd ar fwy nag un pwyllgor. O dan y Cyfansoddiad presennol felly rhaid penodi dau aelod gwahanol i gadeirio'r pwyllgorau.

Ystyriwyd y mater yma gan y Pwyllgorau yn eu cyfarfod ar 15 Medi 2014. Penderfynwyd :

> **" Yn unfrydol argymell i gyfarfod nesaf o'r Cyngor Llawn, (9.10.14) gymeradwyo'r cais i ddiwygio cyfansoddiad y cyngor (rhan 4/ rheolau gweithdrefn/10 para 1, 2 a 5) ar gyfer y ddau bwyllgor trwyddedu yn unig"**

## 5. Mynychu o Bell

Mae'r Pwyllgor Gwasanethau Democrataidd wedi trafod mynychu pwyllgorau o bell. Yn ystod y trafodaethau hynny, bu cytundeb am ganiatáu mynychu pwyllgorau o bell o Swyddfeydd eraill y Cyngor yn Nolgellau a Phwllheli.

Wrth gwrs mae rhai cymhlethdodau posib gyda datblygiad o'r fath o ran pethau fel y cworwm ar gyfer cyfarfodydd a beth sydd yn digwydd pe byddai'r offer yn methu ar unrhyw bwynt. Mae'r dechnoleg i alluogi'r mynediad hynny yn ei le, yn cynnwys darparu gwasanaethau cyfieithu drwy'r offer ac mae'n cael ei brofi cyn ei ddefnyddio'n ffurfiol.

Yn ei gyfarfod ar 9 Medi 2014 penderfynodd y Pwyllgor argymhell addasiadau i gyfansoddiad y Cyngor fyddai yn caniatau i aelodau fynychu Pwylgorau o bell.

Atodir Rheol Gweithdrefn Drafft yn Atodiad 4

O safbwynt sefyllfa cworwm dylid nodi ar sail argymhelliad y Pwyllgor Gwasanethau Democrataidd y gall methiant gan y cyswllt electroneg olygu na fydd cworwm i'r Pwyllgor.

Argymhelliad y Pwyllgor

**PENDERFYNWYD mynegi'r sylwadau canlynol ar y drafft o Reol Gweithdrefn i'r Cyngor fel y gellir ei brosesu i'w gynnwys, maes o law, yng Nghyfansoddiad y Cyngor:-**

- **<u>4.17.1</u> – Cytuno y dylid darparu fideo-gynadledda yn swyddfeydd y Cyngor yn Nolgellau a Phwllheli ac yn Siambr Dafydd Orwig a Siambr Hywel Dda yng Nghaernarfon i ganiatau i aelodau ymuno â phwyllgorau o bell.**
- **<u>4.17.2</u> - Y dylid rhestru'r pwyllgorau craffu, y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a'r Pwyllgor Iaith fel yr unig rai sy'n gymwys i gael presenoldeb o bell ynddynt gan nad ydynt yn gwneud penderfyniadau gweithredol.**
- **<u>4.17.3</u> – Y dylai aelod sy'n dymuno ymuno o bell mewn pwyllgor roi o leiaf 4 diwrnod o rybudd i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd. Dylid cynnwys nodyn ar flaen y rhaglen yn cyfarwyddo'r aelodau i gysylltu â'r Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu os ydynt yn dymuno ymuno o bell, gan hefyd gynnwys yr**

**un cyfarwyddyd yn yr e-bost i aelodau sy'n cynnwys y linc i'r rhaglen.**

- **<u>4.17.4</u> – Ni chredir bod angen y rheol hon. Mae cael y rheol hon a rheol 4.17.5 (sy'n statudol) yn cymhlethu gweinyddiaeth y pwyllgor heb ychwanegu fawr ar ei reolaeth. Hefyd, gan fod rheol 4.17.4 yn gwahardd aelodau sy'n ymuno o bell rhag cyfrif at y cworwm, byddai'n rhaid cael o leiaf chwarter aelodau'r pwyllgor yn yr ystafell gyfarfod, a gallai hynny fod yn anymarferol ar brydiau.**
- **<u>4.17.5</u> – Y dylai nifer yr aelodau sy'n mynychu yn yr ystafell lle cynhelir y cyfarfod fod yn 30% o'r holl aelodau sy'n mynychu'r cyfarfod (boed yn yr ystafell gyfarfod neu'n ymuno o bell).**
- **<u>4.17.6</u> – Os yw'r cysylltiad yn cael ei golli, mater i'r Cadeirydd yw penderfynu a ddylid gohirio'r cyfarfod ai peidio, ond er cwrteisi, dylai wneud bob ymdrech i gysylltu â'r aelodau sydd ym Mhwllheli a Dolgellau i'w hysbysu o'i benderfyniad.**

**Argymhelliad**

**Fod y Cyngor yn cymeradwyo y diwygiadau i'r Cyfansoddiad yn unol a'r adroddiad.**

**Atodiad 1A**
**Addasiadau yn nwylo'r Cyngor .**

| **Cyfredol** | **Addasiad** |
|---|---|
| **Adran 5 – Y Cabinet**<br><br>5.8.3 <u>Cynllun Dirprwyo a Swyddogaethau Gweithredol y Cyngor</u><br><br>• Caiff yr Arweinydd ddiwygio'r cynllun dirprwyo mewn perthynas â Swyddogaethau Gweithredol ar unrhyw adeg. Wrth wneud hynny, bydd yr Arweinydd yn rhoi rhybudd ysgrifenedig i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a'r unigolyn, y corff neu'r pwyllgor dan sylw. Mae'n rhaid i'r rhybudd amlinellu maint y diwygiad i'r cynllun dirprwyo, a pha un a yw'n golygu tynnu dirprwyaeth yn ôl oddi ar unrhyw unigolyn, corff neu bwyllgor. Bydd y <u>Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd</u> yn cyflwyno adroddiad i gyfarfod cyffredin nesaf y Cyngor yn amlinellu'r newidiadau a wnaed gan yr Arweinydd. | Dileu "Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd "<br><br>Ychwanegu "Swyddog Monitro" |

**Adran 13 – Y Cyngor Llawn**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 13. Y ddyletswydd i ddatgan bod yna le gwag mewn swydd mewn rhai achosion. | Adran 86 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. | Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol | Dileu "Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd "<br><br>Ychwanegu Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |
| 14. Y ddyletswydd i roi hysbysiad cyhoeddus o le gwag achlysurol. | Adran 87 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. | Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol | Dileu "Pennaeth Gwasanethau Cyfreithiol a Democrataidd "<br><br>Ychwanegu Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 16. Y pŵer i benderfynu ffioedd ac amodau ar gyfer rhoi copïau o ddogfennau etholiadol neu ddarnau allan ohonynt. | Rheol 48(3) o Reolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) 1986 (O.S. 1986/2214) a Rheol 48(3) o Reolau Etholiadau Lleol (Plwyfi a Chymunedau) 1986 (O.S. 1986/2215). | Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol. | Dileu |
| 18. Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007/236 | Amrywiol bwerau dan Ran 2 | Dirprwyir swyddogaethau'r swyddog canlyniadau i'r Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol. | Dileu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 32. Y pŵer i gymeradwyo safleoedd ar gyfer gweinyddu priodasau. | Rhan 46A o Ddeddf Priodasau 1949 (p. 76) , adran 6A o Ddeddf Partneriaethau Sifil 2004 a'r Rheoliadau Priodasau a Phartneriaethau Sifil (Safleoedd a Gymeradwywyd) 2005 (O.S. 2005/3168) | Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol. | Dileu "Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol"<br>Ychwanegu "Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant" |
| 33. Y pŵer i gofrestru tir comin neu lawntiau trefi neu bentrefi, ac eithrio os yw'r pŵer yn adferadwy ar gyfer rhoi effaith i'r canlynol yn unig -<br>(a) cyfnewid tiroedd y mae gorchymyn o dan adran 19(3) o Ddeddf Caffael Tir 1981 (p.67) neu baragraff 6(4) o Atodlen 3 iddi yn effeithio arnynt; neu<br>(b) gorchymyn o adran 147 o Ddeddf Amgáu Tiroedd 1845 (p. 8 a 9 Vict. p.118). | Rheoliad 6 o Reoliadau Cofrestru Tiroedd Comin (Tiroedd Newydd) 1969 (O.S. 1969/1843). | Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol. | Dileu "Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol"<br>Ychwanegu "Pennaeth Rheoleiddio" |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 34. Y pŵer i gofrestru amrywiadau ar hawliau comin. | Rheoliad 29 o Reoliadau Cofrestru Tiroedd Comin (Cyffredinol) 1966 (O.S. 1966/1471). | | Dileu “Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol”<br>Ychwanegu “Pennaeth Rheoleiddio” |

**Adran 13 Atodiad 3 Rhan 6 Cynllun Dirprwyo Swyddogion**

| | | | Cyfredol | Addasiad |
|---|---|---|---|---|
| **6.** | **Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol** | | | **Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol** |
| | Yn y "<u>Cynllun Dirprwyo i Bwyllgorau</u>" yn Atodiad 1 i Adran 13 o'r Cyfansoddiad, nodir lle mae swyddogaethau nad ydynt yn gyfrifoldeb i'r Weithrediaeth wedi eu dirprwyo i Brif Swyddogion. Lle nad oes prif swyddog wedi ei enwi yn y ddogfen honno nid yw’r pŵer wedi ei ddirprwyo, ond yn hytrach fe'i cedwir gan y pwyllgor. | | | |
| | **<u>Swyddogaethau a ddirprwyir gan y Cyngor</u>** | | | |
| | 6.1 | Gweithredu fel Swyddog Monitro'r Cyngor dan Adran 5 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989. | Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol | Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol |
| | 6.2 | Gweithredu fel Swyddog Priodol y Cyngor ac eithrio lle mae darpariaethau'r gyfraith, y cynllun hwn neu rannau eraill o'r Cyfansoddiad yn rhoi'r swyddogaeth i swyddog arall. | Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol | Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 6.3 | Gweithredu holl bwerau'r Cyngor fel awdurdod cofrestru tir comin. | Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol | Pennaeth Rheoleiddio |
| | 6.4 | Awdurdod i gymeradwyo eiddo ar gyfer gweinyddu priodasau a chofrestru partneriaethau sifil | Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol | Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| | 6.5 | Penderfynu ar apeliadau cam 2 trefn datrys anghydfod Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. | Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol | Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol |

**Atodiad 1B**

**Addasiadau yn nwylo'r Weithrediaeth**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Swyddogaethau a ddirprwyir gan y Cabinet** | | | |
| | 6.6 | Gweithredu ar sail dydd i ddydd ac o fewn y cynllun yn y meysydd canlynol:- | | |
| | | • Cyfreithiol | Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol | Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol |
| | | • Cwynion | Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol | Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol |
| | | • Etholiadau | Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol | Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol |
| | | • Argraffu | Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol | Pennaeth Adnoddau Dynol |
| | | • Cyfieithu | Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol | Pennaeth Strategol a Gwella |
| | | • Cefnogi'r Cabinet | Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol | Prif Weithredwr |
| | | • Cofrestru genedigaethau, | Pennaeth Democratiaeth a | Pennaeth Oedolion, |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | marwolaethau a phriodasau | Chyfreithiol | Iechyd a Llesiant |
| | | • Chwiliadau, pridiannau tir a thir comin. | Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol | Pennaeth Rheoleiddio |
| | | • Cefnogi'r Crwner | Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol | Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol |
| | 6.7 | Cychwyn, amddiffyn neu setlo achosion cyfreithiol (boed yn enw'r Cyngor neu yn enw swyddog penodol o'r Cyngor) dan y gyfraith gyffredin neu dan unrhyw ddeddfwriaeth, is-ddeddfwriaeth, orchymyn neu is-ddeddf a rydd swyddogaethau i'r Cyngor neu ynglŷn â swyddogaethau a ymgymerir ganddo ac i wneud apêl yn erbyn unrhyw ddyfarniad cyfreithiol. Er osgoi unrhyw amheuaeth mae'r awdurdod hwn yn cynnwys cymryd pob cam trefniadaethol gan gynnwys cyflwyno rhybuddion, statudol neu fel arall, gwrth-rybuddion a rhybuddion i ymadael. | Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol | Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol |
| | 6.8 | Awdurdodi swyddogion y Cyngor i weithredu dan baragraff 6.2. yn yr un modd â hithau/ag yntau ac i erlyn neu amddiffyn neu ymddangos mewn unrhyw achosion cyfreithiol yn rhinwedd darpariaethau Adran 223 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 neu unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall a fo mewn grym o bryd i'w gilydd. Rhaid i'r Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol gadw rhestr o bob awdurdod a roddir ganddi/o wrth weithredu ei b/phwerau dan yr is-baragraff hwn. | Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol | Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol |
| | 6.9 | Bod yn swyddog priodol at ddibenion cofrestru genedigaethau, marwolaethau a phriodasau. | Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol | Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| | 6.10 | Gweithredu pwerau’r Cyngor dan Ddeddf Priodas 1994 a Deddf Partneriaeth Sifil 2004. | Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol | Pennaeth Oedolion, |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Iechyd a Llesiant |
| | 6.11 | Awdurdod i lofnodi tystysgrifau ar gyfer Cofrestrfa Dir Ei Mawrhydi a chofrestru unrhyw bridiant tir ar ran y Cyngor. | Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol | Pennaeth Rheoleiddio |
| | 6.12 | Awdurdod i wneud gorchmynion dan Ddeddf Cymalau Heddlu Tref 1847. | Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol | Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol |
| | 6.13 | Awdurdod i osod sêl gyffredin y Cyngor ar ddogfennau yn dilyn penderfyniad dilys gan y Cyngor neu'r Cabinet, Pwyllgor, Aelod Cabinet neu swyddog yn gweithredu pwerau dirprwyedig, ac i awdurdodi swyddogion eraill i weithredu yn yr un modd. | Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol | Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol |
| | 6.14 | Awdurdod i roi tystysgrif ynglŷn â dyletswyddau gwleidyddol swydd dan adran 3 Deddf Tai a Llywodraeth Leol 1989. | Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol | Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol |
| | 6.15 | Gweithredu ar adroddiadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru dan Adran 21 Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005. | Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol | Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol |
| | 6.16 | Mewn ymgynghoriad â’r pennaeth priodol awdurdodi taliadau mewn achosion o gamweinyddu dan Adran 92 Deddf Llywodraeth Leol 2000 neu mewn achosion o gwynion dan Adran 34, Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 (ar yr amod yr ymgynghorir hefyd hefo Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn achos unrhyw daliad dros £10,000). | Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol | Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol |
| | 6.17 | Rhoi barn fel person cymwys dan Adran 36 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. | Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol | Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol |
| | 6.18 | Cynnal adolygiadau o geisiadau rhyddid gwybodaeth. | Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol | Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol |
| | 6.19 | Bod y Swyddog Awdurdodi ar gyfer dibenion Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 a caiff awdurdodi swyddogion eraill o fewn y gwasanaeth i fod yn Swyddog Awdurdodi yn yr un modd. | Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol | Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol |

**ATODIAD 2**

**ADRAN 11**

## 11. SWYDDOGION

### 11.1 Strwythur Rheoli

11.1.1 Cyffredinol

Caiff y Cyngor Llawn gyflogi'r cyfryw staff (y cyfeirir atynt fel Swyddogion) ag y mae'n ystyried sy'n briodol i gyflawni ei swyddogaethau.

11.1.2 Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, y Swyddog Monitro ,Prif Swyddog Cyllid a Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

Bydd y Cyngor yn dynodi'r swyddi canlynol fel y dangosir:

| Swydd | Dynodiad |
|---|---|
| Prif Weithredwr | Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig |
| Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol | Swyddog Monitro |
| Pennaeth Cyllid | Prif Swyddog Cyllid |
| Pennaeth Strategol a Gwella | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |

Bydd y swyddogaethau a ddisgrifir yn Adrannau 11.2 i 11.5 yn berthnasol i'r swyddi hyn.

11.1.3 Yn yr adran yma golygai unrhyw gyfeiriad at "Brif Swyddog", Brif Swyddog" o fewn ystyr Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Gorchmynion Sefydlog) (Cymru) 2006).

### 11.2. Swyddogaethau Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig

11.2.1 Cyflawni Swyddogaethau gan y Cyngor

Mae Adran 4 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau i ddynodi un o'u swyddogion yn Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig. Bydd Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig yn adrodd i'r Cyngor Llawn ar y ffordd y cydlynir y broses o gyflawni swyddogaethau'r Cyngor, nifer a gradd y staff sydd eu hangen i gyflawni'r swyddogaethau, trefniadaeth staff yr awdurdod, a phenodi staff yr awdurdod a rheolaeth briodol arnynt.

11.2.2 Cyfyngiadau ar Swyddogaethau

Ni chaiff Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig fod yn Swyddog Monitro nac yn Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, ond caiff ddal swydd Prif Swyddog Cyllid os yw'n gyfrifydd cymwysedig.

## 11.3 Swyddogaethau'r Swyddog Monitro

Amlinellir y rhain yn adran 5 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 fel y'i diwygiwyd.

11.3.1 Cynnal y Cyfansoddiad

Bydd y Swyddog Monitro yn cynnal fersiwn gyfredol o'r Cyfansoddiad ac yn sicrhau ei fod ar gael yn eang er mwyn i Aelodau, staff a'r cyhoedd allu cyfeirio ato.

11.3.2 Sicrhau bod y Penderfyniadau a Wneir yn Gyfreithlon ac yn Deg

Ar ôl ymgynghori â Phennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig a'r Prif Swyddog Cyllid, bydd y Swyddog Monitro yn adrodd i'r Cyngor Llawn neu'r Cabinet mewn perthynas ag unrhyw Swyddogaeth os yw ef/hi o'r farn y byddai unrhyw gynnig, penderfyniad neu hepgoriad yn arwain at anghyfreithlondeb neu os yw unrhyw benderfyniad neu hepgoriad wedi arwain at gamweinyddu. Bydd adroddiad o'r fath yn atal y cynnig neu'r penderfyniad rhag cael ei roi ar waith nes bod yr adroddiad wedi cael ei ystyried.

11.3.3 Cefnogi'r Pwyllgor Safonau

Bydd y Swyddog Monitro yn cyfrannu at hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad trwy gefnogi'r Pwyllgor Safonau.

11.3.4 Derbyn Adroddiadau

Bydd y Swyddog Monitro yn derbyn ac yn gweithredu ar adroddiadau a wneir gan yr Ombwdsmon a phenderfyniadau'r tribiwnlysoedd achos.

11.3.5 Cynnal Ymchwiliadau

Bydd y Swyddog Monitro yn cynnal ymchwiliadau i faterion a atgyfeirir gan yr Ombwdsmon ac yn llunio adroddiadau neu'n gwneud argymhellion mewn perthynas â hwy i'r Pwyllgor Safonau.

11.3.6 Swyddog Priodol ar gyfer Mynediad at Wybodaeth

Bydd y Swyddog Monitro yn sicrhau bod penderfyniadau Gweithredol, ynghyd â'r rhesymau dros y penderfyniadau hynny, ac adroddiadau gan Swyddogion Perthnasol a phapurau cefndir ar gael yn gyhoeddus cyn gynted â phosibl.

11.3.7 Cynghori ynghylch pa un a yw penderfyniadau'r [Cabinet] [y Weithrediaeth] o fewn y Gyllideb a'r Fframwaith Polisi

Bydd y Swyddog Monitro, ar y cyd â'r Prif Swyddog Cyllid, yn cynghori ynghylch pa un a yw penderfyniadau'r Cabinet yn unol â'r Gyllideb a'r Fframwaith Polisi.

11.3.8 Rhoi Cyngor

Bydd y Swyddog Monitro yn rhoi cyngor i'r Cynghorwyr ar faterion yn ymwneud â chwmpas pwerau a'r awdurdod i wneud penderfyniadau, camweinyddiaeth, amhriodoldeb ariannol, uniondeb a'r Gyllideb a'r Fframwaith Polisi.

11.3.9 Cyfyngiadau ar Swyddi

Ni chaiff y Swyddog Monitro fod yn Brif Swyddog Cyllid, Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig na'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

**11.4 Swyddogaethau'r Prif Swyddog Cyllid**

Amlinellir y rhain yn adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972.

11.4.1 Sicrhau Cyfreithlondeb a Doethineb Ariannol y Penderfyniadau a Wneir

Ar ôl ymgynghori â Phennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig a'r Swyddog Monitro, bydd y Prif Swyddog Cyllid yn adrodd i'r Cyngor Llawn neu'r Cabinet mewn perthynas â Swyddogaeth Weithredol, ac archwilydd allanol y Cyngor os yw ef/hi o'r farn y bydd unrhyw gynnig, penderfyniad neu ffordd o weithredu yn golygu gwariant anghyfreithlon, neu'n anghyfreithlon ac yn debygol o achosi colled neu ddiffyg neu os yw'r Cyngor ar fin cofnodi eitem o'r cyfrifon yn anghyfreithlon.

11.4.2 Gweinyddu Materion Ariannol

Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn gyfrifol am weinyddu materion ariannol y Cyngor.

11.4.3 Cyfrannu at Reolaeth Gorfforaethol

Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn cyfrannu at reolaeth gorfforaethol y Cyngor, yn enwedig trwy ddarparu cyngor ariannol proffesiynol.

11.4.4 Rhoi Cyngor

Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn rhoi cyngor i'r holl Gynghorwyr ar faterion yn ymwneud â chwmpas pwerau a'r awdurdod i wneud penderfyniadau, camweinyddiaeth, amhriodoldeb

ariannol, uniondeb a'r Gyllideb a'r Fframwaith Polisi, a bydd yn cefnogi a chynghori Cynghorwyr a Swyddogion yn eu rolau priodol.

11.4.5 Rhoi Gwybodaeth Ariannol

Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn rhoi gwybodaeth ariannol i'r cyfryngau, aelodau'r cyhoedd a'r gymuned.

11.4.6 Cynghori ynghylch pa un a yw penderfyniadau'r Cabinet o fewn y Gyllideb a'r Fframwaith Polisi

Bydd y Prif Swyddog Cyllid, ar y cyd â'r Swyddog Monitro, yn cynghori ynghylch pa un a yw penderfyniadau'r Cabinet yn unol â'r Gyllideb a'r Fframwaith Polisi.

11.4.7 Cyfyngiadau ar Swyddi

Ni chaiff y Prif Swyddog Cyllid fod yn Swyddog Monitro na'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

**11.5 Swyddogaethau'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**

Amlinellir y rhain yn adran 9 y Mesur. Swyddogaethau'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yw:

11.5.1 rhoi cymorth a chyngor i'r awdurdod mewn perthynas â'i gyfarfodydd, yn amodol ar baragraff 11.5.10;

11.5.2 rhoi cymorth a chyngor i bwyllgorau'r awdurdod (heblaw am y pwyllgorau a grybwyllir ym mharagraff 11.5.5) ac aelodau'r pwyllgorau hynny, yn amodol ar baragraff 11.5.10;

11.5.3 rhoi cymorth a chyngor i unrhyw gydbwyllgor y mae awdurdod lleol yn gyfrifol am ei drefnu ac aelodau'r pwyllgor hwnnw, yn amodol ar baragraff 1.5.10;

11.5.4 hyrwyddo rôl Pwyllgorau Craffu yr awdurdod;

11.5.5 rhoi cymorth a chyngor i:

(a) Bwyllgorau Craffu yr awdurdod ac aelodau'r pwyllgorau hynny; a
(b) Phwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yr awdurdod ac aelodau'r pwyllgor hwnnw;

(c) rhoi cymorth a chyngor mewn perthynas â swyddogaethau Pwyllgor Craffu yr awdurdod i bob un o'r canlynol:

(i) aelodau'r awdurdod;

(ii) aelodau gweithrediaeth yr awdurdod;

(iii) swyddogion yr awdurdod.

11.5.6 rhoi cymorth a chyngor i bob aelod o’r awdurdod mewn perthynas â chyflawni rôl aelod o’r awdurdod, yn amodol ar baragraff 11.5.11;

11.5.7 llunio adroddiadau a gwneud argymhellion mewn perthynas ag unrhyw un o’r canlynol:

(a) nifer a gradd y staff sydd eu hangen i gyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd;

(b) penodi staff i gyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd;

(c) trefniadaeth staff sy’n cyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd a rheolaeth briodol arnynt;

11.5.8 y cyfryw swyddogaethau eraill ag y gellid eu pennu gan y gyfraith.

11.5.9 <u>Cyfyngiadau ar Swyddi</u>

Ni chaiff y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fod yn Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, y Swyddog Monitro na’r Prif Swyddog Cyllid.

11.5.10 Mae rhoi cyngor ynghylch pa un a ddylai swyddogaethau’r cyngor gael eu harfer neu pa un a ddylent fod wedi cael eu harfer, neu sut y dylai swyddogaethau’r cyngor gael eu harfer neu sut y dylent fod wedi cael eu harfer, yn berthnasol dim ond i gyngor yn ymwneud â swyddogaethau’r Pwyllgor Craffu a’r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

11.5.11 Nid yw cyngor i Aelod yn cynnwys cyngor mewn perthynas â’i rôl fel Aelod gweithredol ac nid yw’n cynnwys cyngor ynghylch mater sy’n cael ei ystyried mewn cyfarfod neu y bwriedir ei ystyried mewn cyfarfod (heblaw am gyfarfod Pwyllgor Craffu neu’r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

**11.6 <u>Dyletswydd i Ddarparu Adnoddau Digonol i Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, y Swyddog Monitro, y Prif Swyddog Cyllid a’r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd</u>**

Bydd y Cyngor yn darparu’r cyfryw Swyddogion, llety ac adnoddau eraill i Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, y Swyddog Monitro, y Prif

Swyddog Cyllid a'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ag y mae'n ystyried sy'n ddigonol i ganiatáu ar gyfer cyflawni eu dyletswyddau.

**11.7 <u>Ymddygiad</u>**

Bydd Swyddogion yn cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Swyddogion a'r Protocol ar Gysylltiadau Swyddogion/Aelodau a amlinellir yn Adrannau 20 a 21**Error! Reference source not found.** y Cyfansoddiad hwn.

**11.8 <u>Cyflogaeth</u>**

Bydd y drefn ar gyfer recriwtio, dethol a diswyddo Swyddogion yn cydymffurfio â'r Rheolau Cyflogaeth Swyddogion a amlinellir isod.

**11.9 <u>Cydnabyddiaeth Prif Swyddogion</u>**

<u>Bydd y Cyngor Llawn yn penderfynu ar lefel ac unrhyw newid yn y gydnabyddiaeth sydd i'w dalu i Brif Swyddog. Diffinnir cydnabyddiaeth yn unol â  Deddf Lleoliaith 2011 Adran 43(3).</u>

**11.10 <u>Rheolau Gweithdrefnol Cyflogaeth Swyddogion</u>**

11.10.1 <u>Recriwtio a Phenodi</u>

(a) Datganiadau

(i) Mae'r Cyngor wedi llunio gweithdrefnau sy'n cynnwys gofyniad bod yn rhaid i unrhyw ymgeisydd ar gyfer ei benodi/phenodi'n Swyddog ddatgan yn ysgrifenedig pa un a oes ganddo/ganddi unrhyw berthynas ag unrhyw un o gynghorwyr neu Swyddogion y Cyngor.

(ii) Ni fydd unrhyw ymgeisydd sy'n perthyn i Gynghorydd neu uwch Swyddog yn cael ei benodi/phenodi heb awdurdod y Prif Swyddog perthnasol neu Swyddog a enwebwyd ganddo/ganddi.

(b) Ceisio Cefnogaeth ar gyfer Penodiad

(i) Bydd y Cyngor yn anghymhwyso unrhyw ymgeisydd sy'n ceisio cef anogaeth unrhyw Gynghorydd ar gyfer unrhyw benodiad gyda'r Cyngor, boed hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.  Bydd cynnwys y paragraff hwn yn cael ei nodi mewn unrhyw wybodaeth recriwtio.

(ii) Ni chaiff unrhyw un o Gynghorwyr na chyflogeion y Cyngor geisio cefnogaeth i unrhyw unigolyn ar gyfer unrhyw benodiad gyda'r Cyngor.

11.10 .2 Recriwtio Prif Swyddogion

Pan fydd y Cyngor yn bwriadu penodi Prif Swyddog (o fewn ystyr Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Gorchmynion Sefydlog) (Cymru) 2006) bydd y Cyngor yn ac, yn ddarostyngedig i'r gofyn yn (b)(ii) isod na fwriedir gwneud y penodiad yn unig o blith ei swyddogion presennol, rhaid iddo wneud y canlynol :

(a) llunio datganiad sy'n cynnwys y canlynol:

(i) dyletswyddau'r Swyddog dan sylw; ac

(ii) unrhyw gymwysterau neu rinweddau a geisir yn yr unigolyn sydd i'w benodi/phenodi;

(b) (i) gwneud trefniadau i'r swydd gael ei hysbysebu yn y fath fodd sy'n debygol o'i dwyn i sylw unigolion sy'n gymwys i wneud cais amdani, ac

(ii) mewn achos ble mae cydnabyddiaeth flynyddol y swydd yn £100,000 neu fwy rhaid i'r hysbyseb fod yn gyhoeddus oni bai fod y penodiad am gyfnod penodedig sydd ddim mwy na 12 mis o hyd

(c) gwneud trefniadau i gopi o'r gweithdrefnau a grybwyllwyd ym mharagraff (a) gael eu hanfon at unrhyw unigolyn ar gais.

(d) Bydd y camau a grybwyllir yn (a) i (c) uchod yn cael eu dirprwyo i'r Prif Weithredwr i'w cymryd

(e) Ar achlysur ble hysbysebwyd swydd yn unol â pharagraff (b) mae rhaid i'r Cyngor unai:

(i) gyfweld pob ymgeisydd cymwys ar gyfer y swydd neu,
(ii) ddewis rhestr fer o blith yr ymgeiswyr cymwys a chyfweld y rhai a gynhwysir ar y rhestr fer.

(f) Ble na dderbyniwyd cais gan berson cymwys neu, fod y Cyngor yn penderfynu ail hysbysebu'r swydd gall y Cyngor wneud trefniadau pellach ar gyfer hysbysebu un unol a pharagraff (b)

(g) Bydd y camau a grybwyllir ym mharagraffau (e) a (f) uchod yn cael eu dirprwyo i'r pwyllgor priodol yn unol â chynllun dirprwyo'r Cyngor i bwyllgor i bwyllgorau ac is-bwyllgorau.

(h) Lle bo dyletswyddau prif swyddog yn cynnwys cyflawni swyddogaethau dau neu fwy o awdurdodau perthnasol yn rhinwedd adran 101(5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972:

(i) gall y camau a gymerwyd dan baragraff (a) neu (b) uchod gael eu cymryd gan gydbwyllgor yr awdurdodau perthnasol hynny, is-bwyllgor o'r pwyllgor hwnnw neu brif swyddog unrhyw rai o'r awdurdodau perthnasol dan sylw; a

(ii) gellir penodi unrhyw brif swyddog gan y cyfryw gydbwyllgor, is-bwyllgor o'r pwyllgor hwnnw neu bwyllgor neu is-bwyllgor o unrhyw rai o'r awdurdodau perthnasol hynny.

11.10.3 Penodi Prif Weithredwr

(a) Bydd y Cyngor Llawn yn cymeradwyo penodiad Prif Weithredwr, yn dilyn argymhelliad ynghylch y cyfryw benodiad gan un o bwyllgorau neu is-bwyllgorau'r Cyngor. Mae'n rhaid i'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor hwnnw gynnwys o leiaf un Aelod o'r Cabinet .

11.10.4. Penodi a Diswyddo Prif Swyddogion

(a) Yn y paragraff hwn:

| | |
|---|---|
| mae "y Pwyllgor" | yn golygu'r Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion; ac |
| mae "y Swyddog Priodol" | yn golygu'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd. |

(b) Y Pwyllgor sy'n gyfrifol am benodi a diswyddo'r Prif Weithredwr a Phrif Swyddogion.

(c) Mae'n rhaid i o leiaf un Aelod o'r Cabinet fod yn Aelod o'r Pwyllgor ac ni ddylai mwy na hanner Aelodau'r Pwyllgor hwnnw fod yn Aelodau o'r Cabinet (Atodlen 3 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Gorchmynion Sefydlog) (Cymru) 2006).

(ch) Pan fydd y Pwyllgor yn bwriadu penodi neu ddiswyddo'r Prif Weithredwr, mae'n rhaid i'r Cyngor Llawn gymeradwyo'r penodiad hwnnw cyn i'r cynnig o benodiad gael ei wneud neu mae'n rhaid iddo gymeradwyo'r diswyddiad hwnnw cyn i'r rhybudd diswyddo gael ei roi.

(d) Lle bo dyletswyddau prif swyddogion yn cynnwys cyflawni swyddogaethau dau neu fwy o awdurdodau perthnasol yn rhinwedd adran 101(5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 -

(i) gall y camau a gymerwyd dan baragraff 1 neu 2 uchod gael eu cymryd gan gydbwyllgor yr awdurdodau perthnasol hynny, is-bwyllgor o'r pwyllgor hwnnw neu brif swyddog unrhyw rai o'r awdurdodau perthnasol dan sylw; a

(iii) gellir penodi unrhyw brif swyddog gan y cyfryw gydbwyllgor, is-bwyllgor o'r pwyllgor hwnnw neu bwyllgor

neu is-bwyllgor o unrhyw rai o’r awdurdodau perthnasol hynny.

11.10.5 Swyddogion Eraill

(a) Y Prif Weithredwr neu ei (h)enwebai ef/hi sy’n gyfrifol am benodi a diswyddo Swyddogion islaw Prif Swyddog, ac ni chaiff cynghorwyr ymgymryd â’r swyddogaeth hon.

(b) Ni fydd cynghorwyr yn ymwneud â chamau disgyblu yn erbyn unrhyw Swyddog islaw Prif Swyddog ac eithrio pan fydd angen iddynt gymryd rhan mewn unrhyw ymchwiliad i gamymddwyn honedig neu pan fydd gweithdrefnau disgyblu, gweithdrefnau gallu a gweithdrefnau cysylltiedig y Cyngor, fel y cânt eu mabwysiadu o bryd i’w gilydd, yn caniatáu hawl i apelio at Aelodau.

(c) Ni fydd paragraffau (a) a (b) yn berthnasol i:

(i) y swyddog a ddynodwyd yn bennaeth gwasanaeth taledig yr awdurdod;

(ii) prif swyddog statudol o fewn ystyr adran 2(6) o Ddeddf 1989(3) (swyddi â chyfyngiad gwleidyddol);

(iii) prif swyddog anstatudol o fewn ystyr adran 2(7) o Ddeddf 1989;

(iv) dirprwy brif swyddog o fewn ystyr adran 2(8) o Ddeddf 1989;

(v) Swyddog Monitro,

(vi) Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,

(vii) person a benodwyd yn rhinwedd adran 9 o Ddeddf 1989(4) (cymhorthwyr i grwpiau gwleidyddol); neu

(ix) person y mae rheoliadau a wneir o dan adran 35(4) a (5) (darpariaeth o ran penodi, disgyblu, atal dros dro a diswyddo athrawon a staff eraill mewn ysgolion a gyflogir gan yr awdurdod addysg lleol) o Ddeddf Addysg 2002(5) yn gymwys iddo.

11.10.6 Penodiadau cynorthwywyr i’r grwpiau gwleidyddol.

(a) Penodir cynorthwyydd grŵp gwleidyddol yn unol â dymuniadau’r grŵp gwleidyddol hwnnw.

(b) Gwahoddir y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fel sylwedydd i unrhyw gyfweliad ar gyfer penodi cynorthwyydd grŵp gwleidyddol.

11.10.7 Camau Disgyblu

(a) Yn y paragraff hwn, mae "camau disgyblu" yn cynnwys diswyddo a fwriedir am unrhyw reswm heblaw am ddileu swydd, iechyd gwael parhaol neu fethiant i adnewyddu contract cyfnod penodol, ymddeoliad a gynlluniwyd ac ymddeoliad cynnar a chyfnodau prawf anfoddhaol.

(b) *Gweithdrefnau Ysgrifenedig*

Yn ddarostyngedig i (i) isod bydd camau disgyblu yn erbyn Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, y Swyddog Monitro y Prif Swyddog Cyllid a'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn cael eu cymryd yn unol â Gweithdrefnau Prif Swyddogion y Cyngor ( mae hyn yn cynnwys swyddog sydd yn destun camau disgyblaeth arfaethedig oedd ar yr adeg yr honnwyd y digwyddodd y camymddwyn wedi ei gyflogi yn un o'r swyddi uchod ond nad yw yn parhau yn swydd ar adeg y camau disgyblaeth arfaethedig).

(i) Petai yn dod i'r amlwg fod honiad o gamymddwyn gall arwain at gamau disgyblu wedi ei wneud yn erbyn un o'r swyddogion a restrir uchod yna penodir pwyllgor ymchwilio gan y Cyngor i ymchwilio i'r honiadau yn unol â gofynion Rheol 9 o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Gorchmynion Sefydlog) (Cymru) 2006).

(ii) Bydd camau disgyblu yn erbyn pob Swyddog arall yn cael eu cymryd yn unol â'r Amodau Gwaith Lleol.

(c) *Unigolyn Annibynnol*

Ni cheir cymryd unrhyw gamau disgyblu o dan baragraff (b) uchod ac eithrio yn unol ag argymhelliad mewn adroddiad a wnaed gan unigolyn annibynnol dynodedig dan Reol 9 o Reoliadau Llywodraeth Leol (Rheolau Sefydlog)(Cymru ) 2006.

(ch) *Atal Rhag Gweithio*

Caiff Swyddog a enwir yn (b) gael eu hatal rhag gweithio tra bod ymchwiliad yn cael ei gynnal i gamymddwyn honedig. Bydd y Swyddog dan sylw yn cael ei (h)atal rhag gweithio ar gyflog llawn a daw'r cyfnod atal i ben wedi dau fis o ddyddiad y daw'r ataliad i rym.

11.10.8 Apeliadau

Ni fydd unrhyw un o'r uchod yn atal Cynghorydd rhag gwasanaethu fel Aelod o bwyllgor apêl neu gorff a sefydlwyd i ystyried apêl gan:

(a) unrhyw unigolyn yn erbyn unrhyw benderfyniad yn ymwneud â phenodi'r unigolyn hwnnw yn Aelod o staff yr awdurdod; neu

(b) Aelod o staff yr awdurdod yn erbyn unrhyw benderfyniad yn ymwneud â diswyddo neu gymryd camau disgyblu yn erbyn yr Aelod hwnnw o staff oni bai bod y diswyddo'n gysylltiedig â mater yn ymwneud â gallu, camymddwyn, rhyw reswm perthnasol arall, rhyw ddeddfiad statudol arall neu ymddeoliad a gynlluniwyd lle y rhoddwyd llai na chwe mis o rybudd i'r Aelod o staff. Yn yr achosion hyn, cynhelir yr apêl gan uwch Swyddog.

# PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION

- Ceir manylion am gyfansoddiad y pwyllgor hwn yn Adran 9 y Cyfansoddiad.
- Mae'r tabl isod yn rhestru'r swyddogaethau penodol sydd wedi eu dirprwyo i'r Pwyllgor. Yn y drydedd golofn nodir os yw'r swyddogaeth wedi ei dirprwyo ymlaen i Brif Swyddog. Ceir manylion pellach am hawliau'r Prif Swyddog, gan gynnwys unrhyw gyfyngiad ar ei hawl i weithredu, yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion (Atodiad 3 i Adran 13 o'r Cyfansoddiad).

| **Swyddogaeth** | **Darpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol** | ***Dirprwyo -*** *(yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo* i *Swyddogion)* |
|---|---|---|
| 1. Rhoddi cyfweliad rhagarweiniol i ymgeiswyr am swydd y Prif Weithredwr a chyflwyno argymhellion i'r Cyngor Llawn | | |
| 2. Penodi Cyfarwyddwyr Strategol | | |
| 3. Penodi Penaethiaid Adran | | |
| 4. Penodi Pennaeth Gwasanaeth Democrataidd | | |
| 5. Penodi Swyddog Monitro | | |
| 6. Tynnu rhestr fer at ddibenion 1 i 5 uchod. | | |
| 7. Penderfynu ar gamau disgyblaeth yn erbyn aelodau o staff yn y swyddi a restrir yn 1 i 3 uchod. | | |
| 8. Adolygu cynaliadwyedd y polisi tâl a gwneud argymhellion i'r Cyngor Llawn | | |

**Atodiad 3**

**RHEOL GWEITHDREFN 9.12.3**

(5) Ni chaiff yr un aelod wasanaethu fel cadeirydd mwy nag un pwyllgor. Ni fydd y ddarpariaeth hon yn rhwystro aelod sy'n gadeirydd pwyllgor rhag cymryd y gadair mewn pwyllgor dan baragraff (2), na rhag gwasanaethu fel cadeirydd y Pwyllgorau Trwyddedu Canolog a Thrwyddedu Cyffredinol yr un pryd.

**Atodiad 4**

**RHEOL SEFYDLOG 4.17 PRESENOLDEB O BELL**

4.17.1 Darperir cyfarpar fideo-gynadledda yn swyddfeydd y Cyngor yn Nolgellau a Phwllheli ac yn Siambr Dafydd Orwig a Siambr Hywel Dda yng Nghaernarfon i ganiatáu i aelodau ymuno â phwyllgorau heb fod yn bresennol yn ystafell y cyfarfod (“ymuno o bell”), ar yr amodau canlynol.

4.17.2 Dim ond yn y pwyllgorau craffu, y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a’r Pwyllgor Iaith y bydd modd i aelod ymuno o bell.

4.17.3 Rhaid i aelod sy’n dymuno ymuno o bell mewn pwyllgor roi o leiaf ~~5~~ 4 niwrnod o rybudd i’r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd. O dderbyn rhybudd yn unol â’r rheol hon bydd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn gwneud y trefniadau angenrheidiol (gan gynnwys unrhyw ddarpariaeth gyfieithu) i ganiatáu i’r aelod ymuno o bell.

~~4.17.4 Ni fydd aelod sy’n ymuno o bell yn cyfrif tuag at gworwm y cyfarfod.~~

4.17.5 Ni fydd cworwm yn y cyfarfod ar unrhyw adeg pan fydd y nifer o aelodau sy’n mynychu yn yr ystafell lle cynhelir y cyfarfod yn llai na [30%]* o’r holl aelodau sy’n mynychu’r cyfarfod (boed yn yr ystafell gyfarfod neu’n ymuno o bell)

4.17.6 Ni fydd unrhyw ddiffyg yn y ddarpariaeth dechnolegol (pa un ai yw hynny’n arwain at golli cysylltiad yn llwyr neu’n rhannol) yn annilysu unrhyw ran o’r trafodaethau nac yn amharu ar unrhyw bleidlais a gymerir. Caiff y Cadeirydd ohirio’r cyfarfod os yw o’r farn fod hynny’n briodol

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR :** | **Y Cyngor** |
| **DYDDIAD :** | **9 Hydref 2014** |
| **TEITL :** | **Penodi Aelod Etholedig i'r Pwyllgor Safonau** |
| **PWRPAS:** | **Penodi Aelod i'r Pwyllgor Safonau** |
| **AWDUR :** | **Iwan Evans, Swyddog Monitro** |

**Cefndir**

1.Mae naw aelod ar y Pwyllgor Safonau, sef

- 5 'Aelod Annibynnol' (h.y. aelodau sydd heb unrhyw gysylltiad â llywodraeth leol)
- 1 'Aelod Pwyllgor Cymunedol' sy'n aelod o un o gynghorau cymuned Gwynedd (ond heb fod yn aelod o Gyngor Gwynedd)
- 3 aelod etholedig o Gyngor Gwynedd.

2. Mae lle gwag wedi codi ar y pwyllgor ar gyfer aelod etholedig o Gyngor Gwynedd. Y ddau aelod etholedig arall ar y Pwyllgor yw'r Cyng. Eryl Jones-Williams a'r Cyng. Michael Sol Owen.

3. Yn unol â'r drefn a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn, ysgrifennais at bob aelod o'r Cyngor i wahodd ceisiadau, ac yna cyflwyno'r ceisiadau a dderbyniwyd i Grŵp Busnes Y Cyngor am ystyriaeth. Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno argymhelliad y Grŵp Busnes i'r Cyngor Llawn, sydd â'r hawl i wneud y penodiad.

4. Penodir aelodau i'r Pwyllgor, nid ar sail cydbwysedd gwleidyddol, ond drwy ystyried y meini prawf a sefydlwyd gan y Cyngor, sef bod rhaid meddu ar y nodweddion a sgiliau canlynol:-

- Sgiliau gwrando;
- Y gallu i ddeall a phwyso tystiolaeth;
- Y gallu i ffurfio barn wrthrychol a'i hesbonio drwy gyfeirio at y dystiolaeth;
- Sgiliau gweithio mewn tîm;
- Parchu pobl eraill a dealltwriaeth o ystyriaethau gwahaniaeth;
- Disgresiwn;
- Uniondeb Personol.

5. O dan y rheoliadau perthnasol gall aelod etholedig wasanaethu ar y Pwyllgor am gyfnod o ddim mwy na phedair blynedd neu tan yr etholiad llywodraeth leol cyffredin nesaf yn dilyn eu penodiad, p'un bynnag fo'r byrraf.

6. Derbyniwyd dau gais, a phenderfynodd  y Grŵp Busnes fod y ddau ymgeisydd yn cwrdd â’r meini prawf ac yn deilwng o gael eu penodi i’r Pwyllgor. Ers hynny, mae un ymgeisydd wedi tynnu ei enw yn ôl. Argymhellir felly y dylid penodi'r ymgeisydd arall, sef y Cyng. Lesley Day, yr aelod dros Garth, Bangor, i wasanaethau ar y Pwyllgor Safonau.

**Argymhelliad**

7. Penodi’r Cynghorydd Lesley Day i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau fel Aelod Etholedig am gyfnod o o bedair blynedd neu tan yr etholiad llywodraeth leol cyffredin nesaf yn dilyn ei phenodiad, p’un bynnag fo’r byrraf.

**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Y Cyngor |
| **DYDDIAD** | 9 Hydref 2014 |
| **TEITL** | Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 2013/14 |
| **PWRPAS** | Cymeradwyo'r ddogfen yn ddarlun cytbwys, teg a chywir o berfformiad y Cyngor yn ystod 2013/14, a'i fabwysiadu. |
| **AWDUR** | Geraint George, Pennaeth Strategol a Gwella |
| **AELOD CABINET** | Y Cynghorydd Dyfed Edwards, Arweinydd y Cyngor |
| **ARGYMHELLIAD** | Mabwysiadu'r adroddiad |

## 1.0 CEFNDIR

1.1. Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau er mwyn sicrhau gwelliant parhaus, a bod yn atebol amdano. Rydym wedi cyfarch hyn drwy gyhoeddi Cynllun Strategol y Cyngor 2013-17. Cyflwynir yma Adroddiad Perfformiad y Cyngor 2013/14, sydd yn adrodd ar berfformiad y Cyngor yn erbyn y Cynllun Strategol yn ystod y flwyddyn honno.

1.2 Mae'r broses o fod yn atebol dros berfformiad yn digwydd mewn dau gam:

Cam 1 - Yr angen i awdurdodau gyhoeddi eu cynlluniau ar gyfer gwella, gan gynnwys cyfres o amcanion gwella (ein Cynllun Strategol).

Cam 2 - Yr angen i awdurdodau gyhoeddi asesiad o berfformiad yng nghyswllt eu cynlluniau a'u hamcanion gwella (Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 2013/14).

1.3 Gofynnir i awdurdodau gyhoeddi'r asesiad o'u perfformiad o fewn blwyddyn ariannol cyn 31 Hydref y flwyddyn ganlynol.

1.4 Yn unol â'r gofynion, mae angen i'r Cyngor sicrhau fod cynnwys yr adroddiad yn rhoi darlun cytbwys, teg a chywir o berfformiad y Cyngor.

## 2.0 Y CYNNWYS

2.1 Mae'r adroddiad yn darparu manylion am berfformiad y Cyngor yn erbyn yr hyn roedd yn bwriadu ei gyflawni am y flwyddyn, sef yr amcanion gwella. Mae hefyd yn cynnwys manylion ynghylch sut y gwnaeth y Cyngor fesur ei gynnydd yn erbyn yr hyn roedd wedi dweud yr oedd am ei wneud, sef y mesuryddion perfformiad. Mae'r adroddiad yn cwmpasu perfformiad 2013/14.

2.2 Mae'r adroddiad yn dangos fesul maes:

- Ein gweledigaeth
- Ein blaenoriaethau a'n canlyniadau: Yr hyn gafodd ei gyflawni, pwy sydd wedi elwa, a'r hyn sydd angen sylw pellach.

2.3 Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys manylion am gynnydd yn erbyn mesuryddion perfformiad allweddol y Cyngor a'r Mesuryddion Strategol Cenedlaethol (NSIs).

2.4 Ystyriwyd yr adroddiad gan y Fforwm Craffu yn ei gyfarfod ar 27 Mehefin 2014, a gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 16 Medi 2014. Mae'r adroddiad a gyflwynir yn ymgorffori addasiadau y cytunwyd y gellid eu cyflawni yn dilyn y cyfarfodydd hynny.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Gofynnir i'r Cyngor gymeradwyo'r adroddiad yn adlewyrchiad cytbwys, teg a chywir o berfformiad y Cyngor yn ystod 2013/14, a'i fabwysiadu.

# Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 2013/14

www.gwynedd.gov.uk/perfformiad

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# MYNEGAI


| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|
| Nôd y Cyngor | 03 |
| Rhagair Arweinydd y Cyngor | 04 |
| Prif Ddigwyddiadau 2013/14 | 05 |
| Trosolwg Perfformiad | 06 |
| Cyllideb y Cyngor | 11 |
| Barn Trigolion Gwynedd | 12 |

**Prosiectau Cynllun Strategol y Cyngor (fesul Maes)**

| | |
|---|---|
| Plant a Phobl Ifanc | 13 |
| Gofal, Iechyd a Lles | 22 |
| Yr Economi | 32 |
| Yr Amgylchedd | 39 |
| Cymunedau Cryf | 49 |
| Diwylliant a Threfniadau Busnes y Cyngor | 56 |
| Rhestr Termau | 63 |


Ceir esboniad/diffiniad llawn o unrhyw eiriau a ddynodir gydag * yn y rhestr termau.

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:

Hawis Jones
Rheolwr Gwella Perfformiad ac Effeithlonrwydd
Swyddfa'r Cyngor
Stryd y Jêl
Caernarfon
Gwynedd
LL55 ISH

Ffôn: 01286 679661
perfformiad@gwynedd.gov.uk

**I gael copi o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille, ar dâp sain neu mewn iaith arall, cysylltwch â Hawis Jones ar 01286 679661.**

Argraffwyd ar bapur wedi ei ailgylchu

# NÔD Y CYNGOR

## 'Y GORAU AR GYFER POBL GWYNEDD HEDDIW AC YFORY'

Yn 2010, adolygwyd Gwerthoedd y Cyngor a chafwyd llu o awgrymiadau gan drigolion Gwynedd, staff y Cyngor ac aelodau. Wedi llawer o waith dadansoddi a thrafod, mabwysiadwyd 5 gwerth ar gyfer Cyngor Gwynedd wedi ei seilio ar yr egwyddor ganolog

## Gwerthoedd y Cyngor

### PARCH
Parchu ein pobl, ein hiaith a'n hamgylchedd

### POSITIF
Llwyddwn trwy fod yn bositif

### GWERTH AM ARIAN
Gwneud y gorau gydag adnoddau Gwynedd

### GWASANAETHU
Gwasanaethau o'r ansawdd gorau i'n cwsmeriaid

### GWEITHIO FEL TÎM
Cydweithio i gyflawni dros Wynedd

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau er mwyn sicrhau gwelliant parhaus, a bod yn atebol amdano. Rydym yn gwneud hyn drwy'r Cynllun Strategol a thrwy ein hadroddiad blynyddol ar berfformiad a gyflwynir yma.

Mae'r broses o fod yn atebol dros berfformiad yn digwydd mewn dau gam:

- **Cam 1**: Yr angen i awdurdodau gyhoeddi eu cynlluniau ar gyfer gwella, gan gynnwys cyfres o amcanion gwella (ein Cynllun Strategol).
- **Cam 2**: Yr angen i awdurdodau gyhoeddi adroddiad perfformiad yng nghyswllt eu cynlluniau a'u hamcanion gwella (Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 2013/14).

# RHAGAIR ARWEINYDD Y CYNGOR



Mae cyflwyno Adroddiad Blynyddol Cyngor Gwynedd 2013/14 yn gyfle i ni gymryd cam yn ôl o'n gwaith dydd i ddydd a bwrw golwg ar ein gwaith fel Cyngor. Mae'r adroddiad yn crynhoi perfformiad Cyngor Gwynedd ac yn ymgais deg iawn i dynnu sylw at unrhyw ragoriaethau tra'n tanlinellu y mannau hynny ble mae angen i ni wella. Fel pob adroddiad allanol, mae'r cynnwys yn adnodd i ni ddefnyddio er mwyn dysgu ohono a pharhau i wella gan sicrhau'r gwasanaethau cyhoeddus gorau posibl i bobl Gwynedd, a hynny o fewn cyfnod hynod ansicr i awdurdodau lleol. Mae llwyddo o fewn amgylchiadau felly yn sicr yn destun diolch ac mae lle i ni gydnabod cyfraniad staff y Cyngor, aelodau Cabinet, yr aelodau etholedig ar draws y sir a'r bartneriaeth sydd gennym gyda nifer o asiantaethau allweddol.

Mae angen i ni barhau i wella mewn rhai meysydd wrth gwrs. Yn gyffredinol mae angen i ni sianelu ein hadnoddau – ariannol a dynol – i sicrhau ein bod yn gwneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl Gwynedd. Yn y dyddiau hyn o gwtogi ar arian cyhoeddus a phwysau ychwanegol yr argyfwng economaidd, mae rhaid i ni fel Cyngor weithredu mewn ffordd sydd yn sicrhau gwasanaethau rheng flaen gynaliadwy i'r dyfodol.

Ni all hyn ddigwydd heb y bartneriaeth allweddol gyda phobl Gwynedd. Mae nifer o'n cymunedau dan bwysau ac mae natur y berthynas rhwng y dinesydd a'r sector cyhoeddus yn newid. Yn y dyddiau heriol hyn, teimlaf fod cyfle i ni ailgydio yn ysbryd mentrus y sir unigryw hon – ysbryd caban y chwarel, ac ysbryd cydweithredol nifer o'n cymunedau – a hynny er mwyn cynorthwyo i gynnal y gwead cymdeithasol-economaidd yma sydd mor bwysig i Wynedd. Partneriaeth felly fydd yn ein galluogi i gyflawni er gwaetha'r wasgfa ariannol.

# PRIF DDIGWYDDIADAU 2013/14

## Ebrill



Cynllun Tai Gofal
Cae Garnedd,
Penrhosgarnedd, Bangor.

## Mai



Pont Tonfannau, Tywyn

## Mehefin



Etape Eryri, Llanberis

## Gorffennaf




Antur Stiniog,
Blaenau Ffestiniog

## Awst



Pencampwriaeth Hwylio
Ieuenctid Ewrop, Pwllheli

## Medi



Ysgol Craig
Y Deryn, Bro Dysynni

## Hydref




Canolfan Biomass
GwyriAD, Clynnog Fawr

## Tachwedd



Prosiect adeiladu ysgol
gynradd yng Nghaernarfon yn
ennill gwobr gwerth gorau yn
y Deurnas Unedig.

## Rhagfyr



Cynllun Peilot Eryrod Eira,
Y Bala

## Ionawr



Cyflwyno astudiaeth
opsiynau Trawsfynydd
i'r Gweinidog

## Chwefror

FFORDD GWYNEDD

Rhoi pobl Gwynedd yn
ganolog i bopeth rydym
yn ei wneud

## Mawrth



Lansio Llwybrau Beic,
Coed y Brenin, Dolgellau

# TROSOLWG PERFFORMIAD

## Prosiectau Strategol y Cyngor


Mae'r tabl hwn yn dangos llwyddiant prosiectau Cynllun Strategol y Cyngor sydd yn cyfrannu at wella'r canlyniadau i bobl Gwynedd.


| **Maes Strategol** | **Gwyrdd** wedi cyrraedd uchelgais y flwyddyn | **Ambr** wedi gwneud cynnydd sylweddol at uchelgais y flwyddyn | **Coch** heb gyflawni uchelgais y flwyddyn | **CYFANSWM** |
|---|---|---|---|---|
| Plant a Phobl Ifanc | 5 | 0 | 0 | 5 |
| Gofal, Iechyd a Lles | 3 | 0 | 1 | 4 |
| Yr Economi | 4 | 1 | 0 | 5 |
| Yr Amgylchedd | 7 | 1 | 1 | 9 |
| Cymunedau Cryf | 2 | 3 | 1 | 6 |
| Y Cyngor | 3 | 3 | 0 | 6 |
| **CYFANSWM** | **24** | **8** | **3** | **35** |

# TROSOLWG PERFFORMIAD

## Mesuryddion Allweddol y Cyngor 2013/14

Mae'r graffiau isod yn dangos perfformiad mesuryddion allweddol y Cyngor yn ein meysydd Strategol.




## Dangosyddion Strategol Cenedlaethol 2013/14

Mae'r tabl hwn yn dangos faint o ddangosyddion perfformiad strategol Llywodraeth Cymru Cyngor Gwynedd sydd yn well, yr un fath, neu yn waeth na chyfartaledd Cymru yn 2013/14.

| Gwell | Yr un fath | Gwaeth | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 17 | 0 | 13 | 30 |

# TROSOLWG PERFFORMIAD

**Cynllun Strategol 2013-17 yw prif gynllun Cyngor Gwynedd.**

Yn 2013/14 , roedd y Cynllun Strategol yn gosod blaenoriaethau'r Cyngor ac yn disgrifio'r hyn y byddai'r Cyngor yn ei wneud yn y flwyddyn honno er mwyn eu cyflawni. Rhain oedd Amcanion Gwella'r Cyngor a oedd yn weithredol o Ebrill 2013.

Nod y Cyngor oedd sicrhau **Y Gorau i Bobl Gwynedd Heddiw ac Yfory.** Roedd angen cyflawni hyn o ddydd i ddydd, gan gydnabod hefyd amgylchiadau arbennig y cyfnod dan sylw.

Y bygythiad mwyaf i gynaliadwyedd a gwelliant gwasanaethau yn 2013/14 oedd y cyfuniad o alw cynyddol am wasanaethau a'r gostyngiad sylweddol yn adnoddau'r Cyngor. Roedd y Cynllun Strategol yn mynd i'r afael â'r her hon drwy newid model busnes y Cyngor mewn ffordd sylfaenol. Un nodwedd allweddol oedd yr angen i weithio'n fwy effeithiol gyda phartneriaid, unigolion a chymunedau i atal a lleihau'r galw am wasanaethu drwy ymyrryd yn gynnar,. Fel bo problemau yn dod yn amlwg, gall mwy o bobl gael eu cefnogi i helpu eu hunain. Felly, y weledigaeth gyffredinol ar gyfer y cyfnod oedd:

**Cefnogi pobl Gwynedd i ffynnu mewn cyfnod anodd**

Ar 19 Medi 2013, derbyniodd y Cyngor Llawn adroddiad ar yr her ariannol a oedd yn wynebu'r Cyngor. Fel canlyniad i'r drafodaeth honno, cytunodd y Cyngor y dylid ail-ymweld â'r Cynllun Strategol i adnabod pa gynlluniau a oedd yn hollol angenrheidiol eu cyflawni a pha rai y gellid eu hail ystyried.

Yn ei gyfarfod ar 5 Rhagfyr 2013, mabwysiadodd y Cyngor fersiwn ddiwygiedig o'r Cynllun Strategol. Pwrpas yr adroddiad hwn yw adrodd yn ôl ar yr addewidion a gafodd eu cynnwys yn y cynllun hwnnw.

Wrth adrodd ar ein perfformiad yn erbyn y Cynllun Strategol ar ddiwedd y flwyddyn, rydym yn gallu adrodd bod 32 prosiect allan o gyfanswm o 35 (91%), wedi cyrraedd uchelgais y flwyddyn, neu wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at gyrraedd uchelgais y flwyddyn. Mae hyn yn cymharu gydag 89% yn 2012/13.

Mae'r meysydd sydd angen sylw pellach i'w gweld o fewn y blaenoriaethau unigol.

# TROSOLWG PERFFORMIAD

O fesuryddion allweddol y Cyngor sydd wedi adrodd, mae canlyniadau 56% ohonynt wedi cyflawni eu huchelgais gyda 12% o fewn lefel derbyniol, â 15% pellach wedi adrodd ac yn gosod gwaelodlin.

Yn y maes **Plant a Phobl Ifanc**, rydym wedi bod yn gweithio tuag at **gefnogi pob plentyn a person ifanc i fyw bywydau cyflawn.**

Rydym yn gallu adrodd bod 100% o brosiectau y maes yma wedi cyflawni'n llwyddiannus.

Mae disgyblion wedi elwa drwy inni osod targedau clir ac asesu a thracio cynnydd yn y maes yma. Llwyddwyd i gynnal y canran o ddisgyblion15 oed yn cyrraedd y safon Trothwy Lefel 2+ (5 gradd TGAU (A*-C) yn cynnwys Mathemateg, Cymraeg a Saesneg.

Derbyniwyd barn arolygwyr Estyn fod ein darpariaeth addysg yn ddigonol, gyda rhagolygon i wella sydd hefyd yn ddigonol.

Yn y maes **Gofal, Iechyd a Lles**, rydym wedi bod yn gweithio i **gefnogi plant a phobl fregus i fyw bywydau cyflawn** ac i **ysbrydoli pobl Gwynedd i fyw bywydau iach.**

Rydym yn gallu adrodd bod 75% o brosiectau yn y maes yma wedi cyflawni'n llwyddiannus.

Mae annibyniaeth a diogelwch defnyddwyr wedi ei hybu wrth i 80 o becynnau teleofal cymhleth gael eu darparu o'r newydd, yn arbennig yn y maes Anabledd Dysgu. Yn ychwanegol at hyn, mae trigolion sy'n cael eu heffeithio gan newidiadau ym maes gofal oedolion a phobl hŷn wedi gwerthfawrogi cael eu barn wedi ei glywed.

Rydym hefyd yn gweithio ar y meysydd i wella y mae llythyr blynyddol Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyfeirio atynt.

Yn y maes **Economi**, rydym wedi bod yn gweithio i **wella'r cyfleoedd i bobl Gwynedd fyw, gweithio a llwyddo'n lleol.**

# TROSOLWG PERFFORMIAD

Rydym yn gallu adrodd bod 80% o brosiectau y maes yma wedi cyflawni'n llwyddiannus, gyda 20% pellach yn gwneud cynnydd derbyniol.

Manteisiodd 110 o fusnesau lleol o'r don gyntaf o weithdai a sesiynau un i un *Gwynedd Ddigidol* ar gyfer dod ag E.fasnachu yn rhan o'r busnes.

Yn maes yr **Amgylchedd** rydym wedi bod yn gweithio tuag at **hybu cyflenwad addas o gartrefi i bobl Gwynedd** a **hybu amgylchedd diogel a chynaliadwy gyda chysylltiadau hwylus.**

Rydym yn gallu adrodd bod 78% o brosiectau yn y maes yma wedi cyflawni'n llwyddiannus, gyda 11% pellach yn gwneud cynnydd derbyniol. Gwelir bod 54 o unedau tai gwag wedi dod nôl i ddefnydd.

Mae'r graff ar dudalen 48 yn dangos cynnydd yn y gwastraff sy'n cael ei ailddefnyddio/ailgylchu a chompostio yng Ngwynedd, ond bydd angen parhau i wella os am osgoi dirwy.

Yn maes **Cymunedau Cryf** rydym wedi bod yn **cydweithio i greu dyfodol hyderus a Chymraeg** a **lleihau effaith amddifadedd ar bobl Gwynedd.**


Rydym yn gallu adrodd bod 33% o brosiectau yn y maes yma wedi cyflawni'n llwyddiannus, gyda 50% pellach yn gwneud cynnydd derbyniol.

Gwelwyd lleihad yng nghyfartaledd nifer y diwrnodau y mae pob teulu digartref gyda phlant wedi eu treulio mewn llety gwely a brecwast o 41 i 22.

Mae'r Cyngor yn parhau â'i weledigaeth o roi **pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud** ac wedi gwireddu £3.3miliwn o arbedion a datblygu cynlluniau effeithlonrwydd cyfwerth â £2filiwn i'w gwireddu yn 2014/15. Rydym hefyd wedi llwyddo i ennill y swm llawn o £1.3miliwn drwy Gytundeb Canlyniadau gyda'r Llywodraeth a'n perfformiad ar brosiectau a mesuryddion cysylltiedig. Mae Cynllun Strategol 2014/15 yn mynd â ni ymhellach ar y daith honno.

# CYLLIDEB Y CYNGOR

Roedd gwariant Gwynedd llynedd oddeutu £235miliwn. Mae hyn yn golygu fod y Cyngor, ar gyfartaledd wedi gwario tua £1922 ar bob person sy'n byw yn y sir. Dyma sut y gwariwyd y gwerth yma.



# BARN TRIGOLION GWYNEDD

## CYF09 Canran o drigolion Gwynedd sy'n fodlon gyda'r ffordd y mae Cyngor Gwynedd yn rhedeg pethau

| | 2012/13 | 2013/14 |
|---|---|---|
| Bodlon a Bodlon Iawn | 58% | 64% |
| Ddim yn Fodlon nac Anfodlon | 27% | 25% |
| Anfodlon ac Anfodlon Iawn | 15% | 11% |

Gweler mesuryddion barn trigolion Gwynedd ym maes Diwylliant a Threfniadau Busnes y Cyngor ar dudalen 57.

## CYF10 Canran o drigolion Gwynedd yn teimlo ei fod yn bosib iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal leol

| | 2012/13 | 2013/14 |
|---|---|---|
| Bodlon a Bodlon Iawn | 33% | 32% |
| Ddim yn Fodlon nac Anfodlon | 26% | 28% |
| Anfodlon ac Anfodlon Iawn | 41% | 40% |

## CYF11 Canran o drigolion Gwynedd sydd yn credu bod y Cyngor yn cynnig gwerth am arian

| | 2012/13 | 2013/14 |
|---|---|---|
| Bodlon a Bodlon Iawn | 50% | 55% |
| Ddim yn Fodlon nac Anfodlon | 28% | 31% |
| Anfodlon ac Anfodlon Iawn | 22% | 14% |

Mae barn trigolion Gwynedd yn cael ei gasglu gan Banel Trigolion Cyngor Gwynedd. Mae'r panel yn ddyraniad o oddeutu mil o drigolion y Sir. Pwrpas y Panel yw canfod barn trigolion er mwyn gwella gwasanaethau.

Mae modd ymuno â'r Panel Trigolion drwy gysylltu â Galw Gwynedd ar 01766 771000.

# PLANT A PHOBL IFANC

## Gweledigaeth

- Cefnogi pob plentyn a pherson ifanc i fyw bywydau cyflawn

## Blaenoriaeth

P1 - Codi safonau addysgol plant a phobl ifanc

P2 - Unioni cyfleoedd i grwpiau bregus o blant, pobl ifanc a theuluoedd

P3 - Gwella addasrwydd y gyfundrefn ysgolion

P4 - Paratoi pobl ifanc yn well ar gyfer bywyd a gwaith







## Canlyniadau

- ◊ Bydd safonau addysg plant a phobl ifanc wedi codi
- ◊ Cyrhaeddiad disgyblion bregus wedi gwella
- ◊ Mwy o deuluoedd yn hyderus, meithringar a gwydn
- ◊ Gwaharddiadau parhaol mewn ysgolion wedi eu dileu a chynnydd ym mhresenoldeb disgyblion
- ◊ Gwell profiadau i blant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol
- ◊ Addasrwydd y gyfundrefn ysgolion wedi gwella
- ◊ Pobl ifanc wedi eu harfogi gyda sgiliau gwaith a bywyd priodol

| Allwedd | |
|---|---|
| - | Dim Data |

# PLANT A PHOBL IFANC

| Prosiect | Prosiectau Cynllun Strategol | 2013/14 |
|---|---|---|
| P2.1 | Prosiect Gyda'n Gilydd - Tîm o Amgylch y Teulu Gwynedd | Gwyrdd |
| P2.2 | Prosiect Cynhwysiad ac Ymddygiad | Gwyrdd |
| P2.3 | Prosiect Anghenion Dysgu Ychwanegol | Gwyrdd |
| P3.1 | Prosiect Trefniadaeth Ysgolion | Gwyrdd |
| P3.2 | Prosiect Darpariaeth Addysg ôl-16 | Gwyrdd |




| Prosiect | Cyfeirnod | Mesuryddion Allweddol (Cynllun Strategol) | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | Uchelgais 2013/14 | Cyfartaledd Cymru 2013/14 | Cyfartaledd Teulu 2013/14 | Tuedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| P2.1 | DCh26 | Nifer o deuluoedd sydd wedi derbyn cefnogaeth drwy Gynllun Gyda'n Gilydd | - | - | 509.00 | 120.00 | - | - | - |
| P2.2 | EDU/010bN | Nifer y diwrnodau ysgol wedi'u colli o ganlyniad i waharddiadau cyfnod penodol yn ystod y flwyddyn academaidd, mewn ysgolion uwchradd | 704.50 | 706.50 | 320.00 | 476.00 | 1366.85 | 574.88 | Gwella |
| P2.2 | EDU/008bN | Nifer gwaharddiadau parhaol yn ysgolion uwchradd | 7.00 | 15.00 | 4.00 | 5.00 | - | - | Gwella |
| P3.1 | DA04 | Canran y llefydd gweigion yn ysgolion Gwynedd | 25.90 | 25.95 | 20.70 | 24.00 | - | - | Gwella |
| P4 | DGD17 | Canran y bobl ifanc 16 - 18 oed nad ydynt mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant | 3.60 | 3.04 | 3.00 | 3.00 | 4.20 | - | Gwella |
| P4 | P4a | Canran Hawlwyr Lwfans Ceiswyr Gwaith o dan 25 oed | 5.40 | 4.90 | 4.10 | 4.90 | 6.30 | - | Gwella |

| Allwedd | |
|---|---|
| - | Dim Data |

# PLANT A PHOBL IFANC

| Prosiect | Cyfeirnod | Mesuryddion Allweddol (Cynllun Strategol) | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | Uchelgais 2013/14 | Cyfartaledd Cymru 2013/14 | Cyfartaledd Teulu 2013/14 | Tuedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| P1 | EDU/017 | Canran y disgyblion 15 oed ar y 31ain Awst blaenorol, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol a gyflawnodd y trothwy Lefel 2 gan gynnwys gradd A*-C TGAU mewn Cymraeg mamiaith neu Saesneg a Mathemateg | 53.39 | 54.99 | 57.98 | 60.00 | 52.49 | 55.73 | Gwella |
| P1 | GY26 | Canran o ddisgyblion yn cyrraedd safon Lefel 2 (gradd A*-C) mewn Mathemateg | 57.00 | 58.68 | 62.17 | 63.70 | 60.31 | 69.01 | Gwella |
| P2.2 | EDU/010aN | Nifer y diwrnodau ysgol wedi'u colli o ganlyniad i waharddiadau cyfnod penodol yn ystod y flwyddyn academaidd, mewn ysgolion cynradd | 80.50 | 126.50 | 111.50 | 83.50 | 228.00 | 118.86 | Gwella |
| P2.2 | EDU/016b | Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd | 91.90 | 92.10 | 93.40 | 95.00 | 92.62 | 92.82 | Gwella |
| P3.1 | Adn23 | Amrediad yng nghost y pen fesul disgybl ar draws ysgolion y sir | - | - | £2936 - £10616 | Gosod Gwaelodlin | - | - | - |
| P3.1 | Adn24 | Canran yr arbedion a ddaw yn sgil ad-drefnu sydd yn cael ei ail-gyfeirio nol i'r ysgolion | - | - | 80.00 | Gosod Gwaelodlin | - | - | - |

| Cyfeirnod | Mesuryddion Allweddol Eraill | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | Uchelgais 2013/14 | Cyfartaledd Cymru 2013/14 | Cyfartaledd Teulu 2013/14 | Tuedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| EDU/002i | Canran yr holl ddisgyblion (gan gynnwys y rhai sydd yng ngofal awdurdod lleol); sydd mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, a hwythau'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol ac sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster allanol | 0.21 | 0.00 | 0.00 | 0% - 0.21% | 0.40 | 0.21 | Cynnal |
| EDU/002ii | Canran y disgyblion sydd yng ngofal awdurdodau lleol, sydd mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, a hwythau'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol ac sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster allanol | 0.00 | 0.00 | 6.30 | 0% - 6.5% | 5.70 | - | Gwaethygu |

| Allwedd | |
|---|---|
| - | Dim Data |

# PLANT A PHOBL IFANC

| Cyfeirnod | Mesuryddion Allweddol Eraill | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | Uchelgais 2013/14 | Cyfartaledd Cymru 2013/14 | Cyfartaledd Teulu 2013/14 | Tuedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| GY25 | Canran gwahaniaeth rhwng perfformiad disgyblion sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim a disgyblion nad ydynt yn gymwys am brydau ysgol am ddim CA4 yn y dangosydd TL2+ (EDU/017) | 32.79 | 36.04 | 32.20 | 32% - 34% | 33.22 | - | Gwella |
| GY01 | Cyfartaledd Sgôr Pwyntiau wedi'i gapio ar sail 8 TGAU yn CA4 (14-16 oed) | 327.00 | 323.53 | 353.01 | 343.00 | 333.06 | 363.62 | Gwella |
| DANS12 | Nifer ysgolion uwchradd yn un o gategorïau ESTYN [gwelliant sylweddol a mesurau arbennig] | 0.00 | 2.00 | 1.00 | 1.00 | - | - | Gwella |
| DANS11 | Nifer ysgolion cynradd yn un o gategorïau ESTYN [gwelliant sylweddol a mesurau arbennig] | 1.00 | 1.00 | 4.00 | 1.00 | - | - | Gwaethygu |

| Cyfeirnod | Dangosyddion Strategol Cenedlaethol | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | Uchelgais 2013/14 | Cyfartaledd Cymru 2013/14 | Cyfartaledd Teulu 2013/14 | Tuedd | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| EDU/002i | Canran yr holl ddisgyblion (gan gynnwys y rhai sydd yng ngofal awdurdod lleol); sydd mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, a hwythau'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol ac sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster allanol | 0.21 | 0.00 | 0.00 | 0% - 0.21% | 0.31 | 0.08 | Cynnal | ↑ |
| EDU/002ii | Canran y disgyblion sydd yng ngofal awdurdodau lleol, sydd mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, a hwythau'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol ac sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster allanol | 0.00 | 0.00 | 6.30 | 0% - 6.5% | 2.00 | 0.69 | Gwaethygu | ↓ |

| Allwedd | |
|---|---|
| - | Dim Data |

# PLANT A PHOBL IFANC

| Cyfeirnod | Dangosyddion Strategol Cenedlaethol | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | Uchelgais 2013/14 | Cyfartaledd Cymru 2013/14 | Cyfartaledd Teulu 2013/14 | Tuedd | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| EDU/003 | Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd, fel y penderfynir gan Asesiadau Athrawon | 82.80 | 86.20 | 86.60 | 86.00 | 84.60 | 85.82 | Gwella | ↑ |
| EDU/011 | Cyfartaledd y sgôr pwyntiau ar gyfer disgyblion sy'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol | 484.00 | 525.40 | 578.20 | - | 505.30 | 535.61 | Gwella | ↑ |
| EDU/015b | Canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a ddyroddir o fewn 26 o wythnosau heb gynnwys eithriadau | 100.00 | 100.00 | 96.30 | 100.00 | 96.61 | 91.61 | Gwaethygu | ↓ |
| EDU/017 | Canran y disgyblion 15 oed ar y 31ain Awst blaenorol, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol a gyflawnodd y trothwy Lefel 2 gan gynnwys gradd A*-C TGAU mewn Cymraeg mamiaith neu Saesneg a Mathemateg | 53.39 | 54.99 | 57.98 | 60.00 | 52.49 | 55.73 | Gwella | ↑ |
| EDU/015a | Canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a ddyroddir o fewn 26 o wythnosau gan gynnwys eithriadau | 90.90 | 87.80 | 43.10 | 91.00 | 69.65 | 53.49 | Gwaethygu | ↓ |

# BLAENORIAETH P1 - CODI SAFONAU ADDYSGOL PLANT A PHOBL IFANC



## Beth gafodd ei gyflawni?

Gwaith cychwynnol yn unig ddigwyddodd yn 2013/14.

Derbyniodd yr Aelod Cabinet gyfres o wyth o argymhellion gan yr Ymchwiliad Craffu* Ansawdd Addysg. Ar sail yr argymhellion hyn cafodd cynllun gweithredu ei greu, sydd yn cynnwys y materion sydd angen sylw pellach.

## Pwy sydd wedi elwa?

Mae disgyblion yn elwa oherwydd bod:

- ◊ Uchelgais glir i wella sy'n cael ei rannu yn yr Awdurdod Addysg ac yn yr ysgolion.
- ◊ Gwaith gwella penodol mewn nifer bychan o ysgolion targed.
- ◊ Targedau clir, a threfn i asesu a thracio cynnydd a gweithredu wedi ei gosod ar eu cyfer.
- ◊ Cydweithio rhwng ysgolion yn cysoni safonau.
- ◊ Arferion da ar sail ymchwil yn cael eu defnyddio wrth adnabod y dulliau addysgu gorau.

## Beth sydd angen sylw pellach

- ◊ Datblygu gwell cysylltiadau gyda phenaethiaid ac ysgolion ar draws y sir a gydag ysgolion penodol y tu allan i'r sir ar sail eu hymarfer da.
- ◊ Gwella cydweithio ar draws ysgolion, a datblygiad proffesiynol parhaus athrawon a chymorthyddion. Tynnu sylw at arferion gorau ym maes addysg yng Nghymru.
- ◊ Gwneud cysylltiadau ag asiantaethau addysg leol a phob ysgol uwch-radd gan edrych ar systemau electronig tracio cyrhaeddiad addysgol disgyblion.

*"Mae gwella safonau addysg yn un o brif flaenoriaethau'r Cyngor. Roeddwn yn falch bod y Pwyllgor Craffu wedi penderfynu edrych yn drwyadl ar y maes hwn ac wedi llunio argymhellion fydd yn sicr o gyfrannu at wella ansawdd yr addysg yr ydym yn ei ddarparu yn y sir."*



**Y Cynghorydd Sian Gwenllian, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Addysg (2012-14).**

# BLAENORIAETH

## P2 - UNIONI CYFLEOEDD I GRWPIAU BREGUS O BLANT, POBL IFANC A THEULUOEDD

## Beth gafodd ei gyflawni?

Mae'r Cynllun Strategol wedi adnabod yr angen i gynyddu'r gefnogaeth gynnar i unigolion a theuluoedd er mwyn goresgyn anawsterau yn gynt ac yn fwy effeithiol. Ar sail hyn, cafodd y canlynol ei gyflawni yn 2013/14:

- Cefnogaeth i 509 o deuluoedd drwy brosiect Gyda'n Gilydd ar y cyd gyda'u partneriaid o'r sector wirfoddol.
- Lleihau gwaharddiadau parhaol o 15 i 4 drwy waith ar y cyd rhwng yr ysgolion a'r Awdurdod Lleol.
- Cefnogaeth ychwanegol i ddisgyblion bregus drwy'r Strategaeth Cynhwysiad sy'n dod ag adnoddau ychwanegol i ysgolion.
- Datblygu model newydd o ddarparu profiadau addysgol i blant ag anghenion dysgu ychwanegol.
- Datblygu cynllun ar gyfer sefydlu Canolfan Rhagoriaeth Addysg Arbennig* newydd ym Mhenrhyndeudraeth.
- Gwella presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd 1.3% i 93.4%.

## Beth sydd angen sylw pellach

- Niferoedd cyfeirio i Gyda'n Gilydd yn llawer yn uwch na'r cynllunio gwreiddiol ac yn gosod pwysau ychwanegol ar y prosiect. Bydd angen edrych yn fanwl ar anghenion y sawl sy'n cael eu cyfeirio er mwyn blaenoriaethu'r rhai â'r anghenion mwyaf.
- Nifer uwch o waharddiadau yn parhau mewn un ysgol yn y sir.

## Pwy sydd wedi elwa?

- Mae 93% o ddefnyddwyr Gyda'n Gilydd wedi dweud bod eu sefyllfa bersonol wedi gwella ar ôl derbyn cefnogaeth gan y gwasanaeth.
- Mae disgyblion ac ysgolion wedi elwa ar yr amgylchedd fwy braf sydd ar gyfer dysgu yn dilyn y gwaith mae ysgolion wedi ei wneud ar wella ymddygiad.
- Mae gwaith paratoi allweddol wedi ei wneud i wella'r ddarpariaeth i blant ag anghenion dysgu ychwanegol.
- Mae cynnydd mewn presenoldeb yn gwella cyrhaeddiad disgyblion.

## Teimlo'n Well

*Mae teuluoedd sydd yn rhan o brosiect "Gyda'n Gilydd" wedi adnabod cynnydd positif o 23% ar gyfartaledd mewn agweddau gwahanol o'u bywydau o gymharu â phan oeddent yn cychwyn gyda'r prosiect.*

*Mae'r cynnydd yma'n cael ei fesur gan y teuluoedd a'r prosiect mewn ffordd sy'n cynhyrchu sgôr. Mae'r sgôr yma'n un cadarnhaol iawn.*

# BLAENORIAETH P3 - GWELLA ADDASRWYDD Y GYFUNDREFN YSGOLION



## Beth gafodd ei gyflawni?

Mae Cynllun Strategol y Cyngor wedi mynd i'r afael â'r angen i godi ansawdd addysgu a chyflwr adeiladau ysgolion. Ar sail hyn, cafodd y canlynol ei gyflawni yn 2013/14:

◊ Agor Ysgol Ardal Craig y Deryn, Bro Dysynni a gwneud gwelliannau i Ysgol Penybryn, Tywyn ac i Ysgol O. M. Edwards Llanuwchllyn.
◊ Parhau gyda'r momentwm o wella cyfundrefn ysgolion y sir
◊ Cau wyth ysgol gynradd gan leihau'r nifer o lefydd gweigion i 21%.
◊ Cychwyn ar adolygu darpariaeth addysg uwchradd ym Meirionnydd gan gynnwys adolygu'r ddarpariaeth gydol oes yn ardal y Berwyn.
◊ Sefydlu Consortiwm Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 Gwynedd a Môn, gan ddarparu cwricwlwm ar y cyd ar gyfer yr holl ddysgwyr.

## Beth sydd angen sylw pellach

◊ Cynllunio ar gyfer datblygu cynllun addas ar gyfer addysg disgyblion cynradd dalgylch y Gader, yn ardal Dolgellau, oherwydd nad oedd yn bosib adeiladu ymhellach ar safle Ysgol Brithdir, Dolgellau.

◊ Roedd oedi gyda'r gwaith o greu system casglu data a gwybodaeth ar gyfer y Prosiect Consortiwm Ôl-16 - bydd y gwaith yn cael ei orffen yn 2014/15.

## Pwy sydd wedi elwa?

◊ Mae dysgwyr ôl-16 wedi dechrau manteisio ar y dewis ehangach ar draws sefydliadau'r Consortiwm Ôl-16 wrth baratoi at ddewis eu pynciau. Bydd y cyrsiau o fewn y drefn newydd yn cael eu dysgu o Fedi 2014 ymlaen.

◊ Mae disgyblion ac athrawon wedi elwa o godi safon adeiladau mewn pedair ysgol gynradd sydd wedi creu amgylchedd brafiach.

*Ysgol Craig y Deryn, Bro Dysynni*



# BLAENORIAETH P4 - PARATOI POBL IFANC YN WELL AR GYFER BYWYD A GWAITH

## Beth gafodd ei gyflawni?

Mae Cynllun Strategol y Cyngor wedi gweld yr angen i ddatblygu ymhellach y ddarpariaeth rhwng sefydliadau addysgol i gefnogi dysgwyr i wneud y gorau o'r cyfleoedd addysgol sy'n cael eu darparu o fewn y sir. Ar sail hyn, cafodd y canlynol ei gyflawni yn 2013/14:

- ◊ Cyflwyno Cynllun Fframwaith Ymgysylltu yn unol â chynllun darpariaeth Llywodraeth Cymru.
- ◊ Cwblhau Model 'Darpariaeth 5 Haen*', sef categoreiddio os yw pobl ifanc mewn gwaith, addysg ac hyfforddiant neu beidio. Mae hefyd yn cynnwys holl ddarpariaeth addysg, hyfforddiant a gwaith o fewn y sir.
- ◊ Cychwyn gwaith ar y 'Teclyn Adnabod Pobl Ifanc Bregus' gydag ysgolion y sir.
- ◊ Cychwyn trafod y 'Gwarant Ieuenctid*' gyda darparwyr addysg y sir.

## Beth sydd angen sylw pellach

Gwaith yn cael ei ddatblygu yw hwn, ac felly ni welwyd canlyniadau yn ystod 2013/14.

Bu cynnydd digonol ar y gweithgareddau yn ystod y flwyddyn ond disgwylir canlyniadau o 2014/15 ymlaen.

## Pwy sydd wedi elwa?

Gwaith yn cael ei ddatblygu yw hwn, mae'n rhy fuan i adnabod y budd i drigolion ar hyn o bryd.

Gyrfa Cymru Careers Wales

Cyngor Gwynedd Council

Grŵp Llandrillo Menai

# GOFAL, IECHYD A LLES

## Gweledigaeth

- Cefnogi plant a phobl fregus i fyw bywydau cyflawn
- Ysbrydoli pobl Gwynedd i fyw bywydau iach

## Blaenoriaethau

GOF1 - Ymateb yn well i anghenion pobl fregus i sicrhau gwasanaethau gofal cynaliadwy
GOF2 - Cynyddu gwaith ataliol ym maes gofal Oedolion a Phobl Hŷn
GOF3 - Amddiffyn plant ac oedolion
GOF4 - Cynyddu gwaith ataliol a thargedu anghydraddoldebau ym maes iechyd






## Canlyniadau


- ◊ Plant Gwynedd yn derbyn gwasanaeth effeithiol sy'n cynnig gwerth am arian
- ◊ Llais cryfach i ddefnyddwyr gwasanaethau cymdeithasol Gwynedd
- ◊ Darpariaeth addas o ofal yn y lleoliad cywir
- ◊ Pobl a phlant Gwynedd yn derbyn gwasanaeth gan weithlu hyderus a chymwys sy'n gallu ymateb i'w anghenion
- ◊ Pobl a phlant Gwynedd yn byw mewn cymunedau cryf sy'n gefnogol ac yn adeiladu ar gryfderau pobl
- ◊ Rhwydwaith o gefnogaeth ragweithiol ar gael i gynorthwyo oedolion a phobl hŷn fyw yn annibynnol heb ymyrraeth ffurfiol Gwasanaethau Cymdeithasol
- ◊ Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion Gwynedd yn fwy diogel
- ◊ Ystod o wasanaethau integredig gyda phartneriaid i wella cyfleon byw'n iach a phrofiad i unigolion
- ◊ Anghydraddoldebau Iechyd yn lleihau yng Ngwynedd
- ◊ Gwella Iechyd wedi'i brif-ffrydio drwy'r Cyngor

PLANT
GOFAL
ECON
AMG
CYM
CYNGOR

| Allwedd | |
|---|---|
| - | Dim Data |

# GOFAL, IECHYD A LLES

| Prosiect | Prosiectau Cynllun Strategol | 2013/14 |
|---|---|---|
| GOF1.2 | Prosiect Trawsnewid Gwasanaethau Pobl Hŷn | Gwyrdd |
| GOF1.3 | Prosiect Trawsnewid Gwasanaethau Anabledd Dysgu | Coch |
| GOF1.4 | Prosiect Strwythur Arweinyddiaeth | Gwyrdd |
| GOF3 | Prosiect Amddiffyn Plant ac Oedolion | Gwyrdd |




| Prosiect | Cyfeirnod | Mesuryddion Allweddol (Cynllun Strategol) | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | Uchelgais 2013/14 | Cyfartaledd Cymru 2013/14 | Cyfartaledd Teulu 2013/14 | Tuedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| GOF1.2 a GOF 1.3 | SCA/007 | Canran y cleientiaid a chynllun gofal ar 31 Mawrth, y dylai eu cynlluniau gofal fod wedi'u adolygu a gafodd eu hadolygu yn ystod y flwyddyn | 69.60 | 79.00 | 85.31 | 80.00 | 81.09 | 80.77 | Gwella |
| GOF3 | DIOGELU2 | Canran yr asesiadau risg a gafodd eu cyflwyno i Gyn-hadledd Achos a oedd yn cael eu hystyried yn rhai a oedd yn dangos ansawdd wrth wneud penderfyniad | - | 98.00 | 93.75 | 95.00 | - | - | Gwaethygu |
| GOF3 | SCA/019 (NSI) | Canran y cyfeiriadau diogelu oedolion wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn lle'r mae'r risg wedi ei reoli | 98.64 | 99.47 | 95.72 | 100.00 | 94.45 | 94.66 | Gwaethygu |
| GOF3 | Adn09 | Canran y staff ysgol efo gwiriad Swyddfa Cofnodion Troseddol | - | 99.13 | 98.79 | 100.00 | - | - | Gwaethygu |
| GOF1.2 | SCA/002b (NSI) | Cyfradd y bobl hŷn (sy'n 65 oed neu drosodd) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth | 24.90 | 24.69 | 25.59 | 24.50 | 19.84 | 19.70 | Gwaethygu |

| Allwedd | |
|---|---|
| - | Dim Data |

# GOFAL, IECHYD A LLES

| Prosiect | Cyfeirnod | Mesuryddion Allweddol (Cynllun Strategol) | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | Uchelgais 2013/14 | Cyfartaledd Cymru 2013/14 | Cyfartaledd Teulu 2013/14 | Tuedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| GOF3 | Adn25 | Canran o'r bobl ddylai fod wedi derbyn gwiriad sydd wedi derbyn gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS, CRB gynt) mewn ysgolion Gwynedd | - | - | 86.40 | Gosod Gwaelodlin | - | - | - |
| GOF3 | Adran Diogelu2a | Nifer y staff sydd wedi mynychu hyfforddiant amddiffyn plant drwy'r Uned Datblygu Gweithlu | - | - | 308.00 | Gosod Gwaelodlin | - | - | - |
| GOF3 | Adran Diogelu2b | Nifer y staff sydd wedi mynychu hyfforddiant amddiffyn oedolion drwy'r Uned Datblygu Gweithlu | - | - | 334.00 | Gosod Gwaelodlin | - | - | - |
| GOF1.2 a GOF 1.3 | OED09 | Canran o ddefnyddwyr sy'n adrodd bod Teleofal yn eu galluogi i fyw adref yn annibynnol | - | - | Heb Adrodd | Gosod Gwaelodlin | - | - | - |

| Cyfeirnod | Mesuryddion Allweddol Eraill | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | Uchelgais 2013/14 | Cyfartaledd Cymru 2013/14 | Cyfartaledd Teulu 2013/14 | Tuedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| SCC/024 | Canran y plant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn a chanddynt Gynllun Addysg Personol o fewn 20 diwrnod ysgol i dderbyn gofal neu ymuno ag ysgol newydd yn ystod y flwyddyn | 86.10 | 50.90 | 87.50 | 65% - 73% | 65.00 | 73.40 | Gwella |
| OED04 | Galluogi - Canran y rhai a dderbyniodd wasanaeth Galluogi a ddychwelodd o fewn 2 flynedd | - | 11.70 | 12.60 | 10% - 20% | - | - | Gwaethygu |
| SCA/002b Lleol | Cyfradd pobl hyn (sy'n 65oed neu drosodd) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65oed neu drosodd ar 31 Mawrth - gan eithrio hunan arianwyr | 22.83 | 22.71 (SCA/002b 20.63) | 20.08 | 22.5 - 23 | (SCA/002b 19.84) | (SCA/002b 19.70) | Gwella |
| SCA/018c | Canran o ofalwyr oedolion a gafodd asesiad neu ailasesiad uniongyrchol yn ystod y flwyddyn a wnaeth dderbyn gwasanaeth | 47.57 | 82.27 | 78.52 | 65.13% - 82.27% | 62.80 | 65.13 | Gwaethygu |

| Allwedd | |
|---|---|
| - | Dim Data |

# GOFAL, IECHYD A LLES

| Cyfeirnod | Mesuryddion Allweddol Eraill | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | Uchelgais 2013/14 | Cyfartaledd Cymru 2013/14 | Cyfartaledd Teulu 2013/14 | Tuedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diogelu3 | Canran y cyfeiriadau sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis (eithrio Gwasanaethau Arbenigol Plant) | - | 30.6% (SCC/010 29.95%) | 31.63 | 25% - 29% | (SCC/010 22.20%) | (SCC/010 20.76%) | Gwaethygu |
| LlesPMG2 / SCC/041a | Cynllun llwybr wedi ei gytuno ar gyfer plant mewn gofal | 94.20 | 100.00 | 100.00 | 95% - 100% | 89.50 | 95.10 | Cynnal |
| LlesPMG1 | Cynllun trosiannol wedi ei gytuno ar gyfer plant anabl yn 16 oed | - | Heb Adrodd yn 2012/13 | 100.00 | Datblygol. Gosod gwaelodlin yn 2013-14 | - | - | - |
| Ge02 | Canran plant yn mynychu 1 sesiwn 5x60 neu fwy | - | 70.31 | 79.60 | 72.50 | - | - | Gwella |
| LCS/002(b) | Nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden awdurdodau lleol yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth, pan fydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol | 12135.00 | 12408.00 | 12908.00 | 12644.00 | 8953.59 | 8706.39 | Gwella |
| DADH.42 | Canran o blant erbyn 11oed sydd wedi cyrraedd safon cwricwlwm cenedlaethol mewn nofio | 80.00 | 80.00 | 80.00 | 82.50 | - | - | Cynnal |
| OED12 | Nifer o gyfeiriadau amddiffyn oedolion bregus (POVA) a gwblhawyd yn y cyfnod | 145.00 | 167.00 | 187.00 | Gosod Gwaelodlin | - | - | Gwella |
| Diogelu4a | Nifer gyfarfodydd strategaeth a gynhaliwyd o dan ganllawiau amddiffyn plant | - | - | Heb Adrodd | Datblygol. Gosod gwaelodlin yn 2013-14 | - | - | - |
| Diogelu4b | Canran o gyfarfodydd strategaeth (rhan 3) arweiniodd at ymchwiliad Adran 47 | - | - | Heb Adrodd | Datblygol. Gosod gwaelodlin yn 2013-14 | - | - | - |
| DATBL01 | Canran o boblogaeth Gwynedd sy'n aelodau o ganolfannau hamdden y Cyngor | 11.40 | - | Heb Adrodd | 15.27 | - | - | - |

# GOFAL, IECHYD A LLES

| Allwedd | |
|---|---|
| - | Dim Data |

| Cyfeirnod | Dangosyddion Strategol Cenedlaethol | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | Uchelgais 2013/14 | Cyfartaledd Cymru 2013/14 | Cyfartaledd Teulu 2013/14 | Tuedd | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| SCC/004 | Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael tri lleoliad neu'n fwy yn ystod y flwyddyn | 3.60 | 4.40 | 4.90 | 5.00 | 8.27 | 8.98 | Gwaethygu | ↑ |
| SCC/011b | Canran yr asesiadau cychwynnol wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn lle mae yna dystiolaeth bod Gweithiwr Cymdeithasol wedi gweld y plentyn ar ben ei hun | 45.10 | 40.00 | 47.20 | 45.00 | 42.86 | 50.27 | Gwella | ↑ |
| SCC/033d | Canran y bobl ifanc a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol ac y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy a hwythau'n 19 oed | 91.70 | 87.50 | 100.00 | 100.00 | 93.44 | 93.50 | Gwella | ↑ |
| SCC/033f | Canran y bobl ifanc a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol ac y mae'r awdurdod mewn cysyllitad â hwy, ac y gwyddys eu bod yn ymgymryd ag addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth a hwythau'n 19 oed | 63.60 | 35.70 | 66.70 | 60.00 | 54.80 | 66.96 | Gwella | ↑ |
| SCC/037 | Cyfartaledd y sgôr pwyntiau mewn cysylltiad â chymwysterau allanol plant 16 oed sy'n derbyn gofal mewn unrhywsefyllfa ddysgu a gynhelir gan awdurdod lleol | 314 | 289 | 439 | 290 | 262.02 | 289.84 | Gwella | ↑ |
| SCC/041a | Canran y plant cymwys, perthnasol a phlant a fu'n berthnasol sydd â chynlluniau llwybr yn ôl yr angen | 94.20 | 100.00 | 100.00 | 100.00 | 89.24 | 95.07 | Cynnal | ↑ |
| LCS/002(b) | Nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden awdurdodau lleol yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth, pan fydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol | 12135.19 | 12408.01 | 12906 | 12644 | 8953.59 | 8706.39 | Gwella | ↑ |

# GOFAL, IECHYD A LLES

| Allwedd | |
|---|---|
| - | Dim Data |

| Cyfeirnod | Dangosyddion Strategol Cenedlaethol | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | Uchelgais 2013/14 | Cyfartaledd Cymru 2013/14 | Cyfartaledd Teulu 2013/14 | Tuedd | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| SCA/001 | Cyfradd yr oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed neu drosodd | 1.39 | 1.16 | 1.55 | 1.20 | 4.57 | 2.63 | Gwaethygu | ↑ |
| SCA/019 | Canran y cyfeiriadau diogelu oedolion wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn lle'r mae'r risg wedi ei reoli | 98.64 | 99.47 | 95.72 | 100.00 | 94.45 | 94.66 | Gwaethygu | ↑ |
| SCC/002 | Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth a chanddynt brofiad o symud ysgol unwaith neu ragor, yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, ac nad oedd y symud hwnnw oherwydd trefniadau trosiannol, yn y 12 mis hyd at 31 Mawrth | 14.10 | 14.50 | 22.80 | 14.50 | 13.85 | 14.82 | Gwaethygu | ↓ |
| SCC/033e | Canran y bobl ifanc a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol ac y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy, ac y gwyddys eu bod mewn llety addas, nad yw'n llety argyfwng a hwythau'n 19 oed | 100.00 | 85.70 | 86.70 | 100.00 | 92.74 | 92.17 | Gwella | ↓ |
| SCA/002b | Cyfradd y bobl hŷn (sy'n 65 oed neu drosodd) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth | 24.90 | 24.69 | 25.59 | 23.30 | 19.84 | 19.70 | Gwaethygu | ↓ |
| SCA/002a | Cyfradd y bobl hŷn (sy'n 65 oed neu drosodd) y rhoddir cymorth idydnt yn y gymuned fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth | 50.00 | 47.00 | 46.21 | - | 74.48 | 59.93 | Gwaethygu | ↓ |

PLANT
GOFAL
ECON
AMG
CYM
CYNGOR

# BLAENORIAETH

GOF1 - YMATEB YN WELL I ANGHENION POBL FREGUS I SICRHAU GWASANAETHAU GOFAL CYNALIADWY



## Beth gafodd ei gyflawni?

Mae sicrhau gwasanaethau gofal cynaliadwy sy'n cynnig gwerth am arian, rhoi llais cryfach i ddefnyddwyr ac sy'n cynnig darpariaeth addas o ofal yn y lleoliad cywir yn flaenoriaeth i'r Cyngor. Cafodd y canlynol ei gyflawni:

◊ Sefydlu Uned Ysbaid ym Mhlas Pengwaith, Llanberis.
◊ Adnabod cynllun ar gyfer darpariaeth Gofal Preswyl yn nalgylch Porthmadog.
◊ Cwblhau rhaglen casglu barn gyda phobl sydd â chyswllt gyda chartref Fron Deg Caernarfon.
◊ Creu dogfen ar y cyd â chwe Awdurdod Lleol y Gogledd a'r Bwrdd Iechyd sy'n nodi bwriad y Cyngor ynghylch Gofal Integredig* i bobl hŷn.
◊ Llenwi swydd Cyfarwyddwr Corfforaethol â rôl Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol. Pennaeth Gwasanaethau Oedolion, Iechyd a Llesiant a Pennaeth Gwasanaethau Plant a Chefnogi Teuluoedd yn weithredol.

## Beth sydd angen sylw pellach?

◊ Datblygu modelau llety a gofal dydd ar gyfer pobl ag Anabledd Dysgu.

◊ Dod i gytundeb ar ddyfodol Cartref Fron Deg.

## Pwy sydd wedi elwa?

◊ Annibyniaeth a diogelwch defnyddwyr wedi ei hybu wrth i 80 o becynnau teleofal cymhleth* gael eu darparu o'r newydd , yn arbennig yn maes Anabledd Dysgu.

◊ Pobl gyda chyswllt â chartref Hafod y Gest wedi derbyn sicrwydd o ran y ddarpariaeth gofal yn ardal Porthmadog.

◊ Mae pobl oedd yn rhan o'r cyfathrebu ynglyn â gofal dydd Maesincla wedi mynegi eu balchder o fod wedi eu cynnwys yn y broses a chael y cyfle i roi eu barn o'r cychwyn.

◊ 987 o ddefnyddwyr gwasanaeth wedi derbyn adolygiad o'u pecyn gofal.



*"Cefnogi defnyddwyr ein gwasanaeth i gyrraedd eu llawn botensial gan fyw gartref cyhyd ag y dymunant yn ddiogel a bodlon."*

# BLAENORIAETH

GOF2 - CYNYDDU GWAITH ATALIOL YM MAES GOFAL OEDOLION A PHOBL HYN

## Beth gafodd ei gyflawni?

Mae'r Cyngor am gynyddu gwaith ataliol er mwyn gwella ansawdd bywyd a lleihau'r pwysau ar wasanaethau. Cafodd y canlynol ei gyflawni:

◊ Cyfathrebu parhaus gan y Cyngor yng nghyswllt prosiectau neu safleoedd penodol, gan gynnwys Cartrefi Fron Deg, Caernarfon a Hafod y Gest, Porthmadog.
◊ Parhau gwaith y Pwynt Mynediad Sengl gyda Iechyd, sef creu un man lle gall pobl gysylltu ynglyn â materion iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.
◊ Cynnal gweithgareddau dydd rheolaidd i drigolion dros 55 oed.
◊ Sefydlu gweithgareddau cymdeithasu er cynorthwyo gwellhad pobl gyda phroblemau iechyd meddwl.
◊ Cyhoeddi cyfeirlyfr Partneriaeth Gofalwyr Gwynedd "A ydych chi'n edrych ar ôl rhywun?" sydd yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i bobl o bob oed sy'n gofal am deulu, ffrindiau neu gymdogion.

## Pwy sydd wedi elwa?

◊ Mae pobl a oedd yn rhan o'r cyfathrebu wedi elwa o fod yn rhan o'r broses a chael eu barn wedi ei glywed.

◊ Gweithgareddau Heneiddio'n Dda* wedi eu sefydlu gan Age Cymru o fewn Awel y Coleg a Chysgod y Coleg Y Bala ac hefyd yn y Clwb Rygbi yn Nolgellau. Mae gwaith wedi cychwyn i ehangu'r gwasanaeth yn ardaloedd Blaenau Ffestiniog, Cricieth a Thywyn.

◊ Sefydlwyd clybiau cymunedol i helpu gwellhad. Cynhelir clybiau yn wythnosol ym Mangor ac yng Nghaernarfon a chynigir amrywiaeth o weithgareddau er mwyn helpu pobl gyda phroblemau iechyd meddwl.

## Beth sydd angen sylw pellach?

◊ Cefnogaeth gymunedol a'r cyfleoedd ataliol ym maes gofal oedolion â phobl hŷn.

◊ Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud o 2014/15 ymlaen.

*Yn 2013-14, fe dderbyniodd 462 o ddefnyddwyr wasanaeth Galluogi.*

*Llwyddodd 58% ohonynt i adfer eu hannibyniaeth a gadael heb becyn gofal.*

# BLAENORIAETH

# GOF3 - AMDDIFFYN PLANT AC OEDOLION



## Beth gafodd ei gyflawni?

Mae Diogelu Plant a phobl sy'n agored i niwed yn flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor. Ar sail hyn cafodd y canlynol ei gyflawni yn 2013/14:

◊ Cwblhau a chymeradwyo Polisi Diogelu Corfforaethol.
◊ Adnabod mesuryddion gwella.
◊ Derbyn polisiau adrannol ar gyfer holl Adrannau'r Cyngor gan y Panel Diogelu Strategol*.
◊ Darparu hyfforddiant i staff ac aelodau.
◊ Datblygu dulliau monitro llwyddiannau'r hyfforddiant, dealltwriaeth staff a dulliau comisiynu.
◊ Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ac awdurdodau eraill yn gweld gwaith y Paneli Diogelu Strategol* a Gweithredol yn "ymarfer da".
◊ Gweithredu model risg plant a theuluoedd.
◊ Perfformiad Gwasanaeth Plant Gwynedd ymysg y gorau yng Nghymru o ran sefydlogrwydd lleoliadau i blant mewn gofal yn ystod y flwyddyn.

## Beth sydd angen sylw pellach?

◊ Mae'r Cyngor bellach yn mesur y canran o staff ysgol sydd wedi derbyn gwiriad DBS (Disclosure and Barring Service) wedi ei adnewyddu o fewn y 3 blynedd gofynol.

◊ Yn dilyn newidiadau i'r drefn o weinyddu gwiriadau DBS yn genedlaethol, bydd ymdrech fawr yn cael ei wneud i gyrraedd y targed heriol a osodwyd.

## Pwy sydd wedi elwa?

◊ Wrth sefydlu'r holl weithdrefnau bydd ein plant, pobl ifanc ac oedolion bregus yn fwy diogel, a staff wedi eu harfogi i gyfeirio achosion o bryder i'r Cyngor.

*'Gall y plant a'r bobl ifanc sy'n cael eu lleoli gyda gofalwyr maeth fod yn sicr y bydd y gwasanaeth maethu yn hybu eu diogelwch a'u lles ac yn ymdrechu i sicrhau y gall y lleoliad ddiwallu eu anghenion' ac 'roeddem yn teimlo fod gan y plant lais a'u bod yn cael cyfleoedd i fynegi eu barn, a'u bod yn gallu cael dylanwad ar y ffordd y darperir y gwasanaeth.'*

***Adroddiad Archwiliad Maethu AGGCC 2013***



# BLAENORIAETH

## GOF4 - CYNYDDU GWAITH ATALIOL A THARGEDU ANGHYDRADDOLDEBAU



## Beth gafodd ei gyflawni?

Mae'r Cyngor wedi adnabod bod gwella cyfleon byw'n iach a phrofiad unigolion, lleihau anghydraddoldebau iechyd a prif ffrydio gwaith iechyd trwy'r Cyngor yn flaenoriaeth. Ar sail hyn cafodd y canlynol ei gyflawni:

- ◊ Cychwyn trafodaethau ynglŷn â darparu gwasanaeth ffisiotherapi asesu a blaenoriaethu mewn canolfannau hamdden ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd.
- ◊ Datblygu cynllun ar y cyd gyda Macmillan, y Bwrdd Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Cyngor i sefydlu Clinigau Lles Macmillan* o fewn canolfannau hamdden.
- ◊ Sefydlu Cynllun Rheoli Tybaco gan y Cyngor ym mis Awst 2013.
- ◊ Cwblhau Adolygiad Digonolrwydd Canolfannau Hamdden, a'i gyhoeddi yn Hydref 2013.

## Beth sydd angen sylw pellach?

- ◊ Mae'r Cyngor angen gwell eglurder ar ei rôl o fewn y maes gwella iechyd ac yng nghyd-destun gwaith partneriaid.

  Bwriedir comisiynu adroddiad ar ymyrraethau penodol i'w ddatblygu ymhellach yng Nghynllun Strategol 2014/15.

## Pwy sydd wedi elwa?

Gwaith yn cael ei ddatblygu yw hwn, ac mae'n rhy fuan i adnabod y budd i drigolion ar hyn o bryd. Serch hynny mae potensial mawr i wneud gwahaniaeth i fywydau unigolion a'u teuluoedd drwy Glinigau Lles Macmillan* a'r gwasanaeth ffisiotherapi o fewn canolfannau hamdden.

*Cynllun National Exercise Referral (NERS) ar waith yn y Ganolfan Denis, Caernarfon.*

Mae NERS yn rhaglen gan Llywodraeth Cymru sy'n hybu gweithagredd corfforol mewn pobl nad ydynt yn egniol neu sydd â cyflyrau meddygol penodol.



# YR ECONOMI

## Gweledigaeth

- Gwella'r cyfleoedd i bobl Gwynedd fyw, gweithio a llwyddo'n lleol

## Blaenoriaeth

ECON1 - Cryfhau gwytnwch busnesau a chadw'r budd yn lleol
ECON2 - Gwella ansawdd swyddi a lefelau cyflog
ECON3 - Gwella mynediad i waith ac ymateb i rwystrau







## Canlyniadau

- ◊ Mwy o fuddion i bobl y Sir o gaffael y Cyngor
- ◊ Mwy o fusnesau'r Sir yn tyfu ac efo'r potensial i gyflogi
- ◊ Cynnal lefel goroesiad busnesau'r Sir
- ◊ Mwy o swyddi gwerth uchel yn cael eu creu
- ◊ Mwy o amrywiaeth o waith, a swyddi ar draws y Sir
- ◊ Mwy o gyflogwyr y Sir yn gallu recriwtio pobl leol efo'r sgiliau cywir
- ◊ Mwy o bobl yn symud o fudd-daliadau i waith

| Allwedd | |
|---|---|
| - | Dim Data |

# YR ECONOMI

| Prosiect | Prosiectau Cynllun Strategol | 2013/14 |
|---|---|---|
| ECON1.1 | Prosiect Cadw'r Budd yn Lleol | Gwyrdd |
| ECON1.2 | Prosiect Rhaglen Cyflenwyr Gwynedd | Gwyrdd |
| ECON1.4 | Buddsoddi yng Ngwynedd | Gwyrdd |
| ECON2.1 | Prosiect Swyddi Gwerth Uchel | Gwyrdd |
| ECON2.2 | Prosiect Cynlluniau Cyflogaeth | Ambr |




| Prosiect | Cyfeirnod | Mesuryddion Allweddol (Cynllun Strategol) | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | Uchelgais 2013/14 | Cyfartaledd Cymru 2013/14 | Cyfartaledd Teulu 2013/14 | Tuedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ECON1.1 | ECON1.1a | Canran cytundebau'r Cyngor sy'n mynd i fusnesau lleol; | - | - | 23.94 | Gosod Gwaelodlin | - | - | - |
| ECON1.1 | ECON1.1b | Nifer busnesau'r sir sy'n ennill cytundebau gan y Cyngor; | - | - | 17.00 | Gosod Gwaelodlin | - | - | - |
| ECON1.1 | ECON1.1d | Canran cytundebau caffael y Cyngor dros £500k yn y maes adeiladwaith sydd yn cynnwys ac wedi gweithredu cymalau cymdeithasol perthnasol e.e. i sefydlu prentisiaethau ayyb | - | - | 37.50 | Gosod Gwaelodlin | - | - | - |
| ECON1.2 a ECON1.3 | ECON1.2/3 a | Nifer swyddi wedi eu creu o ganlyniad i weithredu Prosiect Rhaglen Cyflenwyr Gwynedd | - | - | 13.00 | Gosod Gwaelodlin | - | - | - |
| ECON2.2 | ECON2.2a | Nifer swyddi newydd yn cael eu creu o fewn Ardaloedd Gwynedd | - | - | 68.5 FTE | Gosod Gwaelodlin | - | - | - |

PLANT
GOFAL
ECON
AMG
CYM
CYNGOR

| Allwedd | |
|---|---|
| - | Dim Data |

# YR ECONOMI

| Prosiect | Cyfeirnod | Mesuryddion Allweddol (Cynllun Strategol) | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | Uchelgais 2013/14 | Cyfartaledd Cymru 2013/14 | Cyfartaledd Teulu 2013/14 | Tuedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ECON1.2 | ECON1.2a | Ffigwr cymharol busnesau wedi eu cofrestru ar gyfer TAW /PAYE | 116.80 | 115.30 | - | 116.80 | 117.40 | - | - |
| ECON2.1 | ECON2.1a | Canolrif cyflog y sir | £22,903.00 | £23,825.00 | - | Cynnydd | £24,482.00 | - | - |
| ECON1.3 | ECON1.3a | Ffigwr cymharol busnesau Gwynedd sy'n goroesi yn flynyddol | 1.11:1 | 0.76:1 | - | 1.11:1 | 0.92:1 | - | - |
| ECON2.1 | ECON2.1b | Nifer rhai sy'n cael eu cyflogi yn y sectorau Proffesiynol, Gwyddonol, Technolegol, sy'n sectorau isel eu presenoldeb o fewn y sir | 1500.00 | 1200.00 | - | 1500.00 | - | - | - |
| ECON2.1 | ECON2.1bb | Canran rhai sy'n cael eu cyflogi yn y sectorau Proffesiynol, Gwyddonol, Technolegol, sy'n sectorau isel eu presenoldeb o fewn y sir | 3.10 | 2.40 | - | 3.10 | - | - | - |
| ECON1.1 | ECON1.1c | Canran busnesau dargedwyd sy'n mynd ymlaen i dendro am waith y Cyngor | - | | Heb Adrodd | Gosod Gwaelodlin | - | - | - |
| ECON1.2 | ECON1.2b | Nifer busnesau wedi eu cynghori trwy'r Rhaglen Cyflenwyr yn ennill cytundebau; | - | - | 20.00 | Gosod Gwaelodlin | - | - | - |

| Cyfeirnod | Mesuryddion Allweddol Eraill | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | Uchelgais 2013/14 | Cyfartaledd Cymru 2013/14 | Cyfartaledd Teulu 2013/14 | Tuedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| H6 | Nifer o fusnesau yn datblygu gyda chefnogaeth yr Adran Economi | - | 92.00 | 82.00 | 65.00 | - | - | Gwaethygu |
| H7 | Nifer o fusnesau newydd yn cael eu sefydlu gyda chefnogaeth yr Adran Economi | 12.00 | 18.00 | 10.00 | 8 – 12 | - | - | Gwaethygu |
| H8 | Nifer o swyddi newydd wedi eu creu gyda chefnogaeth yr Adran Economi | - | 60.00 | 89.38 | 34.00 | - | - | Gwella |
| H9 | Nifer o swyddi newydd wedi eu diogelu gyda chymorth yr Adran Economi | - | 108.00 | 206.00 | 100.00 | - | - | Gwella |

| Allwedd | |
|---|---|
| - | Dim Data |

# YR ECONOMI

| Cyfeirnod | Mesuryddion Allweddol Eraill | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | Uchelgais 2013/14 | Cyfartaledd Cymru 2013/14 | Cyfartaledd Teulu 2013/14 | Tuedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ieu3 | Canran y bobl ifanc a gefnogir gan weithwyr ieuenctid ysgolion sydd yn ymgysylltu | - | 100.00 | 100.00 | 75.00 | - | - | Cynnal |
| SaC04 | Nifer prentisiaid wedi eu cyflogi | - | 18.00 | 12.00 | 10.00 | - | - | Gwaethygu |
| Twr4 | Budd i'r economi Lleol o gefnogi digwyddiadau proffil uchel a strategol | - | £4.99m | £6.32m | £3.15m - £3.5m | - | - | Gwella |
| SaC01 | Canran yr unigolion oed gwaith a gefnogir sy'n symud ymlaen i waith (Taith i Waith) | - | 7.00 | 7.21 | 10% - 15% | - | - | Gwella |
| Caff06c | Canran o wariant gyda busnesau yng Nghymru | - | 66.32 | Heb Adrodd | - | - | - | - |
| Caff06ch | Canran o wariant gyda busnesau yng Ngogledd Cymru | - | 54.92 | Heb Adrodd | - | - | - | - |
| Caff06d | Canran o wariant gyda busnesau yng Ngwynedd | - | 39.05 | 38.83 | - | - | - | - |

| Cyfeirnod | Dangosyddion Strategol Cenedlaethol | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | Uchelgais 2013/14 | Cyfartaledd Cymru 2013/14 | Cyfartaledd Teulu 2013/14 | Tuedd | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| LCL/001(b) | Nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth | 5741.48 | 5175.72 | 5301.00 | - | 5851.30 | 5776.30 | Gwella | ↓ |

# BLAENORIAETH

ECON1 - CRYFHAU GWYTNWCH BUSNESAU A CHADW'R BUDD YN LLEOL

## Beth gafodd ei gyflawni?

Roedd Cynllun Strategol y Cyngor yn ymateb i'r her i hyfywdra busnesau, ac yn datblygu cyfleon caffael a oedd yn codi o ddatblygiadau mawr newydd: Cafodd y canlynol ei gyflawni yn 2013/14:

◊ Gosod Rhaglen Gaffael Flynyddol y Cyngor, a busnesau lleol yn dechrau dod yn ymwybodol o gyfleon i ennill cytundebau yn 2014/15.

◊ Adnabod y meysydd lle mae diffyg cyflenwyr lleol.

◊ Cynnal rhaglen gymorth gyda busnesau i'w paratoi ar gyfer y ddarpariaeth band-eang cyflym newydd, y sir gyntaf yng Nghymru i wneud hynny.

◊ Cwblhau rhaglen ddigwyddiadau proffil uchel a llai ar draws y sir yn llwyddiannus, gyda 52,214 o bobl yn mynychu'r 13 digwyddiad.

◊ Prosiect *Gwynedd Werdd** yn llwyddo gyda'r cam cyntaf tuag at sicrhau cefnogaeth Ewropeaidd y Rhaglen Datblygu Gwledig*.

## Beth sydd angen sylw pellach?

◊ Sicrhau targedu a churo drysau busnesau lleol i'w cysylltu efo cyfleon cytundebau'r Cyngor.

◊ Ail-gydio yn y gwaith o sefydlu anghenion cytundebau Ynys Ynni* (Môn) ac, o hynny, codi ymwybyddiaeth busnesau Gwynedd o'r cyfleon—bu oedi yn 2013/14 oherwydd disgwyl am gadarnhad olynydd cwmni Horizon ar gyfer arwain gwaith Wylfa Newydd.

◊ Parhau i gefnogi busnesau'r sir i elwa o gyfleon newydd: cytundebau cyflenwi; yr is-adeiledd bandeang cyflym rhagorol fydd ar draws y sir.

## Pwy sydd wedi elwa?

◊ 267 o gyflenwyr lleol wedi derbyn cymorth i dendro, a chytundebau gwerth £10,384,152 wedi eu hennill gan fusnesau'r sir trwy bartneriaeth â Busnes Cymru, gan greu 13 a gwarchod 171 o swyddi.

◊ 110 o fusnesau lleol wedi manteisio o'r don gyntaf o weithdai a sesiynau un i un *Gwynedd Ddigidol* ar gyfer dod ag e.fasnachu ac agweddau digidol eraill yn rhan o'r busnes.

◊ Manteisiodd busnesau ar draws y sir o'r £6.32m o arian ychwanegol a ddenwyd i'r economi leol trwy *Yma Mae Pethau yn Digwydd,* a sicrhaodd 254 o gwmniau'r sir gytundebau gan y digwyddiadau.



*"Dwi'n meddwl eich bod chi hogia yn gwneud gwaith anhygoel a'ch bod chi wirioneddol wedi rhoi'r digwyddiad a'r ardal ar y map".*
**Sir David Brailsford – am ddigwyddiad Etape Eryri**

*"Hi, llongyfarchiadau ar ddigwyddiad gwych, mae'r pentref wedi bod yn ferw gwyllt ers Dydd Gwener"*
**Busnes yn Llanberis**

PLANT
GOFAL
ECON
AMG
CYM
CYNGOR

# BLAENORIAETH

## ECON 2 - GWELLA ANSAWDD SWYDDI A LEFELAU CYFLOG



## Beth gafodd ei gyflawni?

Er mwyn ymateb i ddibyniaeth y sir ar nifer fechan o sectorau gwaith, yn enwedig rhai efo cyflogau is, cydweithiodd y Cyngor i fanteisio ar gyfleon arloesedd Prifysgol Bangor, ac ar ddynodiad Parth Menter Eryri. Cafodd y canlynol ei gyflawni:

◊ Cytundeb ar raglen trosglwyddo arloesedd o feysydd ymchwil penodol o fewn Prifysgol Bangor; cafodd busnesau lleol eu cysylltu gyda'r Brifysgol.

◊ Sicrhau cefnogaeth Llywodraeth Cymru i wella amgylchedd Glannau Caernarfon ar y Safle Treftadaeth Byd.

◊ Cafodd y seiliau eu darparu ar gyfer cais Safle Treftadaeth y Byd yr Ardaloedd Llechi, gyda phartneriaeth gref wedi ei sefydlu ar draws y cyrff treftadaeth lleol a chenedlaethol.

## Pwy sydd wedi elwa?

◊ Mae 22 cwmni fedr gynnig swyddi gwerth uchel wedi derbyn cefnogaeth i ddilyn i fyny ar eu hymholiadau o ran lleoli yn y sir.

◊ Mae 17 cwmni fedr gynnig swyddi gwerth uchel wedi derbyn y cyfle i drafodaethau manwl a/neu ymweld â safleoedd addas yn y sir.

◊ Mae sawl cwmni arbenigol mewn meysydd gwerth uchel yn werthfawrogol o'r gefnogaeth a gawson nhw i ystyried y posibilrwydd o leoli yng Ngwynedd.

◊ Mae gan Ardal Meirionnydd 68.5 o swyddi newydd ar gael i bobl leol yn ystod y flwyddyn trwy brosiectau'r Cynllun Cyflogaeth.

## Beth sydd angen sylw pellach?

◊ Cwblhau Cynllun Cyflogaeth Llŷn ac Eifionydd yn dilyn rhoi cyfle i Aelodau Etholedig yr ardal drafod y data, ac adnabod lle mae'r angen mwyaf.

◊ Parhau i ddatblygu'r sector greadigol yn y sir, gan fanteisio ar y momentwm sydd wedi ei greu ymysg busnesau'r sector gan yr ymdrech aflwyddiannus i ddenu pencadlys S4C i Gaernarfon.

◊ Parhau i weithredu'r prosiect i gefnogi sefydlu clwstwr o fusnesau yn cynnig swyddi gwerth uchel o fewn y sir e.e. ar safleoedd Parth Menter Eryri.



*Trafodaeth: Safle Trawsfynydd, Parth Menter Eryri*

*"Roeddwn am ddiolch i chi a'ch cydweithwyr am ein croesawu a'n cefnogi ar ein hymweliad â Thrawsfynydd. Caniataodd y cyfle i ymweld â'r safle i ni roi'r heriau o fewn cyd-destun, ac yn bwysicach fyth i weld y cyfleon mae'r safle yma yn ei gynnig. Edrychwn ymlaen at drafodaethau pellach".*
***Buddsoddwr posibl yn dilyn ymweliad cychwynnol***

# BLAENORIAETH

ECON 3 - GWELLA MYNEDIAD I WAITH AC YMATEB I RWYSTRAU



## Beth gafodd ei gyflawni?

Bu'r Cyngor yn cydweithredu â chynghorau eraill y Gogledd er mwyn medru ateb angen busnesau'r sir i recriwtio pobl ifanc lleol gyda'r sgiliau cywir. Cafodd y canlynol ei gyflawni yn 2013/14:

◊ Cytundeb chwe Awdurdod Lleol y Gogledd ar y meysydd allweddol ar gyfer sgilio yn y rhanbarth, gan gynnwys rhoi sylw yn y Strategaeth Sgilio a Chyflogadwyedd newydd i:

- Anactifedd Economaidd
- NEET (rhai ddim mewn addysg, gwaith na chyflogaeth)
- Sgiliau Arwain a Rheoli
- Sgiliau yn y Gweithle
- Sgiliau i gefnogi datblygiad y Parthau Menter, sectorau allweddol a sectorau gwerth uchel.

## Pwy sydd wedi elwa?

Gwaith yn cael ei ddatblygu yw hwn, mae'n rhy fuan i adnabod y budd i drigolion ar hyn o bryd.

## Beth sydd angen sylw pellach?

◊ Cyflwyno bid Ewropeaidd (yn ddibynnol ar amserlen Rhaglenni Ewropeaidd).

◊ Cwblhau'r Strategaeth ynghyd â'r cynllun gweithredu. Bydd ceisiadau am gyllid Ewropeaidd yn cael eu datblygu gan y partneriaid er mwyn cynyddu sgiliau, ymateb i anghenion cyflogwyr, paratoi pobl ar gyfer cyfleon gwaith newydd, a goresgyn y rhwystrau mae pobl yn eu hwynebu o ran mynediad i waith.



# YR AMGYLCHEDD

## Gweledigaeth

- Hybu cyflenwad addas o gartrefi i bobl Gwynedd
- Hybu amgylchedd diogel a chynaliadwy gyda chysylltiadau hwylus

## Blaenoriaeth

AMG1 - Hybu cyflenwad addas o dai ar gyfer pobl leol

AMG2 - Lleihau allyriadau carbon

AMG3 - Ymateb i fygythiadau newid hinsawdd

AMG4 - Lleihau faint o wastraff sy'n mynd i'w dirlenwi







## Canlyniadau

- ◊ Mwy o ddarpariaeth o unedau llai mewn llefydd ag angen
- ◊ Cynyddu darpariaeth tai fforddiadwy
- ◊ Lleihad yn allyriadau carbon Cyngor Gwynedd a'r sector gyhoeddus yn y Sir
- ◊ Ymatebion i fygythiadau newid hinsawdd yn y tymor hir wedi eu hadnabod
- ◊ Cynnydd yn y nifer o drigolion sy'n byw mewn ardaloedd a risg uchel o lifogydd hefo 'cynllun' i ymateb i achlysuron o ifogydd
- ◊ Gwelliant yng ngallu'r Cyngor i ymateb er mwyn cynorthwyo trigolion i ddelio gyda sgil effeithiau achlysuron o lifogydd
- ◊ Cynyddu lefelau ailddefnyddio / ailgylchu / compostio
- ◊ Lleihau ein dibyniaeth ar dirlenwi

# YR AMGYLCHEDD

| Prosiect | Prosiectau Cynllun Strategol | 2013/14 |
|---|---|---|
| AMG1.1 | Prosiect Tai Gwag Nôl i Ddefnydd | Gwyrdd |
| AMG1.2 | Prosiect Tai Fforddiadwy | Gwyrdd |
| AMG1.3 | Prosiect Cynllun Datblygu Unedol / Cynllun Datblygu Lleol | Gwyrdd |
| AMG1.4 | Prosiect Tai ar gyfer Anghenion Penodol | Ambr |
| AMG2 | Cynllun Rheoli Carbon y Cyngor | Gwyrdd |
| AMG3.1 | Prosiect Ymateb i Fygythiadau Newid Hinsawdd | Gwyrdd |
| AMG3.2 | Prosiect i gynyddu y nifer o drigolion sy'n byw mewn ardaloedd a risg uchel o lifogydd hefo 'cynllun' i ymateb i achlysuron o lifogydd | Coch |
| AMG3.3 | Prosiect Gwella gallu'r Cyngor i ymateb er mwyn cynorthwyo trigolion i ddelio gyda sgil effeithiau achlysuron o lifogydd | Gwyrdd |
| AMG4 | Prosiect Lleihau Gwastraff | Gwyrdd |



| Allwedd | |
|---|---|
| - | Dim Data |

# YR AMGYLCHEDD

| Prosiect | Cyfeirnod | Mesuryddion Allweddol (Cynllun Strategol) | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | Uchelgais 2013/14 | Cyfartaledd Cymru 2013/14 | Cyfartaledd Teulu 2013/14 | Tuedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| AMG1.1 | DAT01* | Nifer tai gwag hirdymor yn y sir [6 mis a drosodd] wedi dod nôl i ddefnydd | 48.00 | 48.00 | 54.00 | 54.00 | - | - | Gwella |
| AMG1.2 | Strat6 | Nifer o unedau fforddiadwy a sicrhawyd i Wynedd | 62.00 | 72.00 | 70.00 | 53.00 | - | - | Gwaethygu |
| AMG1.2 | PLA/006 (NSI) | Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fel canran yr holl unedau tai ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn | 23.26 | 30.00 | 41.00 | 16.00 | 37.46 | 31.97 | Gwella |
| AMG1.4 | PSR/002* (NSI) | Y nifer o ddiwrnodau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i roi Grant Cyfleusterau i'r Anabl | 281.27 | 298 | 242 | 280 | 238.88 | 244.58 | Gwella |
| AMG2 | CYNCA06 | Canran newid mewn allyriadau carbon yn y stoc adeiladau annomestig | 13.84 | 15.06 | 30.76 | 18.00 | - | - | Gwella |
| AMG4 | WMT/009 (NSI) | Canran gwastraff bwrdeistrefol a ailddefnyddir / ailgylchir / compostir | 46.42 | 51.52 | 54.01 | 54.00 | 54.33 | 57.00 | Gwella |
| AMG4 | WMT/004 (NSI) | Gwastraff a dirlenwir | 51.84 | 46.92 | 45.88 | 46.00 | 37.72 | 37.52 | Gwella |
| AMG4 | P60 | Lwfans Tirlenwi | 20607.00 | 20695.00 | 19650.00 | 20649.00 | - | - | Gwella |
| AMG2 | CYNCA07 | Canran newid mewn allyriadau carbon sy'n gysylltiedig a theithiau busnes | - | | 0.97 | 1.00 | - | - | - |
| AMG4 | PB53 | Canran o eiddo domestig sy'n defnyddio'r gwasanaeth casglu bwyd wythnosol. | - | 38.00 | 50.00 | 55.00 | - | - | Gwella |
| AMG1.1 a AMG1.2 | AMG1a | Nifer o unedau 1/2 lofft sydd wedi eu creu ar gyfer eu rhentu | - | - | 27.00 | 34.00 | - | - | - |
| AMG4 | PB51 | Canran gwastraff masnachol a ailddefnyddir / ailgylchir / compostir | 17.23 | 27.30 | 30.79 | 40.00 | - | - | Gwella |
| AMG4 | PB55 | Tunnelledd Gwastraff bwyd a gompostir | - | - | 3935.06 | 6000.00 | - | - | - |

| Allwedd | |
|---|---|
| - | Dim Data |

# YR AMGYLCHEDD

| Prosiect | Cyfeirnod | Mesuryddion Allweddol (Cynllun Strategol) | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | Uchelgais 2013/14 | Cyfartaledd Cymru 2013/14 | Cyfartaledd Teulu 2013/14 | Tuedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| AMG1.1 a AMG1.2 | CTC01 | Canran o'r ymgeiswyr sydd wedi cofrestru ar Gofrestrau Tai Cyffredin yn chwilio am uned llai i'w rhentu | - | - | Heb Adrodd | Gosod Gwaelodlin | - | - | - |
| AMG3.2 | AMG3.2a | Canran o unigolion hefo 'cynlluniau' mewn lle i ymateb i achlysuron o lifogydd yn dilyn y gwaith ymgysylltu | - | - | Heb Adrodd | Gosod Gwaelodlin | - | - | - |
| AMG3.3 | BARN04b | Canran o swyddogion allweddol y Cyngor sy'n adrodd gwelliant ym mharodrwydd y Cyngor i ymateb i fygythiad llifogydd | - | - | 83.34 | Gosod Gwaelodlin | - | - | - |

| Cyfeirnod | Mesuryddion Allweddol Eraill | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | Uchelgais 2013/14 | Cyfartaledd Cymru 2013/14 | Cyfartaledd Teulu 2013/14 | Tuedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| PPN/008ii | Canran y busnesau newydd wedi eu canfod a oedd yn destun i ymweliad asesu risg neu a wnaeth ddychwelyd holiadur hunan asesu yn ystod y flwyddyn ar gyfer Hylendid Bwyd | 73.00 | 90.00 | 95.00 | 90.00 | 83.00 | 90.27 | Gwella |
| PPN/009 | Canran o sefydliadau bwyd sydd yn 'cydymffurfio'n fras' â safonau hylendid bwyd | 88.72 | 95.42 | 97.49 | 90.00 | 86.03 | 89.47 | Gwella |
| THS/009 | Nifer o ddyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn i atgyweirio holl ddiffygion ar lampau stryd | 2.40 | 3.70 | 2.70 | 3.20 | 4.30 | 3.65 | Gwella |
| Y2 | Perfformiad Adran Ymgynghoriaeth yn erbyn eu targed ariannol | 1027469.00 | 571414.00 | 1407327.00 | 1074250.00 | - | - | Gwella |
| PLA/004b | Canran yr holl geisiadau cynllunio perthnasol wedi eu pennu o fewn 8 wythnos | 48.60 | 70.10 | 72.86 | 75.00 | 72.79 | 70.89 | Gwella |
| PLA/004a | Canran y ceisiadau cynllunio mawr wedi'u pennu o fewn 13 wythnos | 35.00 | 50.00 | 57.14 | 60.00 | 34.50 | 36.67 | Gwella |
| THS/011(a) | Cyflwr y prif ffyrdd (Dosbarth A) mewn cyflwr drwg | 5.70 | 5.20 | 4.40 | 4.10 | 5.30 | 5.20 | Gwella |

| Allwedd | |
|---|---|
| - | Dim Data |

# YR AMGYLCHEDD

| Cyfeirnod | Mesuryddion Allweddol Eraill | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | Uchelgais 2013/14 | Cyfartaledd Cymru 2013/14 | Cyfartaledd Teulu 2013/14 | Tuedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| THS/011(b) | Cyflwr ffyrdd heblaw'r prif ffyrdd (Dosbarth B) mewn cyflwr drwg | 5.50 | 5.30 | 4.70 | 4.20 | 7.50 | 7.80 | Gwella |
| THS/011(c) | Cyflwr ffyrdd dosbarth (C) mewn cyflwr drwg | 7.70 | 10.30 | 14.70 | 7.00 | 18.80 | 20.00 | Gwaethygu |

| Cyfeirnod | Dangosyddion Strategol Cenedlaethol | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | Uchelgais 2013/14 | Cyfartaledd Cymru 2013/14 | Cyfartaledd Teulu 2013/14 | Tuedd | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| PLA/006(b) | Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fel canran yr holl unedau tai ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn | 23.26 | 30.00 | 41.00 | 16.00 | 37.46 | 31.97 | Gwella | ↑ |
| WMT/009 (b) | Canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol ac a gaiff ei baratoi ar gyfer ei ailddefnyddio a'i ailgylchu/neu ei ailgylchu, gan gynnwys deunyddiau bio-wastraff wedi eu gwahanu yn eu tarddle ac a gompostir neu a drinnir yn fiolegol mewn ffordd arall | 46.42 | 51.52 | 54.01 | 54.00 | 54.33 | 57.00 | Gwella | ↓ |
| STS/006 | Canran yr achosion o dipio gwastraff yn anghyfreithlon y rhoddwyd gwybod amdanynt ac y cliriwyd y gwastraff o fewn 5 diwrnod gwaith | 95.08 | 93.80 | 97.67 | 95.00 | 95.03 | 95.99 | Gwella | ↑ |
| THS/007 | Canran yr oedolion sy'n 60 oed neu drosodd sy'n ddeiliaid tocynnau teithio rhatach ar y bws | 71.39 | 84.93 | 84.56 | 82.63 | 84.31 | 77.27 | Gwaethygu | ↑ |
| PSR/002 | Y nifer o ddiwrnodau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i roi Grant Cyfleusterau i'r Anabl | 281.27 | 298 | 242 | 280 | 238.88 | 244.58 | Gwella | ↓ |
| WMT004(b) | Canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol ac a anfonir i safle tirlenwi | 51.84 | 46.92 | 45.88 | 46.00 | 37.72 | 37.52 | Gwaethygu | ↓ |

| Allwedd | |
|---|---|
| - | Dim Data |

# YR AMGYLCHEDD

| Cyfeirnod | Dangosyddion Strategol Cenedlaethol | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | Uchelgais 2013/14 | Cyfartaledd Cymru 2013/14 | Cyfartaledd Teulu 2013/14 | Tuedd | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| HHA/013 | Canran yr holl aelwydydd a allai fod yn ddigartref ac yr ataliwyd iddynt fod yn ddigartref am 6 mis o leiaf | 66.30 | 92.47 | 42.20 | 85.00 | 66.43 | 72.20 | Gwaethygu | ↓ |
| PSR/004 | Canran yr anheddau sector preifat a oedd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis ar 1 Ebrill ac a feddiannwyd eto yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol | 4.32 | 4.34 | 5.24 | - | 9.23 | 5.90 | Gwella | ↓ |

PLANT
GOFAL
ECON
AMG
CYM
CYNGOR

# BLAENORIAETH

## AMG1 - HYBU CYFLENWAD O DAI AR GYFER POBL LEOL

### Beth gafodd ei gyflawni?

Mae Cynllun Strategol y Cyngor wedi adnabod nad oes digon o dai addas ar gael i drigolion lleol yn y Sir sydd o'r math a'r maint cywir, yn y lleoliad iawn ac am y pris cywir (fforddiadwy). Ar sail hyn, cafodd y canlynol ei gyflawni:

- ◊ Dod â 54 o unedau gwag nôl i ddefnydd erbyn diwedd y flwyddyn gyda 34 yn unedau llai. Yn ogystal cafodd arian grant ychwanegol ei glustnodi i ddod â 10 o unedau pellach yn ôl i ddefnydd cyn diwedd Mehefin 2014/15.
- ◊ 70 o unedau tai fforddiadwy ychwanegol ar gyfer pobl leol gyda 27 o'r rhain yn unedau llai ar gyfer eu rhentu.
- ◊ Gwaith ymchwil i adnabod modelau eraill i'w gweithredu er mwyn darparu tai fforddiadwy yng Ngwynedd yn y dyfodol.
- ◊ Adnabod dewisiadau ar gyfer lleihau'r amser y mae'n ei gymryd i gwblhau addasiadau i'r anabl.

### Beth sydd angen sylw pellach?

Bydd y gwaith canlynol yn parhau yn ystod 2014/15:

- ◊ Adnabod modelau amgen o ddefnydd tai gwarchod yn ardal Meirionnydd.
- ◊ Sefydlu Strategaeth Lletya Pobl Hŷn.

### Pwy sydd wedi elwa?

- ◊ 54 o unedau tai gwag wedi dod nôl i ddefnydd gyda 34 ohonynt yn unedau llai.
- ◊ 50 o unigolion o Wynedd wedi elwa o waith i ddod a 24 o unedau tai gwag nôl i ddefnydd trwy gynllun grantiau.
- ◊ 194 o bobl Gwynedd wedi elwa o waith i sefydlu 70 o unedau tai fforddiadwy ychwanegol ar gyfer pobl leol.
- ◊ Unigolion sydd yn derbyn grant cyfleusterau i'r anabl wedi elwa o adnabod opsiynau i leihau'r amser i gwblhau addasiadau.

*"Mae ein cartref newydd wedi gwneud byd o wahaniaeth yn gymdeithasol, economaidd ac i iechyd corfforol fy merch a mi."* **Unigolyn sydd wedi derbyn tŷ fforddiadwy i'w rentu.**



*Datblygiad Tai Fforddiadwy Cae Solomon, Pwllheli*

*De: Tŷ Gwag wedi dod nôl i ddefnydd yn Llan Ffestiniog*





# BLAENORIAETH

## AMG2 - LLEIHAU ALLYRIADAU CARBON



## Beth gafodd ei gyflawni?

Mae Cynllun Strategol y Cyngor wedi adnabod yr angen i leihau effaith allyriadau carbon ar yr amgylchedd a'i gyfraniad tuag at newid yn yr hinsawdd fel blaenoriaeth. Ar sail hyn, cafodd y canlynol ei gyflawni yn 2013/14:

◊ Gweithredu naw cynllun buddsoddi i arbed er mwyn lleihau'r allyriadau sy'n deillio'n uniongyrchol o weithgareddau'r Cyngor yn unol a'r hyn sydd yn y Cynllun Rheoli Carbon.

◊ Lleihau ein defnydd ynni yn arw o ganlyniad i gynlluniau codi ymwybyddiaeth, monitro defnydd ynni yn ofalus, a chynlluniau cynnal a chadw cyffredinol.

◊ Lleihad mewn allyriadau carbon sy'n deillio o weithgareddau'r Cyngor o 25%, ers 2005/06 (blwyddyn waelodlin).

## Beth sydd angen sylw pellach?

◊ Ni chafodd un o'r cynlluniau ei weithredu oherwydd y sefyllfa ariannol (Cynllun Biomas yng Nghanolfan Hamdden Tywyn) a bu oedi ar ddau gynllun pellach (Optimeiddio foltedd mewn cartrefi preswyl a throsglwyddo i ddefnyddio biodanwydd mewn pyllau nofio). Bydd y gwaith hwn yn parhau yn ystod 2014/15.

## Pwy sydd wedi elwa?

◊ Y Cyngor wedi gweld lleihad mewn allyriadau carbon o 25% ers 2005/06 (blwyddyn waelodlin).

◊ Mae lleihad y Cyngor mewn defnydd o ynni yn arwain at arbedion refeniw blynyddol o £159,000 yn 2013/14 a chyfanswm o £593,000 ers cychwyn y Cynllun yn 2010/11.

◊ Trigolion Gwynedd yn elwa o well amgylchedd o ganlyniad i'r lleihad mewn allyriadau ac maent hefyd yn cael budd o'r arbedion ariannol.

*Paneli Solar ar Bencadlys y Cyngor yng Nghaernarfon*





*Paneli Solar a disgyblion Ysgol Llanrug*

*Cyng. Gareth Roberts a Ffion Ferris, Canolfan Hamdden Dwyfor gyda'r Uned Rheoli Foltedd*



# BLAENORIAETH

## AMG3 - YMATEB I FYGYTHIADAU NEWID HINSAWDD

## Beth gafodd ei gyflawni?

Mae Cynllun Strategol y Cyngor wedi adnabod nad yw'r trefniadau presennol ar gyfer ymateb i fygythiadau newid hinsawdd yn addas a chynaliadwy ac mae felly yn rhoi blaenoriaeth i'r maes. Ar sail hyn, cafodd y canlynol ei gyflawni:

- ◊ Adnabod dewisiadau datblygu ac anghenion isadeiledd i'w hystyried ar gyfer ardal Pwllheli er mwyn ymateb i newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol.
- ◊ Paratoi polisiau cynllunio defnydd tir i reoli/lliniaru effeithiau newid hinsawdd.
- ◊ Cynnal ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth a thrafodaethau gyda thrigolion mewn ardaloedd â risg uchel o lifogydd.
- ◊ Gwelliant yn nhrefniadau mewnol y Cyngor ac ystyried cyfloedd i fod yn fwy rhagweithiol er mwyn cynorthwyo trigolion i ddelio gydag effeithiau llifogydd.

## Beth sydd angen sylw pellach?

Bydd y gwaith o gynorthwyo trigolion i adnabod camau ymarferol a chynlluniau er mwyn atal neu liniaru effeithiau tebygol llifogydd ar eiddo yn parhau.

## Pwy sydd wedi elwa?

- ◊ Bydd gan bobl ardal Pwllheli ddarlun cliriach o gyfleon datblygu posibl ar gyfer tai a chyflogaeth ac anghenion isadeiledd yn yr ardal ar gyfer y dyfodol
- ◊ 280 o bobl wedi derbyn gwybodaeth fanwl am effeithiau tebygol ar eu cymunedau yn rhan o'r gwaith codi ymwybyddiaeth o fewn 36 o Gynghorau Cymuned
- ◊ Nododd 83% o swyddogion allweddol y Cyngor bod y Cyngor yn eithaf parod, parod neu'n gwbl barod i allu ymateb i lifogydd



*Llifogydd yn Ardal Pwllheli*

# BLAENORIAETH

## AMG4 - LLEIHAU FAINT O WASTRAFF SY'N MYND I'W DIRLENWI



## Beth gafodd ei gyflawni?

Mae Cynllun Strategol y Cyngor wedi adnabod lleihau gor-ddibyniaeth ar waredu gwastraff i safleoedd tirlenwi gan gynyddu lefelau ailddefnyddio, ail-gylchu a chompostio fel blaenoriaeth. Cafodd y canlynol ei gyflawni:

◊ Ailddefnyddio/ailgylchu/compostio 54% o wastraff trefol y Sir.

◊ Penderfynu penodi darparwr allanol i waredu gwastraff gweddilliol Gwynedd a chau safle tirlenwi Ffridd Rasus, Harlech.

◊ Cytuno gyda darparwr ar gyfer technoleg amgen i ymdrin â gwastraff gweddilliol o 2018 ymlaen mewn partneriaeth gydag awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru.


## Beth sydd angen sylw pellach?

◊ Roedd cynnydd yn y lefel o wastraff masnachol sydd wedi ei ailddef-nyddio/ailgylchu/compostio i 31%. Fodd bynnag roedd hyn yn llai na'r uchelgais a osodwyd ar gyfer y flwyddyn (40%). Bydd gwaith i gynyddu y lefelau yn parhau.

◊ Bydd sylw pellach hefyd yn cael ei roi i gynyddu lefelau'r gwastraff bwyd sy'n cael ei gasglu ar gyfer ei gompostio. Cafodd 3,935 tunnell o wastraff bwyd ei gasglu o fusnesau a thai Gwynedd. Roedd hyn yn brin o'r targed o 4,000 tunnell.

## Pwy sydd wedi elwa?

◊ Pobl a busnesau Gwynedd wedi cynyddu lefelau ailddefnyddio/ailgylchu/compostio gwastraff (sef y dull lleiaf costus yn ariannol ac yn amgylcheddol yn y tymor hir o ymdrin â gwastraff).




*Graff yn dangos tueddiadau gwastraff trefol yng Ngwynedd 2010/11— 2013/14*


# CYMUNEDAU CRYF

## Gweledigaeth

- Cydweithio i greu dyfodol hyderus a Chymraeg
- Lleihau effaith amddifadedd ar bobl Gwynedd

## Blaenoriaeth

CC1 - Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg
CC2 - Lleihau effaith tlodi ac amddifadedd
CC3 - Hybu cymunedau gwledig cynaliadwy
CC4 - Hybu balchder a chyfrifoldeb cymunedol







## Canlyniadau

- Atal y dirywiad yn y nifer o siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd
- Mwy o bobl yn gallu ymdopi efo'r her ariannol yn annibynnol
- Llai o bobl yn cael eu derbyn yn ddigartref
- Llai o gartrefi yn profi tlodi tanwydd.
- Lleihau'r dirywiad cymharol mewn adnoddau cyhoeddus i'r Cyngor oherwydd natur wledig y Sir
- Gwella cynaliadwyedd gwasanaethau'r Cyngor mewn ardaloedd gwledig
- Rhyddhau capasiti a hybu balchder lleol

| Allwedd | |
|---|---|
| - | Dim Data |

# CYMUNEDAU CRYF

| Prosiect | Prosiectau Cynllun Strategol | 2013/14 |
|---|---|---|
| CC1 | Prosiect Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg | Ambr |
| CC2.1 | Prosiect Diwygio Lles | Gwyrdd |
| CC2.2 | Prosiect Lesu Tai Preifat | Ambr |
| CC2.3 | Prosiect Atal Digartrefedd | Ambr |
| CC3 | Hybu Cymunedau Gwledig Cynaliadwy | Gwyrdd |
| CC4 | Hybu balchder a chyfrifoldeb - Ffordd Gwynedd (Rheoli Galw) | Coch |






| Prosiect | Cyfeirnod | Mesuryddion Allweddol (Cynllun Strategol) | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | Uchelgais 2013/14 | Cyfartaledd Cymru 2013/14 | Cyfartaledd Teulu 2013/14 | Tuedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CC1 | CC1a | Y nifer o gymunedau sydd yn gweithredu o blaid y Gymraeg trwy ddefnyddio'r Fframwaith Gweithredu Lleol | - | - | 4.00 | 4.00 | - | - | - |
| CC2.1 | CD12.05 | Nifer o deuluoedd sydd wedi derbyn Cymorth o'r Gronfa Caledi (Taliadau Tai Dewisol) | - | - | 1452.00 | 250.00 | - | - | - |
| CC2.3 | HHA/016 | Cyfartaledd nifer y diwrnodau y mae pob teulu digartref gyda phlant wedi eu treulio mewn llety gwely a brecwast | 52.75 | 40.80 | 22.25 | 35.00 | 22.91 | 36.79 | Gwella |
| CC2.3 | GTLLEOL6 | Nifer pobl wedi derbyn cymorth o'r Gronfa Atal Digartrefedd trwy flaendal rhent a/neu daliad rhent ymlaen llaw | - | - | 121.00 | 40.00 | - | - | - |

| Allwedd | |
|---|---|
| - | Dim Data |

# CYMUNEDAU CRYF

| Prosiect | Cyfeirnod | Mesuryddion Allweddol (Cynllun Strategol) | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | Uchelgais 2013/14 | Cyfartaledd Cymru 2013/14 | Cyfartaledd Teulu 2013/14 | Tuedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CC1 | GY06 | Canran o ddisgyblion enillodd lefel 3 da neu uwch [lefel 3 ysgrifennu yn y Gymraeg] yn CA2 (7-11 oed) a gafodd asesiad athro yn y Gymraeg iaith gyntaf ar ddiwedd CA3 (11-14 oed) | 93.90 | 93.80 | 95.60 | 97.50 | 17.01 | 32.78 | Gwella |
| CC2.2 a CC2.3 | HHA/013 (NSI) | Canran yr holl aelwydydd a allai fod yn ddigartref ac yr ataliwyd iddynt fod yn ddigartref am 6 mis o leiaf | 66.30 | 92.47 | 42.20 | 85.00 | - | - | Gwaethygu |
| CC1 | CC1b | Y nifer o ysgolion cynradd Gwynedd sydd wedi derbyn gworbrwyau Efydd, Arian ac Aur o dan y Siarter Iaith | - | - | 21.00 | Gosod Gwaelodlin | - | - | - |
| CC2.1 | CC2.1a | Nifer rhai yn derbyn cyngor yn mynd i ddyled | - | - | Heb Adrodd | Gosod Gwaelodlin | - | - | - |
| CC2.1 | CC2.1aa | Canran rhai yn derbyn cyngor yn mynd i ddyled | - | - | Heb Adrodd | Gosod Gwaelodlin | - | - | - |
| CC3 | CC3a | Nifer o weithgareddau cymdeithasol wedi eu cynnal yn ardaloedd balchder cymunedol | - | - | Heb Adrodd | Gosod Gwaelodlin | - | - | - |

| Cyfeirnod | Mesuryddion Allweddol Eraill | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | Uchelgais 2013/14 | Cyfartaledd Cymru 2013/14 | Cyfartaledd Teulu 2013/14 | Tuedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CD12.04 | Yr amser a gymrwyd i brosesu digwyddiadau o newid mewn Budd-daliadau Tai a Budd-daliadau'r Dreth Gyngor | 6.00 | 5.68 | 5.20 | 7 diwrnod | 7.00 | - | Gwella |
| DAT02 | Niferoedd Digartref mewn Gwely a Brecwast | 13.00 | 13.00 | 10.00 | 12 – 15 achos | - | - | Gwella |
| HHA/008 | Canran y cyflwyniadau digartref sy'n cael eu penderfynu o fewn 33 diwrnod gwaith | 86.27 | 77.40 | 81.84 | 77.4% - 88.7% | 88.70 | 88.49 | Gwella |

| Allwedd | |
|---|---|
| - | Dim Data |

# CYMUNEDAU CRYF

| Cyfeirnod | Mesuryddion Allweddol Eraill | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | Uchelgais 2013/14 | Cyfartaledd Cymru 2013/14 | Cyfartaledd Teulu 2013/14 | Tuedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CD12.03 | Yr amser a gymerir i brosesu hawliadau newydd am Fudd-daliadau Tai a Budd-daliadau'r Dreth Gyngor | 27.00 | 21.03 | 21.77 | 21 diwrnod | 21.00 | - | Gwaethygu |

| Cyfeirnod | Dangosyddion Strategol Cenedlaethol | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | Uchelgais 2013/14 | Cyfartaledd Cymru 2013/14 | Cyfartaledd Teulu 2013/14 | Tuedd | Perfformiad yn erbyn Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| EDU/006ii | Canran y disgyblion a aseswyd mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cael Asesiad Athrawon yn y Gymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 (11-14 oed) | 83.10 | 86.10 | 82.50 | 88.00 | 17.01 | 32.78 | Gwaethygu | ↑ |

# BLAENORIAETH

# CC1 - HYRWYDDO'R IAITH GYMRAEG

## Beth gafodd ei gyflawni?

Mewn ymateb i'r Cyfrifiad, roedd Cynllun Stratgol y Cyngor yn awyddus i ddod at wraidd pam bod amrywiaeth eang yn y nifer o bobl sydd yn gallu siarad Cymraeg mewn gwahanol ardaloedd. Roedd hefyd angen sicrhau fod y Gymraeg, a defnydd cymdeithasol ein plant a phobl ifanc ohoni yn ffynnu. Ar sail hyn, cafodd y canlynol ei gyflawni yn 2013/14:

◊ Cynorthwyo 21 ysgol cynradd sydd yn rhan o gynllun peilot i ennill gwobr efydd y Siater Iaith Gymraeg.

◊ Sefydlu cynlluniau i wella trefniadau er mwyn cwrdd gyda gofynion y fframwaith "Mwy na Geiriau" er mwyn i ddefnyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol dderbyn gofal yn yr iaith o'u dewis.

## Beth sydd angen sylw pellach?

Gweithredu ar gasgliad y gwaith ymchwil yn dilyn y Cyfrifiad.

Parhau i gydweithio gyda'r ysgolion uwchradd er mwyn sefydlu i ba raddau mae plant a phobl ifanc yn defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol.

Nid yw'r newid diwylliant sydd ei angen i wreiddio egwyddorion "Mwy na Geiriau" o fewn y Cyngor a'r gymuned gofal ehangach am ddigwydd dros nos. Tra bod Polisi Iaith y Cyngor a gwaith y flwyddyn gyntaf wedi gosod seiliau cadarn, mi fydd y gwaith o weithredu egwyddorion y fframwaith yn parhau.

Annog a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yng ngweithloedd y sector gyhoeddus.

## Pwy sydd wedi elwa?

◊ Disgyblion mewn 21 ysgol gynradd wedi cymryd rhan yng ngweithgareddau y Siarter Iaith Gymraeg.

◊ Cymunedau ym Mangor, Y Felinheli, Dolbenmaen a Dolgellau â gwell dealltwriaeth o sefyllfa'r iath Gymraeg yn eu hardal.

**Sylwadau gan rai o fynychwyr yr Academi:**



*"Cwrs gwych – wedi bod o gymorth mawr i ddatblygu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn ffurfiol ac anffurfiol."*

*"Mae fy hyder yn defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle wedi cynyddu'n fawr ac rydw i rŵan yn gyfforddus yn e-bostio yn y Gymraeg hefyd!"*

# BLAENORIAETH

## CC2 - LLEIHAU EFFAITH TLODI AC AMDDIFADEDD



## Beth gafodd ei gyflawni?

Oherwydd y newidiadau i'r drefn budd-daliadau lles, gan gynnwys y "dreth llofftydd", yn 2013/14, roedd Cynllun Strategol y Cyngor yn ymateb i effaith incwm isel ar aelwydydd, ac i'r peryg i deuluoedd o leihad pellach mewn incwm a digartrefedd posib. Cafodd y canlynol ei gyflawni yn 2013/14:

◊ Gweithredu'r Gronfa Galedi*, gan roi cymorth ariannol i 947 o gartrefi oherwydd cyfyngiadau nifer llofftydd. Derbyniodd 505 cartref arall gymorth i ddelio gyda sefyllfa o galedi cyffredinol.

◊ Gweithredu'r gronfa i atal digartrefedd, gan fedru ymateb i 93% o'r galw.

◊ Cael eglurder ar yr opsiynau ar gyfer buddsoddi mewn eiddo addas yn y blynyddoedd nesaf i atal digartrefedd.

## Pwy sydd wedi elwa?

◊ Manteisiodd 1,452 o deuluoedd ar y cymorth ar gael trwy'r Cyngor i ymdopi efo amgylchiadau o galedi, gan gynnwys addasu i newidiadau yn y Budd-daliadau Lles.

◊ Cafodd 754 o unigolion sengl gymorth, ond hefyd 327 o rieni sengl a 110 o gyplau efo plant—a thrwy hynny cafodd gwelliant yn amgylchiadau 696 o blant ei gefnogi.

◊ Derbyniodd 179 o deuluoedd mewn peryg o fod yn ddigartref gymorth i osgoi hynny.

## Beth sydd angen sylw pellach?

◊ Cychwyn ar y gwaith o baratoi a sgilio pobl ar gyfer y newid yn y drefn budd-daliadau lles, unwaith bydd trefniadau, canllawiau gweithredu ac amserlen Llywodraeth Prydain yn glir.

◊ Canfod eiddo addas yn y mannau lle mae'r galw er mwyn gwireddu'r addewid o ddarparu saith uned fyw ar gyfer cartrefu unigolion bregus.

◊ Gweithio i atal digartrefedd, a chefnogi hawlwyr budd-daliadau i ymdopi'n ariannol, gan hefyd ymateb i'r ffactorau penodol sy'n achosi tlodi yng Ngwynedd.



*Un o gartrefi'r prosiect Lesu Tai Preifat*

# BLAENORIAETH

## CC3 HYBU CYMUNEDAU GWLEDIG CYNALIADWY
## CC4 HYBU BALCHDER A CHYFRIFOLDEB CYMUNEDOL



## Beth gafodd ei gyflawni?

Mae Awdurdodau Gwledig fel Gwynedd wedi canfod eu hunain mewn cylchdro anfad ers tro. Mae hyn yn golygu dirywiad economaidd a diboblogi ynghyd â lleihad mewn adnoddau cyhoeddus o gymharu gydag awdurdodau dinesig. Ar sail hyn, cafodd y canlynol ei gyflawni gan y Cyngor yn 2013/14:

◊ Bod yn flaenllaw wrth godi ymwybyddiaeth Gweinidogion y Llywodraeth ynghylch effaith y cylch anfad ar awdurdodau fel Gwynedd. Hefyd, cafodd ymateb cynhwysfawr ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar yr ymgynghoriad i godi trethi ar ail gartrefi.

◊ Manteisio yn llawn ar y cynllun "Cyflymu Cymru*" i ddarparu mynediad i fand-eang cyflym i ardaloedd ar draws Gwynedd. Mae mynediad i wasanaethau ar lein mewn ardaloedd gwledig yn allweddol er mwyn sicrhau cyfleoedd.

## Beth sydd angen sylw pellach?

Bydd y Cyngor yn parhau i amlygu effaith y cylch anfad ar awdurdodau gwledig.

## Pwy sydd wedi elwa?

◊ 60% o eiddo yng Ngwynedd bellach gyda mynediad i fand-eang cyflym, gyda'r nifer yn cynyddu yn wythnosol.

# Y CYNGOR

## Gweledigaeth

- Pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud

## Blaenoriaeth

DT1 - Hybu diwylliant drwy'r Cyngor cyfan o roi pobl Gwynedd yn ganolog i'n holl waith a'n penderfyniadau
DT2 - Ymgysylltu'n effeithiol â phobl Gwynedd a sicrhau eu cyfranogaeth a'u perchnogaeth o'r dyfodol
DT3 - Gwneud defnydd mwy effeithlon o adnoddau, gan geisio lleihau effaith toriadau ar bobl Gwynedd
DT4 - Manteisio ar 'faint' y Cyngor er lles pobl Gwynedd (gweithredu cynlluniau arbennig a sefydlu mentrau)
DT5 - Lleihau'r galw ar wasanaethau drwy atal ac ymyrraeth gynnar







## Canlyniadau

◊ Un weledigaeth gyffredin a chlir i bawb yn y Cyngor

◊ Trefniadau ymgysylltu addas er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y pethau sydd o bwys i bobl Gwynedd ac er mwyn medru blaenoriaethu ein hadnoddau'n briodol


◊ Gwneud defnydd mwy effeithlon o adnoddau a cheisio lleihau effaith toriadau ar bobl Gwynedd

◊ Mwy o bobl Gwynedd ar eu hennill yn sgil cyflwyno cynlluniau sydd yn manteisio ar faint y Cyngor

| Allwedd | |
|---|---|
| - | Dim Data |

# DIWYLLIANT A THREFNIADAU BUSNES Y CYNGOR

| Prosiect | Prosiectau Cynllun Strategol | 2013/14 |
|---|---|---|
| DT1 | Prosiect Ffordd Gwynedd | Ambr |
| DT3.1 | Prosiect Effeithlonrwydd Strategol y Cyngor | Gwyrdd |
| DT3.2 | Prosiect Cytundeb Canlyniadau | Gwyrdd |
| DT3.3 | Prosiect Gwireddu Arbedion | Ambr |
| DT3.4 | Blaenoriaethu Gwasanaethau | Gwyrdd |
| DT2 | Prosiect Ymgysylltu | Ambr |




| Prosiect | Cyfeirnod | Mesuryddion Allweddol (Cynllun Strategol) | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | Uchelgais 2013/14 | Cyfartaledd Cymru 2013/14 | Cyfartaledd Teulu 2013/14 | Tuedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| DT1 | CYF11 | Canran o drigolion Gwynedd sydd yn credu bod y Cyngor yn cynnig gwerth am arian. | - | 50.45 | 54.00 | 49.00 | - | - | Gwella |
| DT1 | CYSCW11 | Nifer gwasanethau sydd ar gael drwy hunan wasanaeth | - | - | 73.00 | 73.00 | - | - | - |
| DT1 | CYSCW05 | Canran ceisiadau am wasanaeth sydd yn cael eu cyfarch yn syth gan Galw Gwynedd | - | 35.21 | 35.39 | 35.00 | - | - | Gwella |
| DT1 | CYSCW06 | Canran ceisiadau am wasanaeth sydd yn cael eu cyfarch yn syth gan Siop Gwynedd | - | 72.00 | 79.11 | 70.00 | - | - | Gwella |
| DT1 | CYF09 | Canran o drigolion Gwynedd sy'n fodlon gyda'r ffordd y mae Cyngor Gwynedd yn rhedeg pethau | - | 58.42 | 73.00 | 52.00 | - | - | Gwella |

PLANT
GOFAL
ECON
AMG
CYM
CYNGOR

| Allwedd | |
|---|---|
| - | Dim Data |

# DIWYLLIANT A THREFNIADAU BUSNES Y CYNGOR

| Prosiect | Cyfeirnod | Mesuryddion Allweddol (Cynllun Strategol) | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | Uchelgais 2013/14 | Cyfartaledd Cymru 2013/14 | Cyfartaledd Teulu 2013/14 | Tuedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| DT2 | CYF10 | Canran o drigolion Gwynedd yn teimlo ei fod yn bosibl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal leol; | - | 32.88 | 31.00 | 32.00 | - | - | Gwaethygu |
| DT3 | DT3.2 | Cyfran o'r arbedion a gyflawnwyd sy'n arbedion ef-feithlonrwydd | - | - | 95.80 | 96.80 | - | - | - |
| DT3 | DT3.1 | Swm arbedion a gyflawnwyd | - | - | £3.35m | £4.4m | - | - | - |
| DT3 | DT3.3 | Cyfran o'r arbedion a gyflawnwyd sy'n doriadau gwasanaeth | - | - | 2.50 | 1.90 | - | - | - |
| DT3 | DT3.4 | Cyfran o fesurau perfformiad gwasanaeth allweddol yn y meysydd lle cyflawnwyd arbedion effeithlonrwydd, lle na wnaeth perfformiad ddirywio | - | - | 74.00 | 100.00 | - | - | - |
| DT2 | DT2.4 | Beth yw ymdeimlad aelodau etholedig yn eu cyfanrwydd o'r trefniadau ymgysylltu ar ddiwedd y cyfnod? | - | - | 6.00 | Gosod Gwaelodlin | - | - | - |
| DT1 | CYSCW12 | Nifer o unedau gwaith o fewn y Cyngor sydd wedi derbyn marc siartr llawn "Ffordd Gwynedd" | - | - | Heb Adrodd | Gosod Gwaelodlin | - | - | - |
| DT1 | CYSCW13 | Nifer o adolygiadau parhaus wedi eu cynnal er mwyn darparu gwell gwasanaeth i bobl Gwynedd | - | - | Heb Adrodd | Gosod Gwaelodlin | - | - | - |
| DT1 | CYSCW15 | Canran o drigolion Gwynedd sydd yn rhoddi sgôr o 7 neu lai i'r gofal cwsmer a dderbyniwyd | - | - | Heb Adrodd | Gosod Gwaelodlin | - | - | - |
| DT1 | D6.22 | Canran staff ac aelodau sydd yn credu bod arweinwyr Cyngor Gwynedd yn arddel egwyddorion "Ffordd Gwyn-edd" | - | - | Heb Adrodd | Gosod Gwaelodlin | - | - | - |
| DT1 | D6.23 | Canran o staff yn datgan eu bod yn teimlo eu bod wedi eu grymuso i weithio'n hyblyg i gyflawni anghenion y cwsmer | - | - | Heb Adrodd | Gosod Gwaelodlin | - | - | - |

| Allwedd | |
|---|---|
| - | Dim Data |

# DIWYLLIANT A THREFNIADAU BUSNES Y CYNGOR

| Prosiect | Cyfeirnod | Mesuryddion Allweddol (Cynllun Strategol) | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | Uchelgais 2013/14 | Cyfartaledd Cymru 2013/14 | Cyfartaledd Teulu 2013/14 | Tuedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| DT2 | DT2.2 | Faint o drigolion Gwynedd sydd wedi cymryd rhan er mwyn dylanwadu ar yr hyn sydd yn digwydd o fewn y sir | - | - | Heb Adrodd | Gosod Gwaelodlin | - | - | - |
| DT2 | DT2.3 | Faint o'r ymarferion ymgysylltu sydd wedi arwain at ddylanwadu ar y cynllun terfynol | - | - | Heb Adrodd | Gosod Gwaelodlin | - | - | - |

| Cyfeirnod | Mesuryddion Allweddol Eraill | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | Uchelgais 2013/14 | Cyfartaledd Cymru 2013/14 | Cyfartaledd Teulu 2013/14 | Tuedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CD5.01 | Llwyddiant i gadw o fewn y gyllideb | -0.17 | -0.03 | -0.14 | + / - 0.4% | - | - | Cynnal |
| CD6.01 | Canran yr anfonebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod (ar draws y Cyngor) | 93.00 | 94.00 | 94.00 | 92.00 | 89.80 | 89.50 | Cynnal |
| CD11.01 | Cyfradd Casglu Blwyddyn Gyfredol Treth Cyngor | 96.80 | 97.15 | 96.98 | 96.80 | 96.70 | 97.20 | Gwaethygu |
| CR2 | Canran Argymhellion ymchwiliadau craffu wedi'u derbyn gan yr Aelodau Cabinet | - | 100.00 | 100.00 | 70.00 | - | - | Cynnal |
| RhPe1 | Canran adrannau sydd â'u cyfresi mesuryddion am 2013/14 yn rhoi ffocws ar ganlyniadau | 91.00 | 91.00 | 100.00 | 91% - 100% | - | - | Gwella |
| RhPe9 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) o drefniadau gwella a gwir berfformiad y Cyngor | - | Da | Da | Da | - | - | Cynnal |
| Rhag8 | Canran canlyniadau y cynllun strategol wedi eu gwireddu | - | 57.00 | 68.00 | 66.00 | - | - | Gwella |
| PEN13 | Canran o staff perthnasol sydd wedi derbyn gwiriad Disclosure and Barring (DBS) o fewn 2 fis i ddyddiad eu penodiad | - | Heb Adrodd | 100.00 | 95% - 100% | - | - | - |
| PEN01 | Nifer o ddamweiniau difrifol fel a ddiffinnir gan Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (AGID) | - | 4.00 | 5.00 | 6.00 | - | - | Gwaethygu |

| Allwedd | |
|---|---|
| - | Dim Data |

# DIWYLLIANT A THREFNIADAU BUSNES Y CYNGOR

| Cyfeirnod | Mesuryddion Allweddol Eraill | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | Uchelgais 2013/14 | Cyfartaledd Cymru 2013/14 | Cyfartaledd Teulu 2013/14 | Tuedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| D2.1 | Nifer o ddyddiau a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch fesul aelod o staff (lefel presenoldeb y Cyngor) | 8.29 | 8.52 | 8.20 | 8.00 | 10.60 | 10.20 | Gwella |
| PEN12 | Ymgysylltiad staff fel yr adroddwyd fel scor yn yr arolwg staff "Best Companies" | 573.00 | 565.00 | Heb Adrodd | Cynnydd o 5% (593) | - | - | - |
| PEN06 | Canran y staff perthnasol a gafodd eu gwerthuso Mawrth i Fehefin (ar lefel y Cyngor) | - | Heb Adrodd | Heb Adrodd | 90% - 100% | - | - | - |

PLANT
GOFAL
ECON
AMG
CYM
CYNGOR

# BLAENORIAETH

# FFORDD GWYNEDD (DT1, DT2, DT4 a DT5)

## Beth gafodd ei gyflawni?

Mae'r Cyngor wedi cychwyn taith gyffrous i newid diwylliant y gweithlu, gan roi pobl Gwynedd yn ganolog i bob dim rydym yn ei wneud. Cafodd y canlynol ei gyflawni yn 2013/14:

- ◊ Trigolion Gwynedd yn medru defnyddio'r llyfrgelloedd, canolfannau hamdden neu gysylltu gyda swyddogion y Cyngor am y tro cyntaf dros gyfnod y Nadolig.
- ◊ Mabwysiadu'r Strategaeth Ymgysylltu er mwyn gwella trefniadau ymgysylltu. Bydd hyn o gymorth i'r Cyngor siarad a gwrando ar y cyhoedd a phartneriaid.
- ◊ Hwyluso cydweithio er mwyn delio gyda'r cyfnod heriol. Enghraifft o'r cydweithio hyn oedd chwe chymuned yn gwirfoddoli i fod yn rhan o beilot Eryrod Eira, sef cynllun i'w galluogi i glirio eira a rhew o balmentydd yn ystod tywydd gaeafol.

## Pwy sydd wedi elwa?

- ◊ Chwe chymuned wedi eu harfogi i gydweithio er mwyn delio gyda thywydd gaeafol.
- ◊ 63% o drigolion Gwynedd yn fodlon gyda'r ffordd mae'r Cyngor yn rhedeg pethau.
- ◊ 31% o drigolion Gwynedd yn credu bod modd iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal.
- ◊ Swyddfa Archwilio Cymru o'r farn bod y newidiadau diweddar i drefniadau llywodraethu'r Cyngor yn debygol o atgyfnerthu ei allu i werthuso a gwella gwasanaethau.

## Beth sydd angen sylw pellach?

Nid yw'r newid diwylliant sydd ei hangen am ddigwydd dros nos. Mae angen newid sylweddol, sydd am gymryd amser i wreiddio yn nhrefniadau'r Cyngor ac hefyd yn ymddygiad swyddogion. Trwy fabwysiadu Strategaethau Ffordd Gwynedd ac Ymgysylltu, fe fydd y gwaith o weithredu'r newid diwylliant hyn yn derbyn sylw yn ystod y flwyddyn nesaf a thu hwnt.

Mae cyfle i bawb gydweithio (boed yn weithlu'r Cyngor, cyhoedd neu asiantaethau cyhoeddus eraill) a hynny er budd trigolion Gwynedd.

# BLAENORIAETH

## DT3 - GWNEUD DEFNYDD MWY EFFEITHLON O ADNODDAU, GAN GEISIO LLEIHAU EFFAITH TORIADAU AR BOBL GWYNEDD

## Beth gafodd ei gyflawni?

Mae tafluniad bwlch ariannol y Cyngor dros y pedair blynedd nesaf yn awgrymu y byddwn angen darganfod £52miliwn o arbedion. Gan fod y Cyngor wedi cynllunio a rhoi sylw i arbedion dros y blynyddoedd diwethaf, a drwy gynnydd treth Cyngor, gellir lleihau'r bwlch yma i £34miliwn.
Er mwyn dygymod gyda'r pwysau ariannol mawr yma fe ddatblygwyd cyfundrefn arbedion, a fydd yn galluogi'r Cyngor i wireddu'r arbedion am y tair blynedd o 2015/16. Cafodd y canlynol ei gyflawni yn 2013/14:

◊ Yn 2013/14, fe wireddwyd £3.3 miliwn o arbedion ac fe ddatblygwyd cynlluniau effeithlonrwydd cyfwerth â £2 filiwn ar gyfer 2014/15.

◊ Fe lwyddwyd i ennill y swm llawn o £1.3 miliwn ar gyfer Cytundeb Canlyniadau'r Llywodraeth yn dilyn perfformiad ar brosiectau a mesuryddion allweddol sy'n cyfrannu tuag at Strategaeth Ariannol y Cyngor.

## Beth sydd angen sylw pellach?

◊ Ni lwyddwydd i wireddu 17% neu £640,000 o arbedion 2013/14 oherwydd oedi gyda rhai cynlluniau ac fe barheir i roi sylw i'r cynlluniau

◊ Bwriedir cytuno mesuryddion Cytundeb Canlyniadau 2013-16 gyda'r Llywodraeth yn fuan gan na lwyddwyd i wneud hynny oherwydd llithriad yn amserlen y Llywodraeth.


◊ Byddwn yn parhau i gadw llygad ar effaith arbedion ar fesuryddion perfformiad allweddol. Yn 2013/14 mae 9 allan o'r 35 mesurydd wedi dirywio. Ni ellir datgan yn bendant bod y dirywiad mewn perfformiad wedi digwydd yn sgil gwireddu arbedion.

## Pwy sydd wedi elwa?

◊ Mae'r Cyngor wedi medru osgoi toriadau yn 2013/14 drwy wireddu 96% o'r arbedion drwy gynlluniau effeithlonrwydd h.y. sicrhau Gwerth am Arian i drigolion Gwynedd.

◊ Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn datgan bod y Cyngor, ac felly'r cyhoedd, wedi elwa o arweinyddiaeth gadarn o safbwynt cynllunio ariannol yn 2013/14.

**Tafluniad bwlch ariannol tebygol y Cyngor 2014/15 - 2017/18**



# RHESTR TERMAU

| Maes | Term | Diffiniad |
|---|---|---|
| PLANT | Canolfan Rhagoriaeth Addysg Arbennig | Canolfan Ragoriaeth ar gyfer addysg arbennig cyfrwng Cymraeg, a fydd hefyd yn cynnig gwasanaethau pres-wyl ac arbenigol ar gyfer plant yng Ngwynedd a thu hwnt. |
| | Model 5 Haen | Haenau gwahanol o ddarpariaeth addysgol i gefnogi pobl ifanc i fod yn llwyddiannus yn eu gyrfa addysgol, hyfforddiant a chyflogaeth. |
| | Gwarant Ieuenctid | Mae'r Warant Ieuenctid yn cynnwys cynnig, derbyn a chychwyn lle addas mewn addysg neu hyfforddiant. Mae wedi'i hanelu at unrhyw berson ifanc sy'n symud am y tro cyntaf o addysg orfodol yn 16 oed. |
| | Ymchwiliad Craffu | Ymchwiliad gan gynghorwyr sydd ddim ar y cabinet i fater sydd o bryder iddynt fel pwyllgor Craffu mewn maes arbennig. |
| GOF | Canolfan Heneiddio'n Dda | Mae Canolfannau Heneiddio'n Dda yn ganolfannau sy'n cael eu cefnogi gan Age Cymru, ac wedi eu dat-blygu i hyrwyddo lles pobl dros 50 oed ac yn byw yng Ngwynedd. Mae nifer o weithgareddau ar gael yn y canolfannau, gan gynnwys Tai Chi, crefft a hanes lleol, neu mae posib galw draw i gael paned a chymdeithasu. |
| | Clinigau Lles Macmillan | Mae Clinigau Lles Macmillan yn cynnig cymorth i bobl sydd wedi bod trwy triniaeth cancr ac nawr yn ceisio dygymod â bywyd ar ôl cancr. Gall cleifion a'i gofalwyr siarad i weithwyr iechyd proffeisynol a chyngohor-wyr eraill am:<br>deiet a ffordd da o fyw, sgîl-effeithiau hir dymor posib y driniaeth, materion yn ymwneud gyda'ch math chi o ganser, budd-daliadau a chymorth ariannol arall, sut i fynd yn ôl i'r gwaith, gwasanaethau lleol, cyfleuster-au a chyfleoedd eraill sydd ar gael. |
| | Gofal Integredig | Mae Gofal Integredig yn gysyniad sy'n dwyn ynghyd mewnbynnau, gweithredu, rheoli a threfnu gwasanaeth-au sy'n gysylltiedig â diagnosis, triniaeth, gofal, adsefydlu a hybu iechyd. Mae integreiddio yn fodd i wella gwasanaethau mewn perthynas â mynediad, ansawdd, boddhad defnyddwyr ac effeithlonrwydd. |
| | Panel Diogelu Strategol | Mae'r Panel Diogelu Strategol yn banel sydd wedi ei sefyldu i oruchwylio trefniadau Diogelu Plant ac Oe-dolion bregus ar draws y Cyngor. |

# RHESTR TERMAU

| Maes | Term | Diffiniad |
|---|---|---|
| GOF | Tai Gofal Ychwanegol (TGY) | Cyfleusterau sy'n cefnogi'r rhai hynny sydd angen gofal ychwanegol i fyw yn fwy annibynnol. Tai hunangynhaliol â chefnogaeth a gofal yn ôl yr angen ydynt. Mae'r gwasanaethau yma ar gael 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos. |
| | Teleofal | Offer technoleg gynorthwyol sy'n galluogi pobl i fyw mor annibynnol â phosib yn eu cartrefi. Mae'n cynnwys larymau monitro ffordd o fyw. |
| | Teleofal Cymhleth | Mae pecyn teleofal cymhleth yn cynnwys pecyn sylfaenol, sef botwm argyfwng a larwm tân wedi ei gysylltu gyda chanolfan fonitro, ac unrhyw beth sy'n ychwanegol i hyn. Gall gynnwys sensoriaid epilepsi neu gymryd meddyginiaeth. Pecyn sydd wedi ei deilwra i anghenion yr unigolyn. |
| | Ymyrraeth Byr | Mae ymyrraeth byr yn dechneg sy'n dysgu pobl sut i wneud y mwyaf o gyfleoedd i godi ymwybyddiaeth, rhannu gwybodaeth a chael pobl i feddwl am wneud newidiadau er mwyn gwella eu hiechyd a'u hymddygiad ar sail un-i-un. |
| AMG | Cynllun Lletya Pobl Hyn | Cynllun er mwyn darparu dewisiadau a math gwahanol o lety i bobl hŷn |
| CYM | Gronfa Galedi | Cronfa yn ôl disgresiwn yw'r Gronfa Galedi (y Gronfa) sy'n darparu cymorth dros dro yn wyneb caledi ariannol ar gyfer gweithwyr ar dâl isel iawn sy'n methu gweithio dros dro o ganlyniad uniongyrchol i fod yn ddioddefwr trosedd dreisiol. |
| | Cyflymu Cymru | Band llydan ffeibr cyflym ar gyfer cartrefi a busnesau ar draws y wlad. |
| CYNGOR | Cytundeb Canlyniadau | Sefydlwyd Cytundebau Canlyniadau rhwng pob awdurdod lleol unigol a Llywodraeth Cymru dros gyfnod o dair mlynedd. Mae'r Cytundebau Canlyniadau yn gysylltiedig â grant pro-rata a delir i awdurdod yn ôl y graddau y mae wedi cyflawni'r canlyniadau a nodir yn ei Gytundeb. |

**Rt Hon Alex Salmond MSP**
First Minister of Scotland

St Andrew's House, Regent Road, Edinburgh EH1 3DG
T: 0845 774 1741

The Scottish Government
Riaghaltas na h-Alba

In 2014 Scotland Welcomes the World

Councillor Dewi Owen
Chairman
Cyngor Gwynedd Council
Swyddfa'r Cyngor
Gwynedd
LL55 1SH

11th August 2014

Dear Councillor Owen

Thank you for your letter of 29 July on behalf of Gwynedd Council.

I was delighted to note the kind words of support from Gwynedd Council for the people of Scotland at this important time in the history of these islands. These sentiments of friendship and goodwill for the future are warmly reciprocated. Scottish independence will not just be good for Scotland; it will be good for all of the nations of these islands. By shifting the centre of economic gravity of these islands it will help create opportunities for co-operation, prosperity and partnership which will mutually benefit Wales and Scotland.

The motion passed by Gwynedd Council demonstrates the fact that Wales has nothing to lose, and much to gain, from the establishment of a successful independent Scotland.

On behalf of the Scottish Government, I look forward to a future of close collaboration between an independent Scotland and our neighbours – in a partnership which will be good for Scotland, good for Wales, and good for all of the nations of these islands.

Yours for Scotland

Alex Salmond

**ALEX SALMOND**

**Rt Hon Alex Salmond MSP**
First Minister of Scotland

St Andrew's House, Regent Road, Edinburgh EH1 3DG
T: 0845 774 1741

The Scottish Government
Riaghaltas na h-Alba

Councillor Dewi Owen
Chairman
Cyngor Gwynedd Council
Swyddfa'r Cyngor
Gwynedd
LL55 1SH

In 2014 Scotland Welcomes the World

LEGACY 2014
XX COMMONWEALTH GAMES SCOTLAND

Homecoming Scotland 2014
homecomingscotland.com

RYDER CUP 2014
GLENEAGLES SCOTLAND 2014

11th August 2014

Dear Councillor Owen

Annwyl Gynghorydd,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 29 Gorffennaf ar ran Cyngor Gwynedd.

Roeddwn yn hynod falch o dderbyn cefnogaeth a geiriau caredig Cyngor Gwynedd i bobl yr Alban mewn cyfnod allweddol bwysig yn hanes yr ynysoedd hyn. Hoffwn ddychwelyd y neges hon o gyfeillgarwch ac ewyllys da i'r dyfodol. Bydd annibyniaeth i'r Alban nid yn unig yn llesol i'r Alban; bydd yn llesol i holl genhedloedd yr ynysoedd hyn. Drwy symud canolbwynt grym economaidd yr ynysoedd hyn bydd annibyniaeth yn galluogi creu cyfleon i gyd-weithio ac i sicrhau ffyniant a phartneriaethau fydd yn elwa Cymru a'r Alban.

Mae'r cynnig a basiwyd gan Gyngor Gwynedd yn dyst i'r ffaith nad oes gan Gymru ddim i'w golli a llawer i'w ennill o sefydlu Alban annibynnol a llwyddiannus.

Ar ran Llywodraeth yr Alban, edrychaf ymlaen at gydweithio agos rhwng Alban annibynnol a'n cymdogion – mewn partneriaeth fydd yn dda i'r Alban, yn dda i Gymru, ac yn dda i holl genhedloedd yr ynysoedd hyn.

Yours for Scotland.
Alex Salmond

**ALEX SALMOND**